**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 19EG MAWRTH, 2020**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 12/3/20)

## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

### AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Steve Collings
E. Selwyn Griffiths
Elin Walker Jones
Huw Gruffydd Wyn Jones
Mair Rowlands
Aled Ll. Evans
Judith Mary Humphreys
Gareth Jones
Olaf Cai Larsen
Paul John Rowlinson

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Freya Bentham
Beth Lawton
Elfed Powell Roberts
Elwyn Jones
Dewi Wyn Roberts

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd
Gareth Williams

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Dewi Owen

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

**Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig**

| | |
|---|---|
| Anest Gray Frazer | Eglwys yng Nghymru |
| [sedd wag] | Yr Eglwys Gatholig |
| Dylan Davies | Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr Meirionnydd |
| Karen Vaughan Jones | Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr Dwyfor |
| [sedd wag] | Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr Arfon |

**Heb Bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Dilwyn Elis Hughes | UCAC |
| Neil Foden | NEU (Cymru) |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 6 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2020 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 5. ADRODDIAD AR DDEILLIANNAU 2019 AC ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2018-19 10 - 64

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams**

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

*10.30yb – 11.30yb

## 6. CLUDIANT ADDYSG 65 - 68

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams**

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

*11.30yb – 12.15yp

## 7. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU I EFFAITH DATBLYGIADAU ADEILADAU NEWYDD AR ANSAWDD ADDYSG 69 - 100

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams**

Ystyried adroddiad terfynol drafft yr Ymchwiliad Craffu  (ynghlwm)

<u>*12.15yp – 12.45yp</u>

Cynhelir sesiwn anffurfiol ar gyfer yr aelodau ar derfyn y cyfarfod.

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 23 IONAWR 2020

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Freya Bentham, Steve Collings, Aled Evans, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elin Walker Jones, Gareth Jones, Huw Wyn Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Roberts a Gareth Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc)
Nia Morris (Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr:- Dewi Owen, Elfed Roberts a Mair Rowlands.
Anest Gray Frazer (Eglwys yng Nghymru), Dilwyn Elis Hughes (UCAC) a David Healey (ATL)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3 MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Gan gyfeirio at eitem 7 o gofnodion y cyfarfod blaenorol – Cynigion Arbedion yr Adran Addysg ac Ysgolion a'r Adran Economi a Chymuned, nododd aelod na chredai fod brawddeg olaf y cofnod o'r drafodaeth a phenderfyniad (b), er yn gywir, yn gwneud cyfiawnder â naws y drafodaeth, o gofio bod y pwyllgor wedi derbyn yr adroddiad, ond ddim wedi cymeradwyo'r hyn oedd ynddo.

Mewn ymateb i'r sylw, nododd y Cadeirydd ei fod o'r farn bod y paragraffau uwchben y penderfyniad yn gwneud yn glir nad oedd y pwyllgor yn derbyn bod y toriadau'n dderbyniol. Roedd barn y pwyllgor wedi'i gyflwyno i'r Cabinet, oedd bellach wedi penderfynu nad oeddent am weithredu'r arbedion.

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2019 fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD DIWEDDARU AIL-FODELU'R GWASANAETH IEUENCTID**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor craffu ar gynnydd blwyddyn gyntaf yr ail-fodelu.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun gan egluro bod y blaen adroddiad yn adrodd y naratif, sef hanes y daith, tra bo'r atodiad, sef y rhan pwysicaf yn ei dŷb ef, yn manylu ar yr hyn oedd wedi digwydd yn ystod blwyddyn gyntaf yr ail-fodelu, h.y. beth oedd wedi mynd yn dda a beth oedd ddim wedi mynd cystal. Eglurodd mai'r prif gasgliad oedd bod y rhaglen waith wedi'i chwblhau, ond bod y gwasanaeth yn parhau ar daith hir sy'n newid yn gyson. Roedd y daith honno, yn ogystal â chael ei llywio gan ddeddfwriaeth, yn cael ei llywio gan bobl ifanc Gwynedd hefyd, ac roedd hynny'n greiddiol i'r holl daith. Nododd ymhellach mai un o'r problemau mwyaf oedd yr heriau o ran recriwtio staff, yn arbennig gweithwyr yn y clybiau cymunedol. O ran yr asesiad effaith o'r newid, roedd yr adroddiad yn amlygu nad oedd effaith negyddol wedi ei adnabod. Roedd llawer o waith yn mynd ymlaen gyda grwpiau megis yr Urdd a nifer o fudiadau eraill yn y trydydd sector, e.e. Fran Wen, ac roedd y bartneriaeth gyda'r mudiadau hynny yn datblygu o ddydd i ddydd. Nododd hefyd bod ymgorffori'r Gwasanaeth Ieuenctid o fewn yr Adran Plant a Theuluoedd wedi agor llawer o ddrysau i'r gwasanaeth, oedd bellach yn cydweithio llawer mwy gydag adrannau eraill o fewn y Cyngor, ynghyd ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â lles bobl ifanc.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Gan gyfeirio at baragraff 3.9 o'r adroddiad, tynnwyd sylw gan aelod at y ffaith bod clwb wedi'i sefydlu ym Mryncrug bellach.
- Mewn ymateb i gais gan yr aelod lleol am gymorth y gwasanaeth i ddod o hyd i leoliad addas ar gyfer Clwb Ieuenctid Penygroes, nodwyd bod y gwasanaeth yn ymwybodol o'r heriau ac yn barod iawn i gefnogi. Roedd trafodaethau eisoes wedi'u cynnal gyda'r Adran Addysg, ayb, ac roedd bwriad i geisio cynnal trafodaethau pellach, e.e. gyda'r Ganolfan Byw'n Iach.
- Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd bod y broblem recriwtio staff yn y clybiau cymunedol yn deillio o'r ffaith na allai'r clybiau gynnig digon o oriau i wneud y swyddi'n rhai llawn-amser, na thebyg i hynny. Hefyd, roedd yn ymddangos nad oedd natur y gwaith yn denu nifer uchel o ymgeiswyr am y swyddi.
- O ran niferoedd, eglurwyd bod angen dau aelod o staff ymhob clwb, ond yr anelid am dri ymhob lleoliad, rhag gorfod cau'r clwb am noson oherwydd salwch. Mewn achosion o'r fath, ceisid cael rhywun o Glwb Ieuenctid Gwynedd i lenwi'r bwlch, ond nid oeddent ar gael bob amser gan eu bod wedi trefnu gweithgareddau eraill.
- O ran y ddarpariaeth ym Mhwllheli, eglurwyd, fel mannau eraill, bod y model newydd yn ymweld â'r dref i gynnal gweithgareddau am gyfnod. Y bobl ifanc eu hunain oedd yn dewis y gweithgareddau. Roedd rhai o'r clybiau cymuned wedi gweld yr hyn oedd yn cael ei gynnig yn eu cymunedau gan Glwb Ieuenctid Gwynedd ac wedi penderfynu bod hynny'n ddigonol. Roedd yn ymddangos hefyd bod pobl ifanc yn barod iawn i deithio i'r clybiau ac roedd y gwasanaeth wedi prynu dau gerbyd i gludo pobl ifanc oedd yn cael anhawster teithio, er y cydnabyddid bod hynny ymhell o fod yn ddigon. Hefyd, roedd y gwasanaeth newydd yn ymweld â chymunedau lle nad oedd unrhyw weithgarwch yn digwydd cynt. .
- Awgrymwyd y dylai'r gwasanaeth gysylltu â'r aelodau lleol i roi gwybod iddynt am yr hyn sy'n digwydd yn eu wardiau fel y gallent hybu'r digwyddiadau a mynychu rhai o'r nosweithiau i gymdeithasu gyda'r bobl ifanc pe dymunent. Mewn ymateb, cytunwyd bod y syniad o gyswllt gyda'r aelod lleol yn beth da ac awgrymwyd y dylai'r gwasanaeth wneud darn o waith ar hynny.
- Mynegwyd y farn bod yr adroddiad yn cyfleu byd Iwtopaidd iawn, ond nid oedd cyfeiriad ynddo at sylwadau Arolygiaeth Gofal Cymru yn eu adroddiad fis Medi y llynedd, oedd yn codi cwestiynau ynglŷn â'r dull o weithredu'r gwasanaeth ar ei newydd wedd. Roedd yr adroddiad yn nodi nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Ddeddf Llesiant, nac hyd yn oed yn cydymffurfio ag egwyddorion Ffordd

Gwynedd. Er bod yr adroddiad gerbron y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi bod trafodaethau pellach yn digwydd gyda'r Arolygiaeth, nid oedd cyfeiriad at hynny na chanlyniadau'r trafodaethau yn yr adroddiad i'r pwyllgor hwn. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd y gwasanaeth yn honni eu bod wedi cyrraedd y lle perffaith. Roedd wedi bod yn gyfnod heriol iawn i staff y gwasanaeth ac roeddent yn cydnabod eu bod yn parhau ar daith gyda'r llwybr yn newid o hyd. O ran yr adroddiad, nodwyd na dderbyniwyd ymateb swyddogol gan yr Arolygiaeth Gofal i'r her a wnaethpwyd. Pwysleisiwyd nad oedd yr Arolygiaeth wedi edrych ar y gwasanaeth o safbwynt yr hyn oedd yn cael ei gyflawni i bobl ifanc, ond yn hytrach o safbwynt pa ystyriaeth a roddwyd i'r Ddeddf Llesiant wrth ail-fodelu'r gwasanaeth. Eglurwyd bod symudiadau mawr mewn lle i gywiro hynny, a chan fod y Gwasanaeth Ieuenctid bellach yn rhan o'r Gwasanaeth Plant, roedd y Ddeddf Llesiant yn uchel iawn ar eu rhestr o flaenoriaethau.

- Croesawyd y bartneriaeth gydag asiantaethau eraill a holwyd oedd yna ffyrdd mwy creadigol o gydweithio gyda'r asiantaethau hynny er mwyn denu staff. Mewn ymateb, nodwyd bod y gwasanaeth yn ymwybodol o'r heriau a'u bod yn edrych ar bob ffordd bosib' o ddenu pobl. Yn amlwg, roedd gofynion iechyd a diogelwch a diogelu data, ac ati, yn ychwanegu at yr her.
- Nododd aelod yr hoffai glywed mwy am y sefyllfa ym Mangor, e.e. oedd yna gydweithio gyda'r ysgolion, ac os felly, pa ysgolion yn benodol? Mewn ymateb, nodwyd y gellid anfon rhaglen gyffredinol o'r gweithgareddau i'r aelodau fel eu bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn eu hardaloedd.
- Awgrymwyd sefydlu grŵp tasg a gorffen i gynorthwyo'r gwasanaeth i wireddu rhai o'r amcanion. Nodwyd bod hyn yn fater i'w godi yn y cyfarfod anffurfiol ar derfyn y pwyllgor hwn.
- Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd mai'r gweithwyr ieuenctid sy'n trefnu a thalu am leoliadau ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu prynu gan wasanaeth Gwynedd, a phwysleisiwyd bod cymorth yr aelod lleol yn bwysig iawn yn hyn o beth.
- Mewn ymateb i sylw, cytunwyd bod ymgysylltu gyda'r bobl ifanc hynny nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth yn her, ond mai swyddogaeth y gweithiwr cymuned proffesiynol oedd holi i weld beth yw dymuniadau'r bobl ifanc. Roedd yr ysgolion yn gefnogol iawn hefyd o safbwynt ymgysylltu gyda'r bobl ifanc ac roedd hynny'n cyplysu gyda'r gwaith o dracio pobl ifanc NEETS (sef y rhai nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant). Nodwyd hefyd bod y gweithwyr ieuenctid yn barod i drefnu unrhyw beth os oedd cohort o bobl ifanc yn dod atynt.
- Mewn ymateb i gwestiwn, nododd yr Aelod Cabinet ei fod yn fodlon bod y gwasanaeth yn gyson ar draws y sir a bod yr un cyfleoedd ar gael i bobl ifanc ym mhobman. Gan fod hwn yn wasanaeth teithiol, roedd yn mynd i bob math o lefydd bychan ac yn cyrraedd pobl ifanc yn y cymunedau gwledig nad oedd modd eu cyrraedd yn flaenorol.
- Mynegwyd siomedigaeth na lwyddwyd i sefydlu clwb ym Mhorthmadog. Mewn ymateb, nodwyd bod y gwasanaeth a Chyngor Tref Porthmadog wedi gwneud ymdrech lew i sefydlu clwb yn y dref, ond na lwyddwyd i gael staff i'w redeg.
- Awgrymwyd y dylai'r gwasanaeth ryddhau Digwyddiadur Misol, yn hytrach na'r un wythnosol oedd yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd, gan y byddai hynny'n ei gwneud yn haws i'r bobl ifanc gynllunio ymlaen llaw.
- Nodwyd bod y gwasanaeth yn gweithio mewn amgylchedd o doriadau a holwyd a edrychwyd ar ymarfer gorau mewn cynghorau / mudiadau eraill, ac a fu hynny'n llwyddiannus. Mewn ymateb, nodwyd bod yna broses barhaus o edrych ar drefniadau mewn mannau eraill, ond yn sgil gorfod ail-fodelu'r gwasanaeth yng Ngwynedd yn 2018, credid bod gwasanaethau ieuenctid ar draws Cymru yn edrych

ar drefniadau'r Cyngor hwn bellach. Hyderid y byddai'r gwasanaeth yng Ngwynedd yn parhau i newid ac yn parhau i ymateb i'r heriau.

- Holwyd a oedd yna gynlluniau i ymestyn y Siarter Iaith i glybiau ieuenctid. Mewn ymateb, nodwyd bod yr holl weithwyr ieuenctid yn arwain y gweithgareddau yn Gymraeg, ond bod y pwynt o fabwysiadu'r Siarter Iaith yn rhywbeth y dylai'r gwasanaeth edrych arno.
- Nodwyd ei bod yn bwysig cadw mewn cof wrth ddarparu'r gwasanaeth fod y Cynulliad wedi pleidleisio i ostwng yr oedran pleidleisio yng Nghymru i 16 oed. Mewn ymateb, cytunwyd bod hynny'n amserol, a nodwyd bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn edrych ar hyn. Nodwyd hefyd y sefydlwyd cynllun peilot yn Y Bala lle'r oedd y swyddogion yn mynd i'r ysgol uwchradd i gychwyn y drafodaeth gyda'r bobl ifanc, nid yn unig y rhai fyddai'n pleidleisio, ond y rhai ieuengaf hefyd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid am yr adroddiad gan grynhoi prif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Mae recriwtio gweithwyr wedi bod, ac yn parhau, yn broblem amlwg.
- Mae angen sicrhau gwell cyswllt gydag aelodau lleol fel y gallent fod yn fodd o hyrwyddo'r gwasanaeth.
- Dylid cyhoeddi'r Digwyddiadur yn fisol, yn hytrach nag yn wythnosol.
- Dylai'r gwasanaeth edrych ar fabwysiadu'r Siarter Iaith.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r pwyllgor am y gefnogaeth a'r drafodaeth, ac estynnodd wahoddiad i'r aelodau gysylltu gydag unrhyw sylwadau

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 12.20 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | • Adroddiad ar Ddeilliannau 2019<br>• Adroddiad Blynyddol Addysg |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 19 Mawrth 2020 |
| **Awdur** | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Cemlyn Rees Williams |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi eisoes yn ymwybodol o'r newidiadau yn y modd y gellir adrodd ar ganlyniadau, ac nad oes modd, er enghraifft, dwyn cymariaethau gydag Awdurdodau eraill ar draws Cymru.

1.2 O ganlyniad i'r newidiadau hyn, dyma'r tro cyntaf i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi dderbyn adroddiad ar ddeilliannau 2019. O ganlyniad, er mwyn hwyluso craffu priodol ar y deilliannau, fe'i cyflwynir fel dogfen ar wahân i Adroddiad Blynyddol yr Adran ac fe'i gwelir yn Atodiad 1.

1.3 Yn unol â chais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, mae'r Adran Addysg wedi llunio Adroddiad Blynyddol er mwyn galluogi'r craffwyr i gael trosolwg o waith yr Adran (ar wahân i ddeilliannau 2019 a gyflwynir fel dogfen ar wahân). Gwelir yr Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 2.

1.4 Mae'r Adran Addysg yn cydnabod nad tasg hawdd yw sicrhau craffu effeithiol ar ddogfen faith ar lawr pwyllgor, ac o ganlyniad, wedi ceisio llunio Adroddiad Blynyddol cryno, sydd yn tynnu sylw at brif waith yr Adran, nodweddion cadarnhaol, ynghyd â meysydd sydd angen sylw dros y cyfnod nesaf.

1.5 Mae'r Adran Addysg hefyd yn cydnabod fod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi eisoes â threfn o adnabod eitemau unigol ystyrlon i'w craffu, ac yn sicrhau craffu manwl ac effeithiol ar y materion unigol rheiny.

1.6 O ganlyniad, nid oes modd tynnu sylw'r Pwyllgor Craffu at unrhyw adran yn benodol o fewn yr Adroddiad Blynyddol sydd yn peri pryder.

1.7 Felly, cyflwynir yr atodiadau canlynol er sylw'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi:
- Atodiad 1 – Adroddiad ar Ddeilliannau 2019
- Atodiad 2 – Adroddiad Blynyddol Addysg

# ADRODDIAD AR DDEILLIANNAU 2019

# Gwynedd

CYNNWYS


1. **Cefndir a chyd-destun**

2. **Safonau**
   - **Trosolwg o berfformiad ym mhob Awdurdod Lleol (AauLl unigol i'w cynnwys yn Atodiad 1)**
   - **Proffil Arolygiadau Ysgolion Estyn**
   - **Categoreiddio Cenedlaethol**

3. **Cwestiynau sy'n dod i'r amlwg i helpu'r Cyd-bwyllgor, swyddogion ALl a Phwyllgorau Craffu i arfarnu cynnydd, safonau a pherfformiad disgyblion.**

4. **Blaenoriaethau Cynllun Busnes 2019-20**

5. **Atodiad 1 - Adroddiad ar Safonau i bob ALl unigol**

## 1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Mae Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr ag amryw o bartneriaid ac arbenigwyr, wedi mynd ati i adolygu'r system atebolrwydd i ysgolion yng Nghymru.

Amlygodd y canfyddiadau bod gan y system bresennol, a'i defnydd o fesurau perfformiad, amryw o ganlyniadau anfwriadol negyddol, megis:

- culhau'r dewis yn y cwricwlwm;
- ffocws anghymesur ar grwpiau penodol o ddysgwyr;
- sut y defnyddir meincnodi, sy'n gyrru cystadleuaeth rhwng ysgolion yn hytrach nag annog cydweithredu;
- llwyth gwaith cynyddol a diangen i athrawon ac eraill yn y system, heb yr effaith na'r budd angenrheidiol i ddysgwyr; a
- cyfuno data at ddibenion *atebolrwydd,* pan y'i lluniwyd at ddibenion gwella.

O ganlyniad, mae ysgolion wedi clywed negeseuon anghyson gan y gwahanol rannau o'r system ynghylch yr hyn sy'n bwysig. Yn aml, mae hyn wedi gwyro ymdrechion oddi wrth y dysgu a'r addysgu a'n symud tuag at ddiwylliant o gydymffurfio a biwrocratiaeth.

Roedd gohebiaeth ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Estyn i Gadeiryddion Craffu, Aelodau Cabinet, Cyfarwyddwyr Addysg, Prif Swyddogion Gweithredol, a Rheolwyr Gyfarwyddwyr Consortia Addysg Rhanbarthol, a gyhoeddwyd ar **16 Gorffennaf 2019** yn datgan:

> "*Mae'n wrthgynhyrchiol rhoi pwysau anghymesur ar ysgolion ar sail mesurau unigol. Nid yw'n llesol i welliant ysgol, a gallai danseilio y newid parhaus mewn diwylliant yr ydym ni'n gweithio gyda'n gilydd i'w gyflawni. Disgwyliwn i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gefnogi ysgolion i wneud penderfyniadau priodol am eu cwricwlwm i osgoi culhau'r dewis i ddysgwyr.*
>
> *Ar y cyd, rydym wedi cytuno mai dyma'r ffordd gywir i weithredu, ac fe'ch cynghorwn yn gryf i ddefnyddio ystod eang o wybodaeth a data heb ei gyfuno, fel bod modd i chi gyflawni eich dyletswyddau wrth adrodd ar berfformiad ysgolion. Bydd arfarnu perfformiad ysgolion unigol yn hytrach na chynhyrchu data wedi'i gyfuno ar lefel awdurdod lleol yn fwy buddiol ar gyfer cefnogi a herio ysgolion unigol i wella.*"

Bydd yr adroddiad hwn ar berfformiad yng Ngogledd Cymru yn cadw at y canllawiau hyn.

### Adrodd ar Asesiad Athro (Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 3)

Cyflwynwyd newidiadau cenedlaethol o ran adrodd ar asesiad athro yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Ategir amcanion allweddol dogfen Llywodraeth Cymru: 'Cenhadaeth ein cenedl' wrth ddarparu trefniadau asesu, arfarnu ac atebolrwydd cadarn i gefnogi system sy'n hunan wella.

Er mwyn i bob dysgwr gyflawni ei botensial yn llawn, awgryma tystiolaeth ryngwladol bod angen system asesu ac atebolrwydd gydlynol. Prif ddiben asesu yw darparu gwybodaeth sy'n llywio penderfyniadau am y ffordd orau o symud dysgu disgyblion yn ei flaen.

Bellach, mae mwy o ffocws ar i ysgolion ddefnyddio data wrth hunan arfarnu. Yn y system ddiwygiedig, mae ysgolion yn cael eu harfarnu yn unol â'r gwahaniaeth a wnânt i gynnydd pob disgybl.

Mae'r data a'r wybodaeth sydd ar gael i ysgolion er mwyn mesur y cynnydd hwn yn cynnwys: data diwedd cyfnod allweddol, data mynediad gwaelodlin, data cynnydd disgyblion dros amser, data gwerth ychwanegol rhwng y gwaelodlin a chyfnodau allweddol, data profion diagnostig ar ddarllen a rhifedd, ymchwil weithredol a data profion penodol yn ogystal â deilliannau arolygiad ESTYN.

Mae data a gyfunwyd ar i fyny yn hanesyddol, at ddibenion cymharu, wedi'i ddileu. Nid yw meincnodi, cymharu â sefydliadau eraill, data profion darllen a rhifedd, gosod ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn ôl trefn, bellach yn dderbyniol nac yn bosibl. Ers y llynedd, yr unig ddata cymharol sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yn y cyfnodau allweddol hyn yw cyfartaleddau Cenedlaethol diwedd y cyfnodau allweddol hyn.

Yn ychwanegol, cyhoeddodd Y Gweinidog Addysg ddatganiad ar dargedau perfformiad ysgolion ym mis Mehefin 2019. Meddai:
' ……, *Rwyf am ei gwneud yn gwbl glir mai dim ond fel cyfrwng i ategu gwaith hunanwerthuso ysgolion y dylid defnyddio targedau, ac na ddylid eu hystyried yn fesur perfformiad y bydd ysgolion yn atebol i awdurdodau lleol ar ei sail.'*

Bydd y newidiadau diweddar hyn mewn gofynion adrodd ar asesu yn cryfhau manwl gywirdeb asesu. Bydd yn lleihau lefelau chwyddedig a 'chwarae'r gêm' ac yn sicrhau bod pob ysgol yn ystyried pob dysgwr yn ofalus, nid yn unig y dysgwyr ffiniol sy'n cael dylanwad ar a fydd ysgol yn cyflawni mesur cul ai peidio.

Bydd pwyslais o'r newydd yn y trefniadau cenedlaethol ar Asesu ar gyfer Dysgu fel rhan hanfodol ac annatod o ddysgu ac addysgu; mae'n gam arwyddocaol oddi wrth casglu gwybodaeth am berfformiad pobl ifanc fesul ysgol at ddibenion atebolrwydd.

Ni fydd data asesiad athro na data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortia yn cael ei gyhoeddi mwyach. Mae hyn yn berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ym mhob ysgol gynradd ac ysgol uwchradd a gynhelir.

Trefniadau fydd yn parhau:

- Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ac Asesiad Athro ar gyfer dysgwyr unigol, fodd bynnag ni chyhoeddir unrhyw wybodaeth feincnodol lefel ysgol genedlaethol.
- Gofynnir i Benaethiaid adrodd ar berfformiad ysgol i rieni ac oedolion sy'n ddysgwyr pob blwyddyn academaidd.
- Gofynnir i Gyrff Llywodraethu lunio adroddiad blynyddol i rieni, prosbectws ysgol, cynllun datblygu ysgol a gosod targedau perfformiad ac absenoldeb. Mae gan ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol fynediad i'w data eu hunain o hyd (ynghyd â data ar lefel genedlaethol), at ddibenion hunan arfarnu.
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu data ar lefel dysgwr unigol er sicrhau tryloywder ar lefel perfformiad cenedlaethol, ac i lywio'r gwaith o lunio polisïau.

Trefniadau a fydd yn newid:

- Ni chyhoeddir gwybodaeth gymharol am asesiadau athro a phrofion mewn perthynas ag ysgolion eraill mewn awdurdod lleol, na 'theulu o ysgolion'.
- Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu, nac yn cyhoeddi, Adroddiadau Cymharol Ysgolion na Setiau Data Craidd Cymru Gyfan mwyach i ysgolion ac awdurdodau lleol, o safbwynt data asesiadau athrawon.
- Ar wefan *My Local School*, ni cheir mwyach ddata asesiadau athrawon sy'n is na'r lefel genedlaethol (o 2018).

**Newidiadau yn y Meysydd Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen**

Ym mis Hydref 2014, adolygwyd Meysydd Dysgu (MD) y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol i gyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh), yn ogystal â'u gwneud yn fwy heriol. Yn unol â hyn, cafodd ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen eu hail-galibro i gyd-fynd â disgwyliadau cynyddol y Meysydd Dysgu diwygiedig.

Cyflwynwyd y MDaPh diwygiedig ar sail statudol o fis Medi 2015. Golyga hyn mai'r garfan a ddechreuodd yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi 2015 oedd y garfan gyntaf o blant i gael eu hasesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau diwygiedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn Haf 2018. Felly, dylid osgoi cymharu deilliannau'r Cyfnod Sylfaen â blynyddoedd blaenorol ar lefel ysgol, gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymaradwy.

**Adrodd ar ganlyniadau CA4**

Cyflwynwyd mesurau CA4 newydd dros dro ar gyfer 2019 yn rhan o'r rhaglen diwygio addysg yng Nghymru.

Cesglir data cenedlaethol i ysgolion unigol yn seiliedig ar ganlyniadau arholiadau cyntaf. Bydd y ddata a ddarperir yn rhanbarthol i ysgolion unigol ac AauLl hefyd yn seiliedig ar ganlyniadau arholiadau cyntaf.

Mae JCQ/CBAC wedi cyhoeddi eu data a'u cyhoeddiad i'r wasg yn seiliedig ar y 'deilliant gorau' a gyflawnwyd gan ddysgwyr 16 oed ar draws cyfres mis Tachwedd a'r Haf. Bydd gwahaniaethau rhwng y data arholiad cyntaf a'r deilliant gorau.

O ganlyniad, ar draws amryw o ddangosyddion, ni fydd modd cymharu ffigyrau 2019 â pherfformiad blaenorol.

Yn y tabl isod, gwelir y mesurau dros dro newydd a'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo. Dengys hefyd y gwahaniaethau allweddol â blynyddoedd blaenorol.

| Mesur Dro Dro | Sut y caiff ei gyfrifo | Gwahaniaethau o'r blynyddoedd blaenorol, a pham na ellir cymharu |
|---|---|---|
| Capio 9 | Mae'r Sgôr Pwyntiau 9 wedi'i gapio yn fesur perfformiad sy'n cyfrifo cyfartaledd y sgoriau am y dyfarniadau gorau i bob disgybl unigol yn y garfan, wedi'i gapio ar gyfer nifer penodol o TGAU neu gymwysterau cyfwerth.<br><br>Mae tri o'r naw slot angen dyfarniadau pynciau a chymwysterau penodol er mwyn cyfrannu unrhyw bwyntiau tuag at y mesur. Mae'r slotiau hyn yn rhai maint TGAU, sy'n nodi gofynion mewn TGAU llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth yn unig.<br><br>Gall y radd orau o unrhyw TGAU llenyddiaeth neu Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg gyfrannu tuag at y slot llythrennedd. | ✓ Dim ond arholiad cyntaf disgybl fydd yn cyfrif<br>✓ TGAU Gwyddoniaeth CBAC yn unig |

| | | |
|---|---|---|
| | Gall y radd orau o naill ai mathemateg neu fathemateg- rhifedd TGAU gyfrannu at y slot rhifedd.<br><br>Gall y radd orau o TGAU gwyddoniaeth gyfrannu at y slot gwyddoniaeth (ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i gyfyngu i ddyfarniadau yng nghyfres cymwysterau TGAU gwyddoniaeth sydd ar gael i ddysgwyr ar hyn o bryd: bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl), gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl).<br><br>Bydd y chwe chymhwyster sy'n weddill yn cynnwys perfformiad gorau'r disgybl naill ai mewn TGAU ac/neu gymhwyster galwedigaethol sy'n gyfwerth. | |
| Mesur Llythrennedd | Cyfrifo'r cyfartaledd o'r sgoriau i bob disgybl unigol yn y garfan, cymryd y radd orau o unrhyw TGAU llenyddiaeth neu Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a ddyfernir i ddisgybl. | Mesur 2019 newydd, dim ond yr arholiad cyntaf fydd yn cyfrif, efo Llenyddiaeth hefyd yn cael ei derbyn o fewn y mesur hwn. |
| Mesur Rhifedd | Cyfrifo'r cyfartaledd o'r sgoriau i bob disgybl unigol yn y garfan, cymryd y radd orau o unrhyw TGAU mathemateg neu fathemateg - rhifedd a ddyfernir i ddisgybl. | Mesur 2019 newydd, dim ond yr arholiad cyntaf fydd yn cyfrif |
| Mesur gwyddoniaeth | Cyfrifo cyfartaledd y sgorau i bob disgybl unigol yn y garfan, cymryd y radd orau o TGAU gwyddoniaeth a ddyfernir i ddysgwr (ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i gyfyngu i ddyfarniadau yng nghyfres cymwysterau TGAU gwyddoniaeth sydd ar gael i ddysgwyr: bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl), gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl) - adnabyddir bod y rhain yn gallu cyfrannu tuag at fesurau gwyddoniaeth. | Mesur 2019 newydd, dim ond yr arholiad cyntaf fydd yn cyfrif |
| Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru | Cyfrifo cyfartaledd y sgorau i Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru i bob dysgwr unigol yn y garfan, boed yn ddyfarniad Sylfaen (Lefel 1) neu Genedlaethol (Lefel 2). | Adroddir ar wahân fel prif ddangosydd am y tro cyntaf yn 2019 |

Yn y cyd-destun hwn, dylid dadansoddi'r data ar lefel leol ac fel man cychwyn i gwestiynu blaenoriaethau lleol.

Er bod data 2019 ar gael ar hyn o bryd ar fesurau perfformiad hanesyddol (L1, L2, L2+ a 5A*-A), nid yw'n ddilys cymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd bod yr arholiad cyntaf yn cyfrif yn hytrach na'r deilliant gorau.

## Craffu ar Berfformiad Ysgolion Unigol

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Ansawdd Lleol pob pythefnos rhwng Arweinyddion Craidd GwE a phob ALI. Trafodir unrhyw ysgolion sy'n achosi pryder, a nodir unrhyw gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae hyn yn cysylltu â'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir gan yr arweinydd craidd efo Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i drafod cynnydd ysgolion. Mae'r gohebu rheolaidd rhwng yr ALI a swyddogion GwE yn sicrhau y rhennir gwybodaeth am allu ysgolion i wella. Ble gwelir bod pryderon, bydd pawb yn gweithio mewn partneriaeth i adolygu'r safonau a'r ddarpariaeth yn yr ysgol a gosod a monitro targedau pendant ar gyfer gwella.

Mae gan bob ALI ei brosesau monitro ei hun i graffu ar berfformiad ysgolion unigol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio 'Byrddau Gwelliant Carlam' i ysgolion sy'n achosi pryder.

Disgrifir trefniadau monitro pob ALI yn eu hadroddiad safonau unigol.

## Ysgolion sy'n achosi pryder

Mae pob ysgol ar daith tuag at welliant, ac felly mae arnynt angen cymorth a her sy'n briodol a gwahaniaethol i amrywiol raddau. Bydd angen targedu ymyrraeth ddwysach o safbwynt rhai ysgolion.

Mae'r label 'ysgolion sy'n achosi pryder' yn un eang iawn, ac nid yw'r canllawiau cenedlaethol yn diffinio'r term ehangach yn glir. I'n dibenion ni yn GwE, rydym wedi llunio'r diffiniadau hyn:

- Ysgolion y mae arnynt angen cymorth i gynnal neu wella safonau [h.y. symud o 'dda' i 'ragorol' neu 'ysgolion sy'n perfformio'n gyfforddus'];
- Ysgolion sy'n gwella ond y mae arnynt angen rhagor o gymorth i wella'u cofnod llwyddiant ac/neu leihau amrywiad o fewn yr ysgol ymhellach;
- Ysgolion ble mae angen targedu cynhaliaeth ac ymyrraeth fwy penodol i'w hatal rhag achosi pryder sylweddol;
- Ysgolion y gwelir sy'n achosi pryder sylweddol ac/neu sydd mewn categori statudol.

Mae gan GwE, a'r awdurdodau lleol, hanes gyffredinol dda o ran cefnogi ysgolion yn effeithiol, ac yn benodol yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder. Mae gan bob ysgol uwchradd 'Gynllun Cefnogaeth' unigryw sy'n sicrhau bod cefnogaeth GwE yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau eu CDY. Fel hyn, gellir defnyddio adnoddau, arbenigedd ac arferion gorau y rhanbarth yn fwy effeithiol.

Caiff her a chefnogaeth eu targedu yn amserol ac yn effeithiol, sy'n arwain, yn y rhan fwyaf o achosion, at gyflymu'r daith wella yn yr ysgolion sydd wedi'u hadnabod a, ble'n berthnasol, cânt eu tynnu o gategori dilyniant Estyn.

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Safonau Ansawdd Lleol yn gyson, rhwng yr ALI ac uwch swyddog GwE, a defnyddir y cyfarfodydd hyn i rannu gwybodaeth am berfformiad a chynnydd ysgol, a chytuno ar unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i'r cynlluniau cymorth. Mae Byrddau Gwella Carlam Dros Dro yn rhoi her ac ymyrraeth i'r ysgolion hyn sydd mewn catgoriau pryder difrifol. Ble erys pryderon, gweithredir ar lefel uwch allai gynnwys defnyddio pwerau ymyrraeth, fel y diffinnir gan ganllawiau cenedlaethol.

**Sefyllfa bresennol y rhanbarth**

Bu proffil arolygiadau ysgolion cynradd ac arbennig yn gyson gryf, ac yn cymharu'n ffafriol gyda phroffil Estyn ar gyfer ysgolion ar draws Cymru. O safbwynt yr ysgolion cynradd a roddwyd mewn categori dros y tair blynedd diwethaf, fe'u tynnwyd oddi yno yn sydyn o ganlyniad i'r her a'r gefnogaeth lefel uchel a dargedwyd.

Erys safonau yn y sector uwchradd yn destun pryder. Dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf, mae GwE wedi:

- ail greu proffil y gwasanaeth i sicrhau bod adnoddau ychwanegol yn cael eu targedu tuag at y sector uwchradd;
- cryfhau'r tîm o YCG cyswllt uwchradd i sicrhau profiad ac arbenigedd perthnasol;
- sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd raglen gymorth generig ac unigryw;
- hwyluso mynediad at y rhwydweithiau cwricwlwm, MAT, ôl-16 a phynciol i rannu arferion da;
- mabwysiadu dull targedu cynhaliaeth ar ffurf 'ton' i sicrhau gwelliannau parhaus mewn pynciau craidd;
- cyfoethogi cynnig GwE o gyfleoedd datblygiad proffesiynol [ac yn arbennig felly i arweinwyr profiadol, newydd a darpar arweinwyr y dyfodol];
- arwain *y fenter Asesu ar gyfer Dysgu* ranbarthol i wella dysgu ac addysgu efo Shirley Clarke;
- sicrhau rhagor o gymorth i benaethiaid drwy gyfarfodydd fforymau strategol, ac i'r ysgolion sy'n cymryd rhan drwy'r fforwm *Rhagoriaeth ac Arloesi* ;
- cefnogi 12 ysgol yn y rhanbarth i ymchwilio i amrywiad mewn ysgol, a rhoi sylw iddo, drwy wella prosesau tracio data ac ymyrraeth. Bydd modd trosglwyddo'r gwersi a ddysgwyd o'r peilot i bob ysgol ar draws yr ALI;
- darparu cymorth ariannol er mwyn gweithredu mewn ffordd fwy diagnostig i sicrhau gwelliannau mewn Saesneg a Mathemateg yn CA4 drwy PIXL;
- darparu hyfforddiant penodol ar gais ysgolion i arweinwyr canol cwricwlwm ac arweinwyr bugeiliol;
- cefnogi hyfforddiant unigryw i ysgolion ac adrannau targed i wella agweddau ar ddysgu ac addysgu, e.e. efo Tom Sherrington, Olevi ITP ac OTP.

Ar ben y gefnogaeth unigryw a ddarparwyd i ysgolion uwchradd yn y pynciau craidd, rhoddwyd arweiniad rhanbarthol a lleol drwy'r rhwydweithiau a'r fforymau pynciol. Dyma rai o'r meysydd allweddol gafodd sylw:

- Saesneg: Cefnogaeth astudio Safon Uwch, Hyfforddiant Darllen Carlam, datblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm, gwella llafaredd i gefnogi ysgrifennu, gwella tracio ac ymyrraeth yn CA4, gwella safonau ysgrifennu yn CA4, arweiniad ar ddarpariaeth MAT mewn Saesneg, datblygu adnoddau e.e. *Adnodd 'Fix-it' i gefnogi'r gwaith atgyweirio sydd ei angen i roi sylw i sgiliau gwan, Pecynnau Meistroli i CA4, Cynllun Gwaith Gothic efo pwyslais ar ramadeg i Flwyddyn 7*
- Mathemateg: arweiniad ar arweinyddiaeth a diweddariadau ar y cwricwlwm newydd, rhannu'r arferion gorau o *Whiterose Maths Academies* ar ddatblygu addysgeg yn eu clwstwr o ysgolion, datblygu addysgeg adrannol drwy 'ddyfnhau'r meddwl', datblygu addysgeg Safon Uwch, cefnogi gwaith cydweithio rhwng cydlynwyr rhifedd i adnabod yr arferion gorau o ran datblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm, datblygu arweinyddiaeth cydlynwyr rhifedd sydd yn eu dwy flynedd gyntaf yn y swydd, datblygu dealltwriaeth o'r newidiadau yn y profion Rhifedd Gweithdrefnol.
- Gwyddoniaeth: rhagori mewn Gwyddoniaeth TGAU - rhannu'r arferion gorau, rhannu strategaethau ymyrraeth llwyddiannus yn CA4, datblygu llythrennedd gwyddonol - ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan Brifysgol Bangor, datblygu strategaethau i ennyn diddordeb dysgwyr mewn Gwyddoniaeth, gweithio gydag ysgolion i ddatblygu gwybodaeth


wyddonol a chefnogi disgyblion wrth iddynt ddysgu am gysyniadau gwyddonol, datblygu sgiliau darllen mewn Gwyddoniaeth, rhannu 'strategaethau sut i ddysgu' ac arferion galw i gof, datblygu sgiliau darllen a deall geiriau gorchymyn a dwy haen, datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r manylebau TGAU.

**Symud Ymlaen**

Rydym yn cydnabod bod pob ysgol ar gontinwwm gwella.  Mae rhai yn eu dyddiau cynnar ac yn datblygu, mae eraill yn datblygu ac yn cryfhau tra bod ein hysgolion cryfaf yn fwy annibynnol a grymus.

Yn aml, gofynnir i'r Gwasanaeth blethu llu o fetrigau gwella ysgol mewn un diffiniad.  Er hynny, mae hi'r un mor bwysig darlunio'r daith nid yn unig y 'ciplun' o ble mae'r ysgol arni ar y daith honno.

Bwriad y diagram canlynol, gan DfE yn Lloegr, yw diffinio'r camau ar hyd taith ysgol, ac mae'n dechrau diffinio taith wella ysgol:




Teimlwn fod y math hwn o ddiagram yn adnodd mwy defnyddiol wrth i ni fod yn trafod lefel a natur ofynnol y gefnogaeth efo ysgolion.  O'i weithredu, gall fod yn strategaeth effeithiol hefyd i weld lle mae ysgolion arni ar ddechrau unrhyw duedd 'at i lawr', felly ni fyddai angen iddynt gael eu hadnabod fel '*'ysgolion sy'n achosi pryder.'*

Credwn hefyd y dylai gwaith cefnogi ac ymgysylltu â chymheiriaid fod wrth wraidd gwella ysgol.  Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru am system werthuso, gwella ac atebolrwydd yn un sy'n deg, yn gydlynol, yn gymesur, yn dryloyw ac yn seiliedig ar werthoedd cyffredin ar gyfer addysg yng Nghymru.  Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn ein hymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid allweddol eraill, i sefydlu trefniadau newydd ar gyfer arfarnu a gwella, a hynny ar bob lefel.  Bydd angen i'r trefniadau hyn fod yn ddigon cadarn a

chryf i sicrhau'r gwelliannau a fynnir mewn ysgolion, ac yn arbennig felly yn y sector uwchradd. O fewn y trefniadau hyn, mae disgwyliad clir i ysgolion ddatblygu nid yn unig y capasiti a'r sgiliau i herio eu hunain yn effeithiol, ond hefyd y gallu i weithio ar y cyd ac yn systematig mewn model gwella ysgolion yn seiliedig ar ymgysylltiad cymheiriaid proffesiynol.

Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol wedi cynnal proses ymgynghori â Phenaethiaid ar yr amrywiol agweddau ar *y Daith Ddiwygio Genedlaethol* . O ran datblygu fframwaith rhanbarthol ar gyfer cefnogi ac ymgysylltu â chymheiriaid, awgrymodd y penaethiaid yr egwyddorion hyn:

- dylid mabwysiadu dull gweithredu adolygu gan gymheiriaid yn rhanbarthol er mwyn gyrru cynnydd ymhellach tuag at system hunan wella;
- ni ddylid datblygu'r model adolygu gan gymheiriaid hwn i gyflwyno *system o 'ffug arolygiadau'* ;
- dylai rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd yn effeithiol er sicrhau ein bod yn creu'r amodau priodol ar gyfer adolygu gan gymheiriaid sy'n effeithiol;
- dylem gytuno ar set ranbarthol o egwyddorion ac iaith dechnegol ar gyfer ein model, a'u harfer;
- dylem gytuno ar ffiniau'r fframwaith, fydd yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion weithredu ystod o fodelau;
- dylai ysgolion gael rhyddid a hyblygrwydd i ddethol eu cymheiriaid;
- dylai'r model gynnwys ymgysylltu â chymheiriaid ar bob lefel mewn ysgol;
- dylai'r model hybu ymddiriedaeth, gonestrwydd, tryloywder a ffydd broffesiynol;
- dylai ymgysylltu fod yn broses gefnogol a chynaliadwy, yn hytrach nag un digwyddiad beichus, un-tro;
- dylai'r model gefnogi symud diwylliannol tuag at berchenogaeth ar y cyd

Mae Steve Munby a Michael Fullen (2016) yn eu papur '*Inside-out and downside-up*' yn amlinellau y 'ffactorau llwyddiant hanfodol ar gyfer cydweithrediad effeithiol ysgolion ar draws y system gyfan:

- mae'n rhaid mai pwrpas y cydweithredu yw gwella deilliannau;
- mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwrpas moesol eglur a rennir;
- mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn hanfodol;
- mae ymrwymiad i, a chapasiti ar gyfer, adolygu effeithiol gan gymheiriaid yn creu'r peiriant sy'n llywio gwelliant;
- mae angen cynnal adolygiadau gan gymheiriaid fel rhan o berthynas hirdymor ac ymrwymiad i wella arferion a systemau yn gyson drwy gylchoedd ymholi ar y cyd;
- mae'n rhaid bod gan y bartneriaeth gynllun i ddatblygu o gydweithrediad i gyfrifoldeb ar y cyd i rannu atebolrwydd proffesiynol;
- dylai'r bartneriaeth fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau;
- mae partneriaethau'n croesawu gwaith craffu a chefnogaeth gan bartneriaethau eraill fel eu cyfraniad at system leol, ranbarthol a chenedlaethol gysylltiedig.

Credwn yn gryf y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid fod yn sail i gylch trylwyr o welliant parhaus, a chynnwys:

- ***Hunan-adolygiad***: dylai adolygu effeithiol gan gymheiriaid ddechrau efo pa mor dda mae'r ysgol yn adnabod ei hun, a chael ei harwain gan yr ysgol sy'n cael ei hadolygu. Dylai'r adnodd hunan arfarnu cenedlaethol a ddatblygwyd gan Estyn/OECD a'r proffesiwn chwarae rhan allweddol yn yr agwedd hon. Dylai hunan arfarnu ganolbwyntio ar y dysgwr, eu cyflawniadau, eu cynnydd a'u profiadau yn yr ysgol, a chanolbwyntio ar ddysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, datblygu diwylliant o ddysgu, lles disgyblion a staff,

cydraddoldeb a chynhwysiant. Wrth symud ymlaen, dylai hunan arfarnu hefyd ganolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm newydd ac arfarnu cynnydd yr ysgol tuag at gyflawni'r cwricwlwm newydd. Dylai prosesau hunan arfarnu'r ysgol adael i'r ysgol adnabod cryfderau a blaenoriaethau gwella. Dylai hefyd nodi agweddau ar eu taith wella ble mae angen cymorth gan gymheiriaid i gefnogi gwelliant.

- ***Adolygiad gan gymheiriaid***: mae ffocws cyffredin i'r adolygiadau cymheiriaid mwyaf effeithiol. Rhaid mai pwrpas y cydweithio yw gwella deilliannau a dylai unrhyw ffocws cyffredin fod yn seiliedig ar dystiolaeth gref o'r hyn sydd angen i wella, a pha ddeilliannau fyddai'n elwa'r ysgol fwyaf. Mae adolygwyr cymheiriaid sy'n gweithio fel tîm, neu driawd, yn gweithio orau ble gallant driongli tystiolaeth a dadansoddi eu canfyddiadau ar y cyd. Nid ydynt yno i farnu, ond yn hytrach chwilio am dystiolaeth a chytuno ar ganfyddiadau i'w rhannu efo'r ysgol. Mae'n hanfodol nad yw'r broses adolygu gan gymheiriaid yn dod yn *system o 'ffug arolygiadau'* . Mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwrpas moesol eglur a rennir, ble mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn allweddol ac yn greiddiol i'r broses. Dylai'r adolygu gan gymheiriaid hefyd roi cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol, a chynnwys arweinwyr ar bob lefel.

- ***Cymorth Ysgol i Ysgol*** : os yw'r adolygu gan gymheiriaid am fod yn gyfrwng ar gyfer gwelliant parhaus mewn systemau ysgolion, yna rhaid iddo fynd ymhellach na'r adolygiad eu hun, a chynnwys cymorth ysgol i ysgol neu gymorth clwstwr. Ble mai'r staff sy'n berchen ar y deilliannau, bydd yr effaith hirdymor a'r effaith gynaliadwy, yn fwy. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu cynhwysedd a gwella gwydnwch o fewn system sy'n hunan wella. Dylai'r bartneriaeth fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau.

Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol wrthi'n gweithio gydag ysgolion i sefydlu model rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid, sy'n llawn adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodwyd gan Benaethiaid, ac sydd hefyd yn dysgu o arferion da yn genedlaethol a thu hwnt. Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn ganolog wrth i ni hwyluso a datblygu'r model hwn.

Mae hyn yn cyfleu ein dull gweithredu o fewn agwedd 'atebolrwydd' y daith ddiwygio. Mae'n manylu ar sut y gellir defnyddio gwaith ymgysylltu â chymheiriaid i fod yn sylfaen i gylch trylwyr o ddatblygiad a gwelliant parhaus. Credwn y dylai ymgysylltu â chymheiriaid fod yn rhan ganolog o wella ysgol wrth symud tuag at system hunan wella, tra hefyd yn cynnal yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder.

## 2. SAFONAU

### TROSOLWG O BERFFORMIAD YM MHOB AWDURDOD LLEOL

Gweler Atodiad 1 am adroddiad ALI unigol sy'n cynnwys y canlynol:

Arfarnu perfformiad a chwestiynau sy'n codi:
- Y Cyfnod Sylfaen
- Cyfnod Allweddol 2
- Cyfnod Allweddol 3
- Cyfnod Allweddol 4
- Cyfnod Allweddol 5

Proffil Estyn yr ALI

Proffil Categoreiddio yr ALI

Trefniadau monitro yr ALI ar gyfer craffu ar berfformiad ysgolion unigol

Prif feysydd ar gyfer gwelliant yr ALI i'w cynnwys mewn Cynlluniau Busnes Lefel 2

## PROFFIL AROLYGIADAU YSGOLION ESTYN

Mae'r proffil arolygiadau ar draws y rhanbarth yn gryf, ar y cyfan.

Cyfuno arolygiadau ysgolion    Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 69 | 82.6 | 57 | 14.5 | 10 | 1.4 | 1 | 1.4 | 1 |
| 17/18 | Cymru | 237 | 75.1 | 178 | 17.3 | 41 | 4.6 | 11 | 3.0 | 7 |
| 18/19 | GwE | 64 | 79.7 | 51 | 17.2 | 11 | 1.6 | 1 | 1.6 | 1 |
| 18/19 | Cymru | 227 | 75.8 | 172 | 19.8 | 45 | 1.8 | 4 | 2.6 | 6 |

Y farn yn yr holl ysgolion 2018-19

| | Safonau | | Llesiant | | Addysgu | | Cymorth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru |
| Rhagorol | 18.8 | 11.5 | 25.0 | 19.8 | 17.2 | 11.9 | 23.4 | 18.9 | 28.1 | 17.2 |
| Da | 62.5 | 65.2 | 67.2 | 67.4 | 62.5 | 62.1 | 71.9 | 70.9 | 51.6 | 58.6 |
| Digonol | 15.6 | 21.1 | 7.8 | 12.3 | 20.3 | 24.2 | 4.7 | 8.4 | 18.8 | 20.7 |
| Anfoddhaol | 3.1 | 2.2 | 0.0 | 0.4 | 0.0 | 1.8 | 0.0 | 1.8 | 1.6 | 3.6 |

Arolygiadau Ysgolion Cynradd   Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 59 | 86.4 | 51 | 11.9 | 7 | 1.7 | 1 | 0.0 | 0 |
| 17/18 | Cymru | 200 | 80.5 | 161 | 14.5 | 29 | 3.5 | 7 | 1.5 | 3 |
| 18/19 | GwE | 54 | 88.9 | 48 | 11.1 | 6 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 18/19 | Cymru | 188 | 80.9 | 152 | 16.5 | 31 | 0.5 | 1 | 2.1 | 4 |

Arolygiadau Ysgolion Uwchradd/Pob Oedran Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 7 | 57.1 | 4 | 28.6 | 2 | 0.0 | 0 | 14.3 | 1 |
| 17/18 | Cymru | 30 | 50.0 | 15 | 33.3 | 10 | 10.0 | 3 | 6.7 | 2 |
| 18/19 | GwE | 8 | 12.5 | 1 | 62.5 | 5 | 12.5 | 1 | 12.5 | 1 |
| 18/19 | Cymru | 32 | 43.8 | 14 | 40.6 | 13 | 9.4 | 3 | 6.3 | 2 |

Arolygiadau Ysgolion Arbennig/UCD   Medi 2017 - Gorffennaf 2019

| Blwyddyn | Rhanbarth | Nifer a arolygwyd | Dim dilyniant | | Adolygu gan Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 17/18 | GwE | 3 | 66.7 | 2 | 33.3 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 17/18 | Cymru | 7 | 28.6 | 2 | 28.6 | 2 | 14.3 | 1 | 28.6 | 2 |
| 18/19 | GwE | 2 | 100.0 | 2 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 18/19 | Cymru | 7 | 85.7 | 6 | 14.3 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |

Y farn mewn ysgolion Cynradd   2018-19

| | Safonau | | Llesiant | | Addysgu | | Cymorth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru | GwE | Cymru |
| Rhagorol | 20.4 | 10.1 | 27.8 | 19.1 | 18.5 | 11.2 | 25.9 | 17.6 | 31.5 | 17.6 |
| Da | 70.4 | 71.3 | 68.5 | 72.3 | 72.2 | 66.5 | 72.2 | 76.1 | 57.4 | 63.3 |
| Digonol | 9.3 | 18.1 | 3.7 | 8.5 | 9.3 | 21.3 | 1.9 | 4.8 | 11.1 | 16.5 |
| Anfoddhaol | 0.0 | 0.5 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 1.1 | 0.0 | 1.6 | 0.0 | 2.7 |

**Cynradd** - O'r 54 o ysgolion cynradd a arolygwyd yn 2018/19, barnwyd nad oedd angen dilyniant ar 48 (88.9%) o gymharu â 86.4% yn 2017/18 sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 80.9%.   Roedd ar 6 ysgol (11.1%) angen gweithgarwch dilynol o gymharu â 13.6% yn 2017-18. Dyfarnwyd y categori dilyniant lleiaf dwys i bob un, sef Adolygu gan Estyn. Ar hyn o bryd, mae 8 ysgol mewn categori dilyniant a dim ond 1 ysgol sydd mewn Categori Statudol (gwelliant sylweddol) ar hyn o bryd.   Cynyddodd canran yr ysgolion yn cael barn ragorol yn sylweddol, o 13.2% yn 2017/18 i 24.8% yn 2018/19.

**Uwchradd** - o'r 8 ysgol a arolygwyd, nid oedd angen unrhyw ddilyniant mewn un, barnwyd bod 5 yn y categori dilyniant lleiaf dwys [adolygu gan Estyn] tra gosodwyd dwy mewn mesurau arbennig [un GS a'r llall MA].  Roedd y ddwy ysgol hyn eisoes wedi'u hadnabod fel 'risg uchel' yn ein proffil.  Barnwyd bod 5 ysgol yn Dda ym maes arolygu 2 [lles ac agweddau at ddysgu] tra barnwyd bod 6 ysgol yn Dda ym maes arolygu 4 [gofal, cymorth ac arweiniad]. Barnwyd bod un ysgol yn 'anfoddhaol' ym maes arolygu 5 [arweinyddiaeth].  Ni ddyfarnwyd 'rhagorol' i'r un ysgol yn unrhyw un o'r meysydd arolygu.


Yn ôl proffil presennol y rhanbarth, gwelir bod 6 ysgol uwchradd mewn categori statudol.  Mae gan bob ysgol CGOA cyfansawdd ac mae Estyn wedi cadarnhau cynllun cymorth yr ALl.  Ar hyn o bryd, gwelir bod pob ysgol yn gwneud cynnydd cyson tuag at y rhan fwyaf o'u hargymhellion.  Mae pob ysgol hefyd yn cael ymweliadau monitro yn rheolaidd, a rhoddir gwybod i swyddogion yr awdurdod lleol perthnasol o'r cynnydd a wneir, ac fe dynnir eu sylw at unrhyw bryderon sy'n codi.  Mae 7 arall mewn categori dilyniant Adolygu gan Estyn efo disgwyliad clir y tynnir 3 o'r ysgolion o'r categori erbyn diwedd mis Tachwedd.


**Arbennig -** Proffil cryf ar draws y meysydd arolygu, gydag un ysgol a arolygwyd yn 2018/19 yn 'dda' ym mhob maes arolygu ac ni chafodd ei gosod mewn categori dilyniant**.** Erys un ysgol mewn categori dilyniant Adolygu gan Estyn.

## CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL

**Pob ysgol**
Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 14.6% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 8.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel D wedi gostwng, o 2.4% yn 17/18 i 1.5% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi codi, o 27.5% yn 16/17, 34.0% yn 17/18 i 41.7% yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 18.8% yn 16/17, 14.9% yn 17/18 i 9.2% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn goch wedi gostwng, o 3.1% yn 17/18 i 1.9% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd wedi parhau i godi, o 19.7% yn 16/17 i 36.4% yn 18/19.








**Cynradd**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi parhau i ostwng, o 11.0% yn 16/17, 8.0% yn 17/18 i 5.4% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel D wedi gostwng, o 1.4% yn 16/17 i 0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi codi'n sylweddol, o 28.2% yn 16/17, 35.5% yn 17/18 i 44.1% yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 eto wedi gostwng, o 15.2% yn 16/17, 11.6% yn 17/18 i 6.6% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn goch wedi gostwng, o 1.7% yn 17/18 i 0.0% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 20.2% yn 16/17, 30.7% yn 17/18 i 38.1% yn 18/19.








**Uwchradd**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 wedi gostwng, o 36.4% yn 16/17, 35.2% yn 17/18 i 24.1% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel D wedi aros yn eithaf cyson, 9.1% yn 16/17 (5 ysgol), 11.1% (6 ysgol) yn 17/18 a 11.1% (6 ysgol) yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi codi, o 21.8% yn 16/17 i 24.1% yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 wedi gostwng, o 37.0% yn 17/18 i 25.9% yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn goch wedi codi fymryn, o 13.0% yn 17/18 (7 ysgol) i 14.8% yn 18/19 (8 ysgol). Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd wedi codi'n sylweddol, o 13.0% (7 ysgol) yn 17/18 i 24.1% (13 ysgol) yn 18/19.








**Arbennig**

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd C a D yng Ngham 2 yr un fath, 11.1% (1 ysgol) ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 2016-17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategoreiddio fel Gradd D yn 17/18 nac yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio fel Gradd A wedi parhau i godi, o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17 i 44.4% (4 ysgol) yn 17/18 i 55.6% (5 ysgol) yn 18/19.

Mae canran yr ysgolion sydd wedi'u categoreiddio yn goch neu'n felyngoch yng Ngham 3 yr un fath, ar 11.1%, ar ôl gostwng o 22.2% (2 ysgol) yn 16/17. Ni chafodd yr un ysgol arbennig ei chategoreiddio yn goch yn 17/18 nac yn 18/19. Mae'r ganran sydd wedi'u categoreiddio yn wyrdd yr un fath, ar 44.4% (4 ysgol), ar ôl codi o 33.3% (3 ysgol) yn 16/17.



## 3. CWESTIYNAU SY'N DOD I'R AMLWG I HELPU'R CYD-BWYLLGOR, SWYDDOGION ALL A PHWYLLGORAU CRAFFU I ARFARNU CYNNYDD, SAFONAU A PHERFFORMIAD DISGYBLION.

### Asesiadau Athro

- Pam y mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 yn ymddangos yn is yn y ddwy flynedd ddiwethaf?
- Pam y mae proffil rhanbarthol ESTYN a gweithgarwch casglu gwybodaeth GwE yn gwrth-ddweud deilliannau sy'n gostwng yn y Cyfnod Sylfaen?
- Pa mor effeithiol y dadansoddir ac yr adroddir am gynnydd a data gwerth ychwanegol er mwyn cryfhau perfformiad a gwella safonau?
- I ba raddau mae ysgolion yn olrhain asesu yn rymus, a hynny ar gyfer dysgwyr o bob oedran?
- Sut y mae ysgolion yn defnyddio data asesu gwaelodlin i dargedu a chynllunio ymyrraeth?
- A yw dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr yn cael eu hadnabod yn gywir a'u cefnogi'n effeithiol?
- A yw ysgolion wedi datblygu trefniadau hunan arfarnu effeithiol sydd yn mynd y tu hwnt i ddata perfformiad diwedd cyfnod allweddol er mwyn adnabod yr hyn maen nhw'n wneud yn dda a'r hyn sydd angen newid?
- Pa gamau gweithredu y mae arweinwyr yn rhoi sylw iddynt gyda dosbarthiadau sy'n tanberfformio yn barhaus?
- Pa mor gadarn yw gweithdrefnau safoni mewnol a chymedroli clwstwr mewn ysgolion?
- Pa brosesau monitro sydd ar waith i sicrhau bod ysgolion yn gosod targedau priodol?
- A yw ysgolion yn sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, ac nid â'u holl fryd ar set gul o bynciau a meysydd dysgu?
  Pa ddata ysgol ellir ei ddefnyddio at ddibenion hunan arfarnu Awdurdod Lleol a sut gellir cyflwyno hwn?

### Cyfnod Allweddol 4

- I ba raddau mae pob ysgol yn croesawu'r newid cenedlaethol mewn cyfeiriad ac ymddygiad er mwyn datblygu i'r eithaf berfformiad disgyblion unigol ar draws yr ystod gallu? A oes gan arweinwyr ysgolion weledigaeth glir o ran beth i'w newid a pham?
- A yw pob ysgol wedi datblygu trefniadau hunan arfarnu effeithiol sydd yn mynd y tu hwnt i ddata perfformiad arholiadau er mwyn adnabod yr hyn maen nhw'n wneud yn dda a'r sydd angen newid?
- Pa mor briodol y gweithredir cwricwlwm ysgolion ar draws y rhanbarth? A yw pob ysgol wedi arfarnu'n rymus effaith a chyfraniad pynciau di-graidd unigol yn y mesur C9 diwygiedig? A gefnogir hyn gan arweinwyr yn defnyddio diweddariadau bwletin Llywodraeth Cymru yn effeithiol ac yn amserol?
- A yw prosesau atebolrwydd a SA mewnol presennol yn ddigon cadarn i sicrhau perfformiad cyson gan ddisgyblion unigol yn eu dewisiadau h.y. a yw arweinwyr yn mynd i'r afael ag Amrywiad mewn Ysgol yn effeithiol?
- Pa gamau gweithredu y mae arweinwyr yn rhoi sylw iddynt gydag adrannau sy'n perfformio'n well na chyfartaled yr ysgol a chyda'r rhai hynny sy'n tanberfformio?
- I ba raddau mae tystiolaeth bod adrannau unigol yn dadansoddi'r data a rennir gan CBAC ar berfformiad pynciol?
- I ba raddau mae staff adrannol, yn yr holl bynciau, yn deall y pwysoliad asesu ar gyfer pob manyleb? Sut y mae hyn yn cael effaith effeithiol ar eu cynllunio a'u darpariaeth ac ar y ddealltwriaeth o raddio, dyfarnu ac adrodd ble bo'n berthnasol?

- I ba raddau mae adrannau yn defnyddio'n effeithiol adroddiad y Prif Arholwr, sy'n nodi cryfderau a gwendidau mewn perfformiad?
- Mae gan lawer o ysgolion athrawon sy'n marcio papurau arholiad CBAC. I ba raddau y defnyddir eu harbenigedd yn llawn mewn ac ar draws ysgolion?
- Pam y mae perfformiad mewn Saesneg wedi gostwng yn sylweddol mewn nifer o adrannau ble bu perfformiad cryf yn hanesyddol?
- Pam y mae amrywiad mewn nifer o ysgolion rhanbarthol rhwng perfformiad mathemateg a mathemateg-rhifedd?
- Pa mor dda y mae'r strategaethau 14-19 lleol presennol yn sicrhau y defnyddir cyllid yn effeithiol i gyflwyno profiadau a chymwysterau priodol i grwpiau o ddisgyblion sydd wedi'u targedu, ac i ba raddau maen nhw'n cyfrannu at y mesurau interim diwygiedig ym mhob awdurdod lleol?
- A ydym ni'n hyderus bod y newid cenedlaethol mewn cyfeiriad wedi cael digon o effaith ar y ddarpariaeth leol ar gyfer disgyblion gaiff addysg heblaw yn yr ysgol? (EOTAS). I ba raddau mae eu perfformiad yn 2019 wedi cael effaith ar ddeilliannau awdurdod lleol?
- A ydym ni'n hyderus bod y newid cenedlaethol mewn cyfeiriad wedi cael digon o effaith ar y ddarpariaeth leol ar gyfer Ysgolion Arbennig (145 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11) ac Unedau? I ba raddau mae eu perfformiad yn 2019 wedi cael effaith ar ddeilliannau awdurdod lleol?
- Mae 247 o ddisgyblion EOTAS Blwyddyn 11 yn y rhanbarth - trwy eu grwpio gyda'i gilydd mae hon yn garfan fwy na'r un sydd gennym mewn unrhyw ysgol. I ba raddau mae arweinwyr a staff mewn UauCD yn cael eu cefnogi a'u sgilio i nodi'n glir sut i ddatblygu i'r eithaf berfformiad disgyblion unigol ar draws y mesurau perfformiad diwygiedig?

## 4. BLAENORIAETHAU CYNLLUN BUSNES 2019-20

Mae'r prif feysydd i'w datblygu, a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu yn flaenoriaethau yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2019-2020.

Cymeradwyodd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor ein hamcanion strategol a'n blaenoriaethau ar gyfer 2019-20. Mae chwe adran i'r Cynllun Busnes, ac mae'n cyd-fynd ag 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'. Nodir yn glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid.

Mae'r Cynllun Busnes yn cysylltu â chynlluniau gwasanaeth manylach, efo targedau mesuradwy ar gyfer gwelliant a meini prawf llwyddiant pendant er mwyn gallu mesur cynnydd y rhanbarth yn union. Adroddir ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes bob chwarter, yn unol â'r Fframwaith Atebolrwydd (Atodiad 3).

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r Arweinwyr Craidd. Ym mhob cynllun, nodir yn fanwl y materion allweddol o fewn yr awdurdod lleol, ynghyd â chynllun gwella unigryw i roi sylw i'r heriau penodol. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei adolygu'n gyson.

Dyma ein hamcanion strategol ar gyfer 2019-20:

1: **Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel:**

- Sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'n hollbwysig cyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad.

2: **Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau:**

- Sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel er mwyn ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio er sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.

**3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles:**

- Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.

**4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella system sy'n hunan wella:**

- Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu grymus a gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn ar waith. Sicrhau bod gan arweinwyr ac athrawon y sgiliau, y gallu a'r ymrwymiad i ddysgu yn barhaus ac i wella eu harfer fel bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.

**5: Cwricwlwm Trawsnewidiol**

- Sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n ei alluogi i fod yn ddysgwr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd ei botensial.

**6: Busnes**

- Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

Dyma ein prif flaenoriaethau gwella ar gyfer 2019-20:

**1: Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel:**

1.1 Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd
1.2 Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr
1.3 Cefnogi Prifysgol Bangor a Chaer i ddatblygu darpariaeth AGA o safon uchel

**2: Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau:**

2.1 Darparu rhaglenni datblygu ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel
2.2 Cefnogi ysgolion uwchradd i wella perfformiad arweinyddiaeth ganol
2.3 Datblygu model ymgysylltu â chymheiriaid efo ysgolion i sicrhau bod hunan arfarnu a chynllunio gwelliant yn gadarn ar bob lefel

**3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles:**

3.1 Cefnogi strategaeth dysgwyr bregus
3.2 Datblygu ymhellach y strategaeth PMG

3.3 Gweithio efo ALI ac ysgolion i baratoi ar gyfer trawsnewid Anghenion Dysgu Arbennig yn y ffordd orau

**4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system sy'n hunan wella:**

Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd

4.1 Datblygu systemau olrhain ac asesu

4.2 Datblygu atebolrwydd a systemau rheoli

4.3 Datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant cadarn

**5: Cwricwlwm Trawsnewidiol:**

5.1 Paratoi cwricwlwm trawsnewidiol

5.2 Gwella ansawdd yr addysgu, gan ystyried y 12 egwyddor addysgegol **(**Dyfodol Llwyddiannus**)**

**6: Busnes:**

6.1 Cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu.

## Atodiad 1

### Adroddiad ar Safonau yn ALI Gwynedd

### Newidiadau i'r Meysydd Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen

Ym mis Hydref 2014, adolygwyd Meysydd Dysgu (MD) y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol i gyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh), yn ogystal â'u gwneud yn fwy heriol. Yn unol â hyn, ailbennwyd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen i gyd-fynd â disgwyliadau uwch y Meysydd Dysgu diwygiedig.

Roedd y MD diwygiedig yn statudol o fis Medi 2015. Golyga hyn mai'r garfan a ddechreuodd yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi 2015 oedd y garfan gyntaf i'w hasesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau diwygiedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn haf 2018. Gellir cymharu â pherfformiad blaenorol am y tro cyntaf yn 2019. Fodd bynnag, ymddengys bod y gwaith o ad-drefnu ac ail addasu'r asesiad diwedd Cyfnod Sylfaen yn dal i fynd rhagddo, yn unol â disgrifyddion deilliant newydd. Felly, fel y llynedd, dylid osgoi cymharu deilliannau Cyfnod Sylfaen mewn iaith a mathemateg â rhai'r blynyddoedd blaenorol ar lefel ysgol, gan nad ydynt wedi'u mesur ar sail gymaradwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn glir y bydd y ffocws ar gynnydd dysgwyr o'r asesiad gwaelodlin i ddiwedd Cyfnod Allweddol. Felly, am y tro cyntaf, byddwn yn cynnwys hyn yn ein hadrodd diwedd blwyddyn.

### Safonau yn y Cyfnod Sylfaen yn ALI Gwynedd

Yn gyffredinol, o ystyried canlyniadau y deilliannau disgwyliedig a'r deilliannau uwch, cynnydd y dysgwyr er eu hasesiad sylfaen, deilliannau arolygiadau ESTYN a'r ffaith bod bron pob disgybl yn cael ei asesu drwy'r Gymraeg, mae safonau'r Cyfnod Sylfaen yn ALI Gwynedd yn gyffredinol dda.

Fel y rhagwelwyd yn eang, yn dilyn gweithredu'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen newydd, gwelwyd gostyngiad yn 2018-19 yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyliedig ar hyd a lled Cymru ond roedd y cwymp yn Ngwynedd ychydig mwy na'r cyfartaledd. Mae perfformiad yr Awdurdod Lleol yn adlewyrchu hyn yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) ac ym mhob Maes Dysgu. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r DCS islaw'r cyfartaledd cenedlaethol eleni, ar ôl bod yn agos i'r cyfartaledd dros y ddwy flynedd flaenorol. Comisiynwyd adroddiad i ganlyniadau'r CS gan y pwyllgor craffu yn 2017 ac mae prif ganfyddiadau'r adroddiad yma, sef effaith disgyblion yn cael eu hasesu drwy gyfrwng Y Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith Gwynedd, yn parhau i ddylanwadu ar y canlyniadau.

Mae'r perfformiad ar y deilliannau uwch yn rhoi darlun gwell. Er y gwelwyd gostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n cyflawni'r deilliannau uwch yng Ngwynedd, ond nid yw hyn cymaint a'r darlun cenedlaethol. Mae deilliannau uwch disgyblion ysgolion Gwynedd yn parhau yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob Maes Dysgu ac yn sylweddol uwch o ran Datblygiad Personol a Chymdeithasol.

Gwelwyd gostyngiad yn 2018-19 yng nghanran y disgyblion PYD (cymwys i ginio ysgol am ddim) sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyliedig yn genedlaethol. Yn Ngwynedd fodd bynnag gwelwyd gostyngiad ychydig mwy na'r patrwm cenedlaethol. Ychydig dros hanner disgyblion PYD Gwynedd sydd wedi cyrraedd y deilliant disgwyliedig, mae'r canran yma yn sylweddol is na canlyniadau'r disgyblion heb hawl i PYD. Mae'r gwahaniaeth ym mherfformiad y ddau grwp yma wedi cynyddu dros y 3 mlynedd olaf. Ond, o edrych yn ddyfnach i'r canlyniadau gwelir bod disgyblion PYD Gwynedd wedi gwneud cynnydd mwy na'r disgwyliad o'u Hasesiad Sylfaen y Dosbarth Derbyn i'r Asesiad athro ar ddiwedd Blwyddyn 2. Cynnydd ar gyfartaledd

o o leiaf 3.6 Deilliant o'i gymharu a'r 3.0 Deilliant disgwyledig. Mae'n bosib felly bod disgyblion PYD Gwynedd yn gyffredinol yn cyrraedd yr ysgolion a chyrhaeddiad isel, yn gwneud cynnydd mwy na'r disgwyl drwy'r Cyfnod Sylfaen ond nad yw'r cynnydd yma yn ddigon i gyrraedd y Deilliannau Disgwyledig erbyn diwedd Blwyddyn 2.

Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y CS yng Ngwynedd wedi aros yn debyg dros y blynyddoedd blaenorol, gyda merched yn perfformio ychydig yn well na'r bechgyn ym mhob Maes Dysgu. Gwelir yr eithriad i hyn ar y deilliannau uwch, ble mae bechgyn yn perfformio'n ychydig yn well na merched mewn Datblygiad Mathemategol. Mae'r cyfartaleddau cenedlaethol hefyd ddangos patrwm tebyg iawn i Wynedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn glir mai ar gynnydd Gwerth Ychwanegol rhwng y gwaelodlin a diwedd y Cyfnod Sylfaen y dylid canolbwyntio arno wrth arfarnu cyflawniad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cynnydd disgyblion cyfatebol o garfan dosbarthiadau Derbyn 2017 Gwynedd rhwng y gwaelodlin a diwedd y Cyfnod Sylfaen 2019 yn dda. Mae disgwyl i ddisgyblion wneud cynnydd o 3.0 deilliant yn ystod y Cyfnod Sylfaen, gwna ddisgyblion Gwynedd gynnydd o thua 3.6 deilliant ym mhob maes. Mae'r data Gwerth Ychwanegol hwn yn cadarnhau bod ysgolion yr Awdurdod Lleol yn arddangos dull effeithiol a chyson o gefnogi disgyblion i wneud cynnydd drwy gydol y Cyfnod Sylfaen.

**Cwestiynau sy'n dod i'r amlwg:**

- Pam bod deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn is ym mhob Maes Dysgu ar y deilliant disgwyliedig yn y ddwy flynedd olaf?
- Pam bod y gwahaniaeth rhwng deilliannau CS disgyblion PYD a dim-PYD Gwynedd yn fwy na'r gwahaniaeth cenedlaethol ac yn cynyddu?
- A yw asesiad gwaelodlin Dosbarthiadau Derbyn ac asesiadau athrawon Blwyddyn 2 ysgolion Gwynedd yn fanwl gywir a chadarn?

**Safonau yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ALI Gwynedd**

O ystyried canlyniadau y deilliannau disgwyliedig a'r deilliannau uwch, cynnydd y dysgwyr drwy'r cyfnod a deilliannau arolygiadau ESTYN, mae safonau Cyfnod Allweddol 2 yn ALI Gwynedd yn dda iawn.

Mae canlyniadau y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) ar ddiwedd blwyddyn 6 Gwynedd, er yn adlewyrchu y cwymp bychan cenedlaethol eleni, yn uchel dros y dair mlynedd olaf ac yn parhau yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. O ran y pynciau yn unigol mae canlyniadau lefelau disgwyliedig mae pob un yn agos iawn i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yn debyg i'r patrwm dros dreigl y tair mlynedd olaf mae perfformiad ysgolion Gwynedd ar lefelau uwch CA2 eleni uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob pwnc. O ran canrannau, mae cwymp bychan eleni sy'n cyfateb yn agos iawn i'r disgwyl a adlewyrchir yn y patrwm cenedlaethol.

Gwelwyd cynnydd yng nghanran disgyblion Gwynedd sydd a hawl i ginio am ddim (PYD) a gyflawnodd y lefel disgwyliedig yn B6 yn 2019. Golyga hyn bod y canlyniadau eleni ychydig uwch na'r canlyniad cenedlaethol ar ôl bod ychydig yn is llynedd. Mae patrwm tebyg o ran y disgyblion PYD yn perfformio ar y lefelau uwch. Mae canlyniadau Lefel 5+ disgyblion PYD Gwynedd yn Y Gymraeg, Saesneg a Gwyddoniaeth ychydig uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda Mathemateg yn agos i ganlyniad PYD Cymru.

O ran y gwahaniaeth perfformiad rhwng DPC y bechgyn a merched mae canlyniadau y merched wedi codi ychydig yn gyffredinol tra bod perfformiad y bechgyn wedi cwympo ychydig. Golyga hyn bod y bwlch arferol dros y treigl wedi cynyddu rhywfaint eleni i fod yn fwy

na'r bwlch cenedlaethol. Y gwahaniaeth yng nghanlyniad y lefel disgwyliedig yn Y Gymraeg yw'r prif reswm am hyn. O ran y lefelau uwch mae patrwm tebyg i'r canlyniadau treigl o'r merched yn tueddu i berfformio yn well yn Y Gymraeg a'r Saesneg ac ychydig yn well mewn Gwyddoniaeth. Dros y dair mlynedd olaf mae'r gwahaniaeth llawer llai mewn Mathemateg lefel uwch o'i gymharu a'r pynciau eraill. Y rheswm bod llai o wahaniaeth yn y pwnc yma yw bod y canlyniadau'r merched ychydig is, a chanlyniadau y bechgyn yn gyffredinol uwch na'u canlyniadau cymharol yn y ddwy iaith.

Fel gyda'r Cyfnod Sylfaen, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn glir mai ar gynnydd Gwerth Ychwanegol rhwng diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnod Allweddol 2 y dylid canolbwyntio arno wrth arfarnu cyflawniad disgyblion. Mae cynnydd disgyblion cyfatebol o garfan Cyfnod Sylfaen 2015 Gwynedd i ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 2019 yn gadarnhaol. Mae disgwyl i ddisgyblion wneud cynnydd o 2 lefel yn ystod Cyfnod Allweddol 2; ar gyfartaledd yn Ngwynedd fe wnaeth y disgyblion 2.13 lefel o gynnydd mewn Mathemateg a 2.01 lefel o gynnydd yn Y Gymraeg. Mae'r data Gwerth Ychwanegol hwn yn cadarnhau bod ysgolion yr Awdurdod Lleol yn arddangos dull effeithiol a chyson o gefnogi disgyblion i wneud cynnydd drwy gydol Cyfnod Allweddol 2.

Dilyswyd cymedroli i fod yn fanwl gywir a chadarn ym mron bob ysgol gynradd yng Ngwynedd, gydag anghytundeb ar lefelau mewn nifer fach o ysgolion yn unig. Mae ysgolion cynradd unigol yn tracio data cynnydd yn drylwyr ac yn dwyn staff i gyfrif am ddeilliannau.

**Cwestiynau sy'n dod i'r amlwg:**

- Pam bod mwy o fwlch wedi ymddangos eleni rhwng canlyniad DPC merched a bechgyn, yn enwedig yn Y Gymraeg?
- Pam bod merched yn dueddol o berfformio yn well na'r bechgyn yn lefelau uwch yn y ddwy Iaith ond yn debyg iddynt mewn Mathemateg?
- Pam bod y canlyniadau yn dangos mwy o gynnydd erbyn diwedd B6 mewn Mathemateg nag sydd mewn yn Y Gymraeg?

**Cyfnod Allweddol 3**

Mae canlyniadau eleni yn dechrau adlewyrchu'r newidiadau cenedlaethol, lle mae prif ffocws asesiad athro yn dechrau symud yn ôl at gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr unigol, ac oddi wrth ddefnyddio setiau data wedi'u cyfuno i ddwyn ysgolion i gyfrif.

Yn genedlaethol, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, o leiaf, yn is na 2018 yn y DPC ac ym mhob pwnc craidd.

Mae DPC Gwynedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda gostyngiad o 1.2% o gymharu â pherfformiad 2018 [-1.9% yn genedlaethol]. Roedd perfformiad carfan 2019 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob pwnc craidd ar y lefel ddisgwyliedig.

Ar y lefelau uwch, roedd perfformiad mewn mathemateg a Gwyddoniaeth yn well na 2018, ond gwelwyd gostyngiad bychain mewn Saesneg a Chymraeg. Ac eithrio Saesneg, mae perfformiad yn y pynciau craidd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2019 ar y lefelau uwch.

Gwelwyd gostyngiad bychain mewn perfformiad merched yn y DPC ac ar draws y pynciau craidd, Mae hyn yn dilyn patrymau cenedlaethol ble roedd gostyngiad hefyd ar bob dangosydd. Mae eu perfformiad hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob pwnc craidd ac eithrio'r Gymraeg (-0.4). Yn gyffredinol gwelwyd gostyngiad mewn perfformiad merched ar y lefel uwch, ac eithrio Gwyddoniaeth. Yn unol a'r patrwm

cenedlaethol gwelwyd gostyngiad mewn perfformiad bechgyn yn y DPC, ac mae fymryn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2019. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn ar draws yr holl bynciau craidd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ar y lefelau uwch, ac eithrio mathemateg, gwelwyd gostyngiad bychain ym mherfformiad bechgyn yn y pynciau craidd. Ac eithrio Gwyddoniaeth cynyddodd y bwlch rhwng y rhywiau ar draws pob dangosydd ar y lefel ddisgwyliedig ond bu iddo gulhau ar y lefelau uwch.

Yn gyffredinol gwelwyd cynnydd yng nghanran y disgyblion hPYD a gyflawnodd y deilliannau disgwyliedig ar draws yr Awdurdod yn 2019, a hynny yn y DPC, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, bu gostyngiad 0 1.1% mewn Saesneg. Ar y lefelau uwch, gwelwyd gwelliannau ar draws pob pwnc craidd. Roedd y bwlch rhwng perfformiad dysgwyr hPYD a dim PYD hefyd wedi lleihau ar draws y ddangosyddion.

**Cwestiynau sy'n dod i'r amlwg:**

- Pam ar y lefelau uwch, roedd perfformiad mewn mathemateg a Gwyddoniaeth yn well o'i gymharu a 2018, ond gwelwyd gostyngiad bychain mewn Saesneg a Chymraeg
- Beth a nodwyd sydd wedi cael effaith ar y gwelliant yn safonau perfformiad disgyblion hPYD, yn enwedig felly ar y lefelau uwch?
- Pa agweddau ar arferion gorau yr adrannau/dosbarthiadau sy'n perfformio orau sydd angen eu rhaeadru, a beth yw'r ffordd orau o hwyluso'r broses hon?

**Cyfnod Allweddol 4**

***Cyd-destun***

Roedd carfan ysgol Blwyddyn 11 y llynedd yn cynnwys:

- 32 o ddisgyblion mewn UCD/darpariaeth EOTAS [mae perfformiad y grŵp wedi'i gynnwys yn holl ddata'r ALI]
- mae pob un ysgol uwchradd yng Ngwynedd a % PYD sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16.5%. Mae 5 ysgol yn y grŵp cinio am ddim 0-10% a 9 ysgol yn y grŵp rhwng 10-15%
- 104 disgybl hPYD. Roedd niferoedd mewn ysgolion unigol yn amrywio o 1 i 21. Yn naturiol, dylid ystyried maint y garfan wrth ddadansoddi perfformiad ar lefel ysgol unigol.

***Capio 9***

Mae perfformiad yr ALI yn y prif ddangosydd [Capio 9] 8.1pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 353.3pt. Mae perfformiad mewn ysgolion unigol yn erbyn y mesur yn gadarn iawn yn gyffredinol. Dylid cofio hefyd fod y % wedi'i chyfuno yr awdurdod lleol yn cynnwys data perfformiad ar gyfer y 32 disgybl sydd naill ai mewn UCD neu'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS). Fodd bynnag, mae perfformiad 2019 fymryn yn is na'r perfformiad disgwyliedig o -1.6pt.

Wrth gymharu a chyfartaleddau cenedlaethol dylid cymryd i ystyriaeth nad oes unrhyw ysgol yng Ngwynedd a % PYD sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae perfformiad bechgyn yn nodedig uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2019 (+13.8pt) tra bo perfformiad merched hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (+2.8pt).

Mae perfformiad disgyblion hPYD a dim PYD hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, fwy felly disgyblion PYD (+24.3 pt) sy'n golygu fod y bwlch wedi lleihau ychydig cryn dipyn ac yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol (-58.0pt o gymharu â -77.1pt yn genedlaethol).

Yn 2019, roedd perfformiad 14 ysgol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda pherfformiad 6 ohonynt yn well na'r perfformiad disgwyliedig, ac yn achos 5 ohonynt yn sylweddol uwch.

Mae perfformiad 4 ysgol o'i gymharu a pherfformiad disgwyliedig yn bryder, gyda bylchau mewn perfformiad yn amrywio o -3 pt i – 53.7 pt.

Roedd perfformiad bechgyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 337.3pt mewn 11 ysgol, gyda bwlch pryderus mewn dwy ysgol. Roedd perfformiad merched yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 370.4pt mewn 10 ysgol gyda'r bwlch ond yn arwyddocaol mewn dwy ysgol. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau mewn 5 ysgol yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd perfformiad y merched yn well na'r bechgyn ym mhob un ysgol.

Roedd perfformiad y disgyblion hPYD yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 298.3pt mewn 8 ysgol, ond yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn 6 arall. Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion hPYD a dim PYD yn is na'r bwlch cenedlaethol mewn 8 ysgol, ond erys fod y bwlch yn sylweddol uwch mewn dwy. ( dylid cofio fod niferoedd rhai ysgolion yn isel iawn).

***Dangosydd Llythrennedd***
Mae perfformiad yr ALl yn y dangosydd 1.9pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 39.0pt, ac yn uwch na'r perfformiad disgwyliedig o fymryn +0.2pt. Mae perfformiad bechgyn a merched yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2019 (+2.4pt a +1.6pt), yn y drefn honno]. Mae'r bwlch rhywiau hefyd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae perfformiad disgyblion hPYD a dim PYD hefyd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol( +3.2pt a +1.6pt).

O'r 14 ysgol uwchradd, un yn unig oedd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda sawl ysgol yn nodedig uwch. Bu hanner yr ysgolion berfformio ar neu'n uwch na'r perfformiad disgwyliedig, gyda thair ohonynt yn nodedig uwch, gyda pherfformiad dwy ysgol yn bryder.

Roedd perfformiad bechgyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 36.3pt mewn 13 ysgol gydag un ysgol -2.4 pt islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd perfformiad merched yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 41.8pt mewn 13 ysgol, ac yn is mewn un. Ond nid yn arwyddocaol. Roedd perfformiad merched mewn sawl ysgol yn eithriadol uchel. Mae'r bwlch yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol o 5.5pt mewn 6 ysgol. Roedd perfformiad disgyblion hPYD yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 32.5pt mewn 9 ysgol.

Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion hPYD a dim PYD yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 8.9pt mewn 8 ysgol

***Perfformiad yn y pynciau sy'n cyfrannu i'r dangosydd llythrennedd***
Yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer Saesneg, roedd perfformiad Gwynedd yn gyfartal a'r cyfartaledd cenedlaethol gyda -3.8pt o fwlch rhwng y rhywiau o gymharu â bwlch cenedlaethol o -5.2pt. Roedd perfformiad disgyblion hPYD yn well na'u cyfoedion cenedlaethol o 2.3pt. Mewn Saesneg Llên, roedd perfformiad 0.4pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda bwlch o -3.1pt rhwng y rhywiau [-4.2pt yn genedlaethol]. Roedd perfformiad disgyblion hPYD 2.9pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mewn Cymraeg Iaith Gyntaf, roedd perfformiad ychydig yn is o'i gymharu a'r cyfartaledd cenedlaethol o -0.5pt. Roedd bwlch o -4.3pt rhwng y rhywiau o gymharu â -4.0pt yn genedlaethol. Roedd perfformiad disgyblion hPYD 0.1pt yn is na'u cyfoedion cenedlaethol. Roedd y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer Cymraeg Llên hefyd yn is ffigwr cenedlaethol o -1.8pt, er bod bwlch rhywiau ychydig yn is na'r ffigwr cenedlaethol. Roedd perfformiad disgyblion hPYD ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol [-0.5pt].

Roedd perfformiad 5 ysgol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn Saesneg Iaith, ond mewn 2 ysgol yn unig mewn Saesneg Llên [Ysgolion C a D]. Roedd y bwlch rhwng y rhywiau yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn 4 o'r ysgolion ar gyfer Iaith a Llythrennedd.

Roedd y bwlch mwyaf, yn y ddau ddangosydd, yn Ysgol B. O ran disgyblion hPYD, roedd 5 ysgol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn Iaith a Llythrennedd. Yn Ysgolion A a B, roedd perfformiad disgyblion hPYD yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y ddau ddangosydd.

***Dangosydd Rhifedd***
Mae perfformiad yr ALI yn y dangosydd -0.1pt yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 37.1pt, a 1.7 pt yn is na'r perfformiad disgwyliedig . Mae perfformiad bechgyn fymryn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a pherfformiad y merched fymryn yn is ar gyfer 2019 [+0.6pt a -0.8 pt, yn y drefn honno]. Nid oes bwlch rhywiau yng Ngwynedd o'i gymharu a cyfartaledd cenedlaethol o -1.4pt. Mae perfformiad disgyblion hPYD +1.0 pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol [29.4pt], a dim PYD -0.7 pt yn is. Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion hPYD a dim PYD yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (-8.5pt o gymharu â -10.3pt yn genedlaethol).

O'r 14 ysgol uwchradd, roedd 9 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gydag ond 4 ohonynt yn well na'r perfformiad disgwyliedig. Roedd perfformiad 3 ysgol sylweddol yn is. Roedd perfformiad bechgyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 36.4pt mewn 8 ysgol, ac agos iawn mewn 2 arall.

Roedd perfformiad merched yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 37.8pt mewn 7 ysgol. Perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched mewn 7 ysgol. Roedd perfformiad y disgyblion hPYD yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 29.4pt mewn 9 ysgol. Roedd y perfformiad gwannaf yn 5.4 pt islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion hPYD a dim PYD yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o -10.3pt mewn 10 ysgol.

***Perfformiad yn y pynciau sy'n cyfrannu i'r dangosydd rhifedd***
Yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer mathemateg, roedd perfformiad -0.6pt yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda -1.0pt o fwlch rhwng y rhywiau o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o -2.1pt. Roedd perfformiad disgyblion hPYD (28.5 pt) ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 27.3pt ac roedd y bwlch rhwng perfformiad disgyblion hPYD a dim PYD yn llai yng Ngwynedd nag yng Nghymru.

Mewn mathemateg-rhifedd, roedd perfformiad yr awdurdod 0.9 pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 34.2pt, gyda'r bechgyn yn perfformio yn well na'r merched. Roedd perfformiad disgyblion hPYD hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 26.1pt (+2.2pt).

***Y dangosydd Gwyddoniaeth***
Mae perfformiad yr ALI yn y dangosydd fymryn 1.6 pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 36.8pt, gyda pherfformiad bechgyn (+2.4pt) a merched (+0.8pt) yn uwch na'u cyfoedion cenedlaethol. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau(-1.1pt) hefyd yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol o -2.7pt. Mae perfformiad disgyblion hPYD +4.0pt yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 28.2pt, ac mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion hPYD a dim PYD hefyd yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol [-8.5pt o gymharu â -11.6pt yn genedlaethol].

O'r 14 ysgol uwchradd, roedd 9 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd perfformiad bechgyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 35.5pt hefyd mewn 9 ysgol, gyda bwlch yn y 5 arall yn amrywio o -0.7pt i – 5.6pt. Roedd perfformiad merched yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 38.2pt eto mewn 9 ysgol, ond heb batrwm union, o'r 5 ysgol oedd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol roedd amrywiaeth o 0.1pt pt i 1.6pt. Amlygir bryder am ganlyniadau gwyddoniaeth mewn ychydig o'r ysgolion.

Roedd perfformiad y disgyblion hPYD yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 28.2pt mewn 10 o'r 14 . Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion hPYD a dim PYD hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn hefyd mewn 10 ysgol.

**Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru**
Mae perfformiad yr ALI yn y dangosydd -0.4pt yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 36.4pt, a 1.9pt yn is na'r perfformiad disgwyliedig. Mae perfformiad bechgyn a merched yn cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae perfformiad disgyblion hPYD +2pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol [29.5pt], ac mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion hPYD a dim PYD hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol [-6.7pt o gymharu â -9.6pt yn genedlaethol].

O'r 14 ysgol uwchradd, roedd 10 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond ddim o reidrwydd yn dilyn patrymau y dangosyddion eraill. Ond 5 ysgol oedd yn well na'r perfformiad disgwyliedig. Roedd perfformiad bechgyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 33.5pt mewn 9 ysgol. Roedd perfformiad merched yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 39.5pt mewn 12 ysgol. O'r herwydd mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn 6 ysgol, ac ar ei fwyaf yn 4 pt uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Roedd perfformiad y disgyblion hPYD yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 29.5pt mewn 10 ysgol, ac roedd y bwlch rhwng perfformiad disgyblion hPYD a dim PYD hefyd yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn 9 ysgol.

**Cwestiynau sy'n dod i'r amlwg:**

**Ysgolion cyfan:**
- Pam y mae cymaint o amrywiad mewn perfformiad rhwng ysgolion unigol yng Ngwynedd pan fo canrannau hawlio cinio am ddim pob ysgol islaw cyfartaledd cenedlaethol?
- O ran cyfraniad i'r mesur llythrennedd a rhifedd, pam yng Ngwynedd mae'r Gymraeg a Rhifedd wedi cyfrannu llawer mwy na Saesneg a Mathemateg yn 2019
- Pa mor hyderus ydym ni bod holl ysgolion Gwynedd yn arfarnu'n effeithiol effaith a chyfraniad pynciau di-graidd unigol yn y mesur C9 diwygiedig, ac i ba raddau y mae eu prosesau atebolrwydd yn herio'n rymus amrywiad mewn Ysgol?
- Pa gamau gweithredu effeithiol y mae arweinwyr yn rhoi sylw iddynt ar hyn o bryd gydag adrannau sy'n perfformio'n well na chyfartaledd yr ysgol a chyda'r rhai hynny sy'n tanberfformio? Sut gellir sicrhau bod ysgolion yn dysgu gan ei gilydd?
- I ba raddau y mae adrannau unigol mewn ysgolion yn mynd ati i ddadansoddi'n fforensig y data a rennir gan CBAC ar berfformiad pynciau, ac i ba raddau y mae staff adrannau, ar draws yr holl bynciau, yn deall y pwysoliad asesu ar gyfer pob manyleb? Sut y mae hyn yn cael effaith effeithiol ar eu cynllunio a'u darpariaeth ac ar y ddealltwriaeth o raddio, dyfarnu ac adrodd ble bo'n berthnasol?
- Pa mor addas yw'r ddarpariaeth mewn ysgolion ar gyfer bechgyn, yn enwedig y rhai hynny sydd mewn perygl o golli diddordeb?
- Pa mor dda y mae'r strategaethau 14-19 lleol presennol yn sicrhau y defnyddir cyllid yn effeithiol i gyflwyno profiadau a chymwysterau priodol i grwpiau o ddisgyblion sydd wedi'u targedu, ac i ba raddau maen nhw'n cyfrannu at y mesurau interim diwygiedig ym mhob awdurdod lleol?
- O ran dysgwyr UCD/EOTAS, sut y gallwn sicrhau'n effeithiol bod arweinwyr a staff UauCD yn cael eu cefnogi a bod ganddynt y sgiliau i nodi'n glir sut i ddatblygu i'r eithaf berfformiad disgyblion unigol ar draws y mesurau perfformiad diwygiedig?

**Llythrennedd:**
- Pa mor effeithiol y mae ysgolion yn datblygu 'uwch sgiliau ysgrifennu' i wella perfformiad?
- Beth yw'r ffordd orau o gefnogi athrawon dosbarth ac adrannau i wella addysgu sgiliau arholiad?
- Beth yw'r strategaethau mwyaf effeithiol i leihau ymhellach y bwlch rhwng y rhywiau?
- A oes gan bob adran ddull cyffredin ac effeithiol o addysgu ysgrifennu?
- Sut y gallwn ni rymuso Penaethiaid Adran ymhellach i arwain y dysgu a'r addysgu?

- Sut y gallwn ni wella ansawdd Ymyrraeth Lythrennedd yng nghyfnod allweddol 3, yn enwedig ymyrraeth ar gyfer dysgwyr hPYD?
- Sut y gallwn ni gefnogi adrannau i gynyddu lefel yr her yng nghyfnod allweddol 3?

**Rhifedd:**
- Beth yw'r ffordd orau o gefnogi athrawon dosbarth ac adrannau i wella addysgu sgiliau arholiad?
- Beth yw'r strategaethau mwyaf effeithiol i leihau ymhellach y bwlch rhwng y rhywiau?
- Sut y gallwn ni gefnogi adrannau i gynyddu lefel yr her yng nghyfnod allweddol 3?
- Sut y gallwn ni wella ymhellach addysgu rhifedd a mathemateg yng nghyfnod allweddol 3?
- Beth yw'r ffordd orau o gefnogi gweithio ar y cyd yng nghyfnod allweddol 4?
- Mae ysgolion wedi cymryd rhan yn effeithiol yn rhaglen TGM y MEI yn y blynyddoedd a fu. Sut y gallwn ni gefnogi athrawon ymhellach o fewn y sir?

**Gwyddoniaeth:**
- Sut y gallwn ni gefnogi datblygiad sgiliau rhifedd yn fwy effeithiol (sgiliau rhifedd yn asesiad 30% mewn gwyddoniaeth ar draws y TGAU)?
- Sut y gallwn ni gefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd yn fwy effeithiol er mwyn cefnogi dysgwyr gallu is i ymdopi â'r swmp mawr o destun mewn papurau arholiad?
- Beth yw'r strategaethau mwyaf effeithiol i leihau ymhellach y bwlch rhwng y rhywiau?
- Sut y gallwn ni weithredu ymchwil weithredol fwy effeithiol mewn dosbarthiadau er mwyn gwella'r dysgu a'r addysgu?
- Beth yw'r strategaethau gorau i ennyn diddordeb bechgyn mewn gwyddoniaeth?
- Beth yw'r strategaethau gorau i ennyn diddordeb merched mewn gwyddoniaeth?
- Beth yw'r dull mwyaf effeithiol o gychwyn gwers wyddoniaeth? (cysylltiedig â phrosiect ymchwil EEF)
- Sut y gallwn ni ddefnyddio modelu i godi cyrhaeddiad mewn gwyddoniaeth?

**Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru**
- Pam fod cymaint o wahaniaeth rhywiau yn y mesur hwn

**Cyfnod Allweddol 5**

293 disgybl wedi sefyll Safon Uwch yng Ngwynedd (Cynnydd o 264 o'r flwyddyn flaenorol).

Gwelwyd gwelliant mewn deilliannau, ar raddau A*/A, A*-B , A*-C ac A*-E. (+4.1%, +7.8% +5.1% a 0.4% yn y drefn honno).

Mae'r perfformiad yn uwch na Chymru ar y dangosydd A*-B (+2.5%) A*-C (+0.6%) ond ychydig yn is ar y dangosydd A*/A (-0.1%) ac A*-E (-0.2%).

O ran dadansoddiad ALPS bu cynnydd yn sgôr cyfartalog TGAU disgyblion Bl13 2018-19. 6.10-> 6.18 (Sgôr uchaf yn y 4 mlynedd diwethaf).

Nifer o'r disgyblion gyda sgôr yn y 3ydd uchaf (+6.40) wedi cynyddu i 43.7% (+5.8% o'r flwyddyn flaenorol a +3.00% uwchben y cyfartaledd cenedlaethol.

Er hyn perfformiad disgyblion gyda disgwyliadau A* ar gyfer Lefel A yn siomedig gyda gostyngiad o 6.85 yn eu cyfartaledd pwyntiau UCAS enillwyd o gymharu â pherfformiad disgyblion tebyg y flwydd flaenorol.

Pynciau STEM a'r Gymraeg Iaith Gyntaf, Hanes, Seicoleg a Llenyddiaeth Saesneg yn perfformio yn dda. Cynnydd rhagorol yn safonau gwerth ychwanegol Cymdeithaseg a Ffrangeg, Cynddydd da iawn mewn safonau Celf.

Pryder am ostyngiad mewn perfformiad Addysg Grefyddol, Astudiaethau Busnes a Drama. Pryder parhaol ar gyfer perfformiad Saesneg Llenyddiaeth ac Iaith sydd wedi bod yn gyson siomedig ers dwy flynedd.

**Proffil Estyn yr ALI**

Gwynedd

| Blwyddyn | ALL Cymru | Nifer Arolygwyd | Dim mewn Dilyniant | | Adolygiad Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 2017-2018 | Gwynedd | 19 | 84.2 | 16 | 15.8 | 3 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 2017-2018 | Cymru | 237 | 75.1 | 178 | 17.3 | 41 | 4.6 | 11 | 3.0 | 7 |
| 2018-2019 | Gwynedd | 15 | 93.3 | 14 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 6.7 | 1 |
| 2018-2019 | Cymru | 227 | 75.8 | 172 | 19.8 | 45 | 1.8 | 4 | 2.6 | 6 |

Deilliannau Arolygu 2018-19

| | Safonau | | Lles | | Addysgu | | Cefnogaeth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru |
| Rhagorol | 26.67 | 11.45 | 26.67 | 19.82 | 26.67 | 11.89 | 26.67 | 18.94 | 33.33 | 17.18 |
| Da | 66.67 | 65.20 | 66.67 | 67.40 | 66.67 | 62.11 | 66.67 | 70.93 | 60.00 | 58.59 |
| Digonol | 0.00 | 21.15 | 6.67 | 12.33 | 6.67 | 24.23 | 6.67 | 8.37 | 0.00 | 20.70 |
| Anfoddhaol | 6.67 | 2.20 | 0.00 | 0.44 | 0.00 | 1.76 | 0.00 | 1.76 | 6.67 | 3.52 |

Cynradd

| Blwyddyn | ALL Cymru | Nifer Arolygwyd | Dim mewn Dilyniant | | Adolygiad Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 2017-2018 | Gwynedd | 14 | 92.9 | 13 | 7.1 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017-2018 | Cymru | 200 | 80.5 | 161 | 14.5 | 29 | 3.5 | 7 | 1.5 | 3 |
| 2018-2019 | Gwynedd | 14 | 100.0 | 14 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 2018-2019 | Cymru | 188 | 80.9 | 152 | 16.5 | 31 | 0.5 | 1 | 2.1 | 4 |

Uwchradd/ Gydol Oes

| Blwyddyn | ALL Cymru | Nifer Arolygwyd | Dim mewn Dilyniant | | Adolygiad Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 2017-2018 | Gwynedd | 4 | 75.0 | 3 | 25.0 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 2017-2018 | Cymru | 30 | 50.0 | 15 | 33.3 | 10 | 10.0 | 3 | 6.7 | 2 |
| 2018-2019 | Gwynedd | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 100.0 | 1 |
| 2018-2019 | Cymru | 32 | 43.8 | 14 | 40.6 | 13 | 9.4 | 3 | 6.3 | 2 |

Arbennig / Unedau Cefnogi Dysgu

| Blwyddyn | ALL Cymru | Nifer Arolygwyd | Dim mewn Dilyniant | | Adolygiad Estyn | | Gwelliant Sylweddol | | Mesurau Arbennig | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | % | # | % | # | % | # | % | # |
| 2017-2018 | Gwynedd | 1 | 0.0 | 0 | 100.0 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |
| 2017-2018 | Cymru | 7 | 28.6 | 2 | 28.6 | 2 | 14.3 | 1 | 28.6 | 2 |
| 2018-2019 | Gwynedd | 0 | #DIV/0! | 0 | #DIV/0! | 0 | #DIV/0! | 0 | #DIV/0! | 0 |
| 2018-2019 | Cymru | 7 | 85.7 | 6 | 14.3 | 1 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 |

Cynradd

| | Safonau | | Lles | | Addysgu | | Cefnogaeth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru |
| Rhagorol | 28.57 | 10.11 | 28.57 | 19.15 | 28.57 | 11.17 | 28.57 | 17.55 | 35.71 | 17.55 |
| Da | 71.43 | 71.28 | 71.43 | 72.34 | 71.43 | 66.49 | 71.43 | 76.06 | 64.29 | 63.30 |
| Digonol | 0.00 | 18.09 | 0.00 | 8.51 | 0.00 | 21.28 | 0.00 | 4.79 | 0.00 | 16.49 |
| Anfoddhaol | 0.00 | 0.53 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.06 | 0.00 | 1.60 | 0.00 | 2.66 |

Uwchradd/ Gydol Oes

| | Safonau | | Lles | | Addysgu | | Cefnogaeth | | Arweinyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru |
| Rhagorol | 0.00 | 12.50 | 0.00 | 18.75 | 0.00 | 9.38 | 0.00 | 21.88 | 0.00 | 9.38 |
| Da | 0.00 | 34.38 | 0.00 | 40.63 | 0.00 | 40.63 | 0.00 | 43.75 | 0.00 | 34.38 |
| Digonol | 0.00 | 40.63 | 100.00 | 37.50 | 100.00 | 43.75 | 100.00 | 31.25 | 0.00 | 46.88 |
| Anfoddhaol | 100.00 | 12.50 | 0.00 | 3.13 | 0.00 | 6.25 | 0.00 | 3.13 | 100.00 | 9.38 |

**Proffil Categoreiddio yr ALI –** gwybodaeth i ddilyn.

**Trefniadau monitro yr ALI ar gyfer craffu ar berfformiad ysgolion unigol**

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Ansawdd Lleol pob pythefnos rhwng Arweinyddion Craidd Cynradd ac Uwchradd GwE a swyddogion ALI Gwynedd. Trafodir unrhyw ysgolion sy'n achosi pryder, a nodir unrhyw gryfderau a meysydd i'w gwella. Trafodir hefyd canfod pryderon yn gynnar mewn ysgolion, ac fe'u nodir fel y gellir darparu ymyrraeth a chymorth yn gynnar. Mae hyn yn cysylltu â'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir rhwng Arweinydd Craidd Gwynedd a'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant er mwyn trafod cynnydd holl ysgolion Gwynedd. Mae'r gohebu rheolaidd rhwng yr ALI a swyddogion GwE yn sicrhau y rhennir gwybodaeth am allu ysgolion i wella, a ble gwelir bod pryderon mae pawb yn gweithio mewn partneriaeth i adolygu'r safonau a'r ddarpariaeth yn yr ysgol a gosod a monitro targedau pendant ar gyfer gwella.

Mae gan ALI Gwynedd brosesau monitro cadarn i graffu ar berfformiad ysgolion unigol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio 'Byrddau Gwella Ysgol’ mewn ysgolion sy'n achosi pryder h.y.yr ysgolion hynny sydd mewn categori ESTYN a'r rheini sydd wedi'u categoreiddio yn Goch neu Felyngoch drwy'r system Categoreiddio Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd Gwella yn cynnwys y Pennaeth, llywodraethwyr yr ysgol, swyddogion ALI, swyddogion GwE a staff ysgol ychwanegol, pan fo'n berthnasol. Trafodir cynnydd yn erbyn camau gweithredu a blaenoriaethau a'i arfarnu, yn ogystal ag ansawdd y cymorth y mae GwE a'r ALI yn ei roi i'r ysgol.

**Prif feysydd ar gyfer gwelliant yr ALI i'w cynnwys mewn Cynlluniau Busnes Lefel 2**

- Gwella perfformiad ar y lefelau disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen ar draws pob maes dysgu.
- Gwella perfformiad disgyblion hPYD yn y Cyfnod Sylfaen
- Gwella perfformiad ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 3.
- Parhau i wella ansawdd y cynllunio a’r dysgu fel bod pob dysgwr yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhif a TGC
- Gwella perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4.
- Gwella perfformiad bechgyn ym mhob dangosydd allweddol yng nghyfnod allweddol 4.
- Gwaredu yr amrywiaethau perfformiad rhwng ac oddi fewn i adrannau mewn ysgolion penodol.
- Gwella perfformiad ar raddau A*-A yng nghyfnod allweddol 5.
- Sicrhau bod ysgolion mewn categori statudol yn gwneud y cynnydd disgwyliedig oddi fewn i’r terfynau amser bennir.








# Adroddiad Blynyddol

# Adran Addysg



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL



**ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2018-19**

**CYNNWYS**


1. **CYD-DESTUN**
2. **Y GYMRAEG**
3. **ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD**
4. **DIOGELU**
5. **BLYNYDDOEDD CYNNAR**
6. **Y TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG**
7. **CONSORTIWM ADDYSG ÔL-16 GWYNEDD AC YNYS MÔN**
8. **TRAC**
9. **ARWEINYDDIAETH**
10. **UNED DDATA**
11. **GWASANAETH CEFNOGI LLYWODRAETHIANT YSGOLION**
12. **UNED CONTRACTAU A CHYFLOGAETH**
13. **UNED ARLWYO A GLANHAU**
14. **CLUDIANT**

**CYD-DESTUN**

**GWELEDIGAETH YR ADRAN ADDYSG:** Plant a phobl ifanc Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant ac economi yn lleol.

**PWRPAS:** ***Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion***

**GWASANAETHAU RYDYM YN EU DARPARU:** Codi Safonau, Gwasanaethau Cefnogol, Cyflogau a Chontractau Staff Ysgolion, Pensiynau Athrawon, Arlwyo Ysgolion, Glanhau Ysgolion, Cludiant Ysgolion, Iechyd a Diogelwch, Mynediad Ysgolion, Cefnogaeth i Lywodraethwyr, Cefnogaeth Gyllidol i Ysgolion, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Uned Ddata, Cefnogaeth Adnoddau Dynol i Ysgolion a'r Adran Addysg, Presenoldeb ac Ymddygiad, Gwasanaeth Lles Addysg, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Amddiffyn Plant, Arweinyddiaeth a Rheolaeth, Hyfforddiant.

**BETH MAE'R ADRAN YN EI WNEUD?**

- Cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf.
- Sicrhau bod disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael y gefnogaeth fwyaf addas.
- Sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd.
- Sicrhau bod disgyblion o fewn ysgolion Gwynedd yn ddiogel.
- Darparu gwasanaethau cefnogol pwrpasol ar gyfer Gwasanaeth Addysg Gwynedd.
- Datblygu arweinwyr a chefnogi'r gweithlu yn yr ysgolion.
- Cefnogaeth i gyrff llywodraethu ysgolion er mwyn iddynt weithredu fel llywodraethwyr effeithiol.

Mae 83 ysgol gynradd, 13 Ysgol Uwchradd 1 Ysgol Ddilynol, 1 Ysgol Gydol Oes, a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

| EIN PRIF FESURYDDION PERFFORMIAD |
|---|
| Canran y disgyblion 15 oed (ar y 31 Awst blaenorol) sydd yn ennill pum gradd TGAU A* i C, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a Mathemateg (TL2+) |
| Sgôr bwyntiau cyfartalog ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol |
| Canran y disgyblion 16 oed sydd yn ennill 5 gradd TGAU, graddau A* i C (TL2) |
| Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill 5 gradd TGAU A* i G (TL1) |
| Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill Gradd C neu uwch, mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (DPC) |
| Canran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant |
| Canran yr holl ddisgyblion, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu yn seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster |
| Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd blwyddyn 9, ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (DPC) |
| Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd blwyddyn 6, ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (DPC) |
| Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (DCS) |
| Nifer o waharddiadau parhaol yn yr ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd |
| Nifer o waharddiadau parhaol yn yr ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd |
| Canran presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd |
| Canran presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd |

**Y GYMRAEG**

**CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG**

Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu sut mae awdurdodau lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y dogfennau canlynol:

- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Cymraeg 2050
- Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl (Cynllun Gweithredu 2017-21)
- Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-21
- Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23

**Nodweddion da**

- Mae perfformiad yn y Gymraeg yn CA2 a CA3 yn gyson dda dros gyfnod treigl
- Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o ADY.
- Awdit o Sgiliau Iaith y Gweithlu Addysg yng Ngwynedd wedi ei gynnal
- Cynlluniau peilot i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu addysg yn Ysgol Uwchradd Tywyn wedi profi llwyddiant

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Llunio dogfen ymgynghorol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn unol â gofynion y Rheoliadau newydd a ddaeth i rym 1 Ionawr 2020.
- Atgyfnerthu egwyddorion a methodoleg trochi'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen
- Parhau i sicrhau pontio effeithiol rhwng CA2 a CA3
- Rhoi sylw penodol i gyfrwng iaith yn CA4
- Parhau i gefnogi gweithlu ein hysgolion uwchradd i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg

**SIARTER IAITH HWB GWYNEDD A MÔN 2018- 2019**

Addaswyd y cynlluniau gweithredu a thaflenni arfarnu i;

- Gefnogi egwyddorion y Cwricwlwm newydd , y pedwar diben a gofynion Dyfodol Llwyddiannus
- Gofnodi a diffinio cynnydd mewn dull hylaw ac effeithiol
- Lluniwyd cynlluniau gweithredu enghreifftiol er mwyn ysgogi syniadau cydweithio dalgylchol a chefnogi'r ysgolion i gyflawni'r nod
- Cynhaliwyd cyfarfodydd efo cyd gysylltwyr iaith o bob dalgylch i roi arweiniad ar y dogfennau a'r adnoddau diweddaraf
- Bu i bob ysgol (namyn 2) gwblhau data'r we iaith ym Medi 2018, ac yna yn nhymor yr haf 2019 er mwyn gallu mesur cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o fewn y flwyddyn addysgol.
- Bu i bob ysgol (ar lefel cyfarfod dalgylchol) dderbyn cefnogaeth i lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r Siarter iaith,

- Cynhaliwyd nifer o weithgareddau ar lefel ysgol unigol ynghyd â chydweithio dalgylchol i rannu arfer da.
- Derbyniwyd 75 o arfarniadau a nodwyd ymatebion i'r camau gweithredu gan roi arweiniad i'r ysgolion pa gamau nesaf i'w cymryd.
- Cynhaliwyd ymweliadau dilysu ar draean o'r ysgolion a chynhaliwyd cyfarfodydd i gymedroli'r gwaith.
- Dyfarnwyd bod 42 ysgol wedi cynnal y lefel aur a bod 31 o ysgolion ar y lefel arian.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Trafodaethau wedi'u cynnal efo'r cyd gysylltwyr iaith ac adborth wedi'i roi ar gynnwys arfarniadau'r holl ysgolion a chamau nesaf wedi'u gosod ar gyfer y flwyddyn 2019-2020
- Llwyfannau HWB Google Classrooms Siarter Iaith dalgylchol wedi'u creu er mwyn hwyluso'r ffordd o rannu adnoddau, dogfennau ac arferion da.
- Hyfforddiant Seicoleg Iaith a dulliau i gymell disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu cynnal.

**STRATEGAETH IAITH UWCHRADD**

Gweledigaeth y Strategaeth Iaith Uwchradd yw sicrhau cyfundrefn o ysgolion uwchradd o fewn y Sir sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ymhob agwedd o'u gwaith. Pwrpas y Strategaeth yw sicrhau dilyniant a pharhad i lwyddiant y Siarter Iaith Gynradd, gan hyrwyddo defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg a'i datblygu'n gyfrwng effeithiol ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol yn ei holl agweddau.

**Nodweddion da**

- Disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 erbyn hyn, yn cwblhau'r We Iaith yn dymhorol er mwyn mesur eu defnydd cymdeithasol a chwricwlaidd o'r Gymraeg, a'r ysgolion yn defnyddio'r data er mwyn llunio'u targedau gweithredu.
- Pob ysgol wedi datblygu cynlluniau gweithredu unigol ac agweddau i'w datblygu ymhellach yn unol ag egwyddorion y Strategaeth Iaith.
- Pob Cyngor Ysgol/Cyngor Iaith yn cynllunio a chynnal gweithgareddau wedi'u hariannu drwy gyllid PCAI a gweithgareddau eraill yn ystod y flwyddyn.
- Arolwg o gyfrwng iaith addysgu pynciau o fewn yr ysgolion Uwchradd yng Nghyfnodau Allweddol 3, 4 ac Ôl-16 wedi ei gwblhau a chasgliadau ar fin cael eu cyflwyno.
- Cynllun Peilot ar y cyd gydag Ysgol Bro Idris yn mynd rhagddo er mwyn edrych ar arferion iaith dysgwyr wrth symud o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.
- Disgyblion yr ysgolion wedi cydweithio i lunio fideo i hyrwyddo manteision addysg ddwyieithog, a chynrychiolwyr o Gydlynwyr Iaith wedi cydweithio gyda Chydlynydd y Strategaeth i greu adnoddau i'w chefnogi.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Parhau i gynnig cefnogaeth i bob ysgol uwchradd i weithredu prif flaenoriaethau'r Strategaeth Iaith ac ail-ymweld â'u cynlluniau gweithredu unigol.
- Gwneud defnydd ystyrlon o ganlyniadau'r holiadur cyfrwng addysgu pynciau er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth a gynhigir ar draws y Sir.
- Sicrhau fod sgiliau Iaith y Gweithlu'n cael eu datblygu a'u monitro yn unol â chanlyniadau Arolwg Sgiliau Iaith a gynhaliwyd yn yr Hydref. Cynllun Gweithredu yn weithredol i gefnogi gweithlu Ysgol Friars i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Rhaeadru negeseuon allweddol o Hyfforddiant Seicoleg Iaith a gynhaliwyd gyda'r holl ysgolion.
- Sicrhau fod anghenion hyfforddiant yn cael eu diwallu e.e. Hyfforddiant Gloywi.

- Sicrhau fod negeseuon allweddol yn cael eu rhaeadru'n effeithiol ar draws y clystyrau o fewn y Sir.
- Cynnal grwpiau ffocws gyda chynrychiolaeth o ysgolion i wrando ar Lais y Dysgwyr wrth ystyried datblygiad pellach y Strategaeth Iaith.

**CANOLFANNAU IAITH GWYNEDD**

Nod y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol.

Nodweddion da

- Dengys y tabl isod niferoedd dysgwyr a fynychodd y Canolfannau Iaith yn 2018-19:

| TYMOR | Dolgellau | Llangybi | Maesincla | Penrhyn | Cyfanswm | Uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CAPASITI** | **8** | **16** | **16** | **16** | | |
| Gwanwyn 2018 | 7 | 14 | 15 | 11 | 47 | 15 |
| Haf 2018 | 7 | 8 | 16 | 14 | 45 | 14 |
| Hydref 2018 | 8 | 11 | 16 | 16 | 51 | 15 |
| **Cyfanswm 2018** | **22** | **33** | **47** | **41** | **143** | **44** |
| Gwanwyn 2019 | 9 | 8 | 11 | 16 | 44 | 11 |
| Haf 2019 | 3 | 7 | 13 | 17 | 40 | 9 |

- Yn ystod y flwyddyn bu ymgynghori gyda staff ar ail-strwythuro yn dilyn toriad cenedlaethol i'r Grant Gwella Addysg sydd yn cyllido'r Canolfannau Iaith. Cyflwynwyd adroddiad gerbron Cabinet Cyngor Gwynedd ar 2 Ebrill 2019, a arweiniodd at y penderfyniad canlynol:
  - Gweithredu cynllun peilot o strwythur staffio o athro a chymhorthydd gan gynyddu'r gymhareb athro : disgybl mewn un Canolfan Iaith am gyfnod o flwyddyn, gan ei fonitro'n ofalus er mwyn canfod a yw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant
  - Diddymu lwfans CAD i athrawon ymhob Canolfan Iaith, ynghyd ag ymgorffori'r ôl-ofal yn rhan o ddarpariaeth graidd y Canolfannau Iaith, gan ddiddymu'r swydd ôl-ofal sydd yn bodoli ar hyn o bryd.
  - Er mwyn prynu amser i ystyried canlyniadau'r peilot, cymeradwyo cyllid pontio i gyfarch y bwlch fydd yn parhau i fodoli ar ôl gweithredu ar (ii) uchod hyd nes y bydd casgliadau'r peilot yn wybyddus.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF**

- Gweithredu cynllun peilot o strwythur staffio o athro a chymhorthydd mewn un Canolfan Iaith.
- Cynllunio a gweithredu darpariaeth ôl-ofal fel rhan o ddarpariaeth graidd y Canolfannau Iaith cynradd.

- Parhau i ddatblygu gwefan y Canolfannau Iaith.
- Yn sgil gweithredu'r drefn rheoli perfformiad, cefnogi'r staff i fanteisio ar hyfforddiant pwrpasol a sicrhau cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.
- Ail-edrych ar y drefn mynediad i'r Canolfannau Iaith.

**ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD**

Mae'r Gwasanaeth Integredig Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad, sydd yn wasanaeth ar y cyd gyda Chyngor Môn yn weithredol ers Medi 2017. Pwrpas y gwasanaeth yw:

- adnabod problemau / anghenion yn gynnar ym mywyd y plentyn a sicrhau ymyrraeth briodol;
- ymyrryd yn gynnar pan fo problemau yn dod i'r golwg;
- gweithio yn fwy integredig ac amlasiantaethol, gan rannu gwybodaeth a chyd-gynllunio'r ddarpariaeth;
- sicrhau fod sgiliau a dealltwriaeth y gweithlu yn cael eu datblygu yn gyson;
- sicrhau cyfathrebu gwell a mwy trefnus gyda'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd.

Nodweddion da:

- System Cynllun Datblygu Unigol electroneg wedi ei ddatblygu gan Cynnal ac erbyn hyn mewn defnydd gan bob ysgol, yn dilyn cyfnod peilota llwyddiannus. Mae'r system yn hwyluso gwaith yr ysgolion a'r gwasanaeth yn sylweddol.
- Prosiect Ysgolion sy'n Meithrin yn parhau i weithredu ac arddangos canlyniadau positif o fewn y cynradd ac uwchradd.
- Gwaith Gwedd 2 o'r Adolygiad Strategol yn gwneud cynnydd da ac yn parhau i sicrhau fod Gwynedd yn barod am y ddeddfwriaeth ADY newydd ym mis Medi 2020. Yr Awdurdod yn parhau i arloesi o ran paratoadau.
- Strategaeth Hyfforddiant y gwasanaeth wedi cael ei gosod, a'r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno. Hyn yn rhan annatod o swyddogaeth pob tîm erbyn hyn.
- Defnydd o TOMs (Therapy Outcome Measures) yn cael ei ymestyn ymhellach er mwyn gallu adrodd ar gynnydd plant yn ehangach, gan fod dangos cynnydd plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn gofyn am ddulliau holistaidd.
- Trefniadau ar gyfer monitro darpariaeth ADY a defnydd adnoddau mewn lle fel rhan o waith rhesymoli defnydd Cyllid ADY Integreiddio. Mae hyn, ynghyd ag effaith mewnbwn y Gwasanaeth ADY a CH, a phroses Panel Cymedroli manwl, wedi arwain at resymoli'r galw ar y cyllid ADY. Mae hyn hefyd yn rhan o waith Gwedd 2 sydd yn parhau.
- Nifer tribiwnlysoedd yn parhau yn isel iawn, gyda thribiwnlysoedd sydd yn ymwneud â darpariaeth o fewn ysgolion Gwynedd yn ffafriol o ran yr Awdurdod (h.y yn cadarnhau bod darpariaeth addas yn cael ei gyflwyno).
- Dangosyddion cynhwysedd ysgolion yn parhau i bwysleisio fod ysgolion Gwynedd yn hynod o gynhwysol - mae lefel gwaharddiadau, nifer disgyblion sydd mewn darpariaeth amgen, a niferoedd addysg gartref dewisol, a phresenoldeb, yn rhoi darlun cynhwysol iawn o gymharu â graddfeydd cenedlaethol.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Gan fod y Llywodraeth wedi rhyddhau'r Cod Ymarfer Drafft ar gyfer gweithredu'r Ddeddfwriaeth ADY o Fedi 2021, byddwn yn ffocysu ar:
  - Ansawdd Cynlluniau Datblygu Unigol, a sicrhau fod y plentyn yn ganolog i'r broses.
  - Cysondeb mewn darpariaeth Ysgol, a rôl y Cydlynydd ADY.
  - Cryfhau a symleiddio llwybrau darpariaeth 0-3 oed ac 16-25 oed.
- Bydd y Gwasanaethau hefyd yn parhau i flaenoriaethu:
  - Strategaeth Hyfforddiant Ysgolion a staff - uwch-sgilio mewn paratoad at y ddeddfwriaeth
  - Dulliau tracio cynnydd ac effeithiolrwydd ymyraethau o fewn y CDU ar lein.
  - Cryfhau'r ddarpariaeth cynnal ymddygiad yn y sector uwchradd.

**DIOGELU**

**Pwrpas**

Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd.

**Nodweddion da**

- Ysgolion Gwynedd wedi derbyn pecyn diogelu cyfredol a chynhwysfawr sydd yn cynnwys enghreifftiau o arfer dda a thempledi parod a pholisïau.
- Wedi sicrhau presenoldeb mewn pob cyfarfod Rhan 4, lle'r oedd honiadau yn erbyn staff o fewn ysgolion Gwynedd.
- Hyfforddiant Lefel 2 wedi ei ddarparu bob mis drwy gydol y flwyddyn. Hyfforddiant Lefel 1 wedi ei ddarparu i holl staff ysgolion gan staff sydd wedi eu penodi fel swyddogion dynodedig amddiffyn plant o fewn ysgolion.
- Hyfforddiant mewn ymateb yn gadarnhaol i ymddygiad amhriodol gor-rywiol wedi ei ddarparu i ysgolion cynradd ac uwchradd yn ystod mis Tachwedd 2018.
- Cyd-weithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol i wella ymarfer yr Adran yng nghyswllt cynadleddau achos.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Casglu adroddiad blynyddol diogelu mewn ffordd fwy hwylus gan sicrhau ymateb pob ysgol yng Ngwynedd.
- Adolygu ein pecyn hyfforddiant mewn ymateb i ganllawiau newydd diogelu plant mewn addysg.
- Sefydlu trefn o ymweliadau gwirio ansawdd blynyddol o drefniadau diogelu pob ysgol yng Ngwynedd.

**BLYNYDDOEDD CYNNAR**

Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn cynllunio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r gofynion statudol o sicrhau lle Meithrin i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed. O Fedi 2019 mae'r ddarpariaeth addysg feithrin yn cael ei gynnig mewn 61 lleoliad (un ohonynt ar gau am gyfnod) ar draws y sir. Bellach, mae'r holl leoliadau yn aelodau o'r Mudiad Meithrin ac yn cael eu monitro'n rheolaidd.

**Nodweddion da:**

- Athrawon Ymgynghorol Cyfnod Sylfaen wedi cyflwyno hyfforddiant i'r holl leoliadau ar
  - Fagiau cyswllt cartref – llythrennedd corfforol
  - Egwyddorion y Cyfnod sylfaen, cynllunio, asesu, Y Proffil a hunan werthuso (Arweinyddion newydd)
  - Egwyddorion y cyfnod sylfaen, cynllunio, asesu, Y Proffil a hunan werthuso (Cymhorthydd ïon – i rai oedd yn dymuno)
  - Uwch Athrawon wedi mynychu hyfforddiant Ffordd Gwynedd
- Cydlynydd ADY Blynyddoedd Cynnar wedi cyflwyno hyfforddiant i'r holl leoliadau ar
- ADYaCH (y cod arfaethedig)
- Mae pob un lleoliad sydd wedi derbyn arolygiad ar y cyd (AGC/Estyn) ers Ionawr 2019 wedi derbyn barn o dda ar gyfer pob thema gydag ambell adroddiad yn cyfeirio at agweddau o ragoriaeth o fewn cynnwys yr adroddiad.
- Lleoliadau peilot yn Bangor wedi dechrau creu Proffiliau Un Tudalen ar gyfer pob plentyn
- Lleoliadau eraill ar draws Gwynedd yn dechrau creu Proffiliau Un Tudalen
- Athrawon Ymgynghorol wedi bod yn rhan o weithdy yn cyflwyno adnoddau effeithiol i gefnogi anghenion plant ifanc i pob un lleoliad.
- Athrawon ymgynghorol wedi mynychu diwrnod ar gyflwyniad i'r y Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes.
- Maesywaen, Cylch Meithrin Y Bala a chylch Llanllechid yn cael lleoliad newydd.
- Parhau i rannu arferion da rhwng athrawon Dechrau'n Deg a'r athrawon Cyfnod Sylfaen
- Uwch Athrawes Cyfnod Sylfaen wedi arolygu mewn un lleoliad arall ac yn arolygu mewn dau arall cyn diwedd y flwyddyn addysgol.
- Y tîm wedi rhannu dyletswyddau arbenigeddau a bydd hyn yn dechrau gwreiddio yn ystod y cyfnod nesaf.
- Mae 10 lleoliad wedi ymrwymo i weithio ar gynllun Croesi'r Bont gan y Mudiad Meithrin.
- Mwyafrif o leoliadau bellach yn defnyddio'r taflenni cynllunio ac asesu diwygiedig.

**Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:**

- Datblygu arbenigeddau tîm ymhellach.
- Dechrau ymbaratoi lleoliadau ar gyfer dyfodiad y Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes drwy gyflwyno ieithwedd y pedwar diben
- Cyflwyno'r 'enabling steps' yn y Gwanwyn pan fydd y ddogfen wedi ei chyhoeddi.
- Parhau i ddiweddaru lleoliadau a'r y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**Y TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG**

Mae gwaith moderneiddio addysg y Sir wedi parhau i gyfrannu'n llwyddiannus at y gyfundrefn addysg ac wedi denu dros £50m ers 2012. Mae'r Tîm Moderneiddio Addysg yn gyfrifol am sicrhau fod y gwaith cynllunio ar gyfer darparu addysg yn alinio gydag anghenion addysg y Sir ar gyfer y dyfodol. Mae'r Rhaglen yn un uchelgeisiol iawn sydd yn anelu i drawsnewid y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad i ysgolion o safon uchel gydag amgylchedd ddysgu sy'n cefnogi addysg ragorol. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i ddatblygu cyfundrefn addysg fydd yn cyfoethogi profiadau dysgu. Bwriad yr Adran Addysg yw cynllunio'n strategol fel bod y math iawn a'r nifer o ysgolion wedi'u lleoli yn y mannau cywir, yn ogystal ag uwchraddio safon adeiladau ysgol i greu ystâd sydd yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Bydd y Rhaglen yn parhau gydag ymroddiad llawn i wireddu'r weledigaeth bresennol i *"gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn."*

Prif nodau'r Rhaglen ydy sicrhau fod y rhaglen waith bresennol yn parhau i gyrraedd y meini prawf a osodwyd i:

- gyfrannu at wireddu amcanion yr egwyddorion addysg addas i bwrpas i sicrhau cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw, mwy o amser digyswllt i benaethiaid cynradd a dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd
- weithredu proses o ymgynghori gyda rhieni, staff, llywodraethwyr a rhan-ddeiliaid yn unol ag anghenion y broses statudol, gyda chyfathrebu clir;
- weithredu trefn effeithiol ar gyfer cyfathrebu gydag adrannau perthnasol y Cyngor, monitro a gwerthuso gweithgareddau;
- ddarparu nodau'r Rhaglen i sicrhau amodau arweinyddiaeth sy'n rhoi amser digonol i benaethiaid arwain, amgylchedd dysgu'r plentyn a chyflwr adeiladau gyda'r amodau gorau posibl, pellter teithio rhesymol i blant a rheolaeth fwy effeithiol o'r adnoddau addysgol yn cynnwys lleihau cost y pen er mwyn sicrhau gwerth gorau am arian;
- sicrhau cynnydd yn y broses o gwblhau'r gwaith adeiladu a sefydlu'r ysgolion sydd yn rhan o'r band cyllidol cyntaf,
- gwblhau gwaith cefndirol a diweddaru data craidd y maes i fedru darparu gwybodaeth angenrheidiol i uwch swyddogion er mwyn medru ymateb yn rhagweithiol i sefyllfaoedd fel maent yn codi.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Cwblhau amcanion prosiect Bangor, sydd yn cynnwys buddsoddiad gwerth £12.7 miliwn. Bydd adeilad newydd Ysgol y Garnedd yn agor ym Medi 2020 a fydd yn cynyddu capasiti'r ysgol i 420 a chynnig lle i ddisgyblion ysgolion Coedmawr a Glanadda yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni. Bydd gwaith i gynyddu capasiti Ysgol y Faenol i 315 ac i wella addasrwydd a chyflwr yr adeilad, gan hefyd fanteisio ar y cyfle i wella adnoddau cymunedol yn dechrau yn ystod y flwyddyn a rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn Medi 2021.
- Yn dilyn y penderfyniad i fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas, cefnogi gwaith yr Adran Addysg i wireddu'r weledigaeth i ddatblygu'r gyfundrefn er mwyn sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.
- Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, cynnal trafodaethau lleol gyda rhan-ddeiliaid darpariaethau addysg ôl-16 i sicrhau tegwch a chefnogaeth gref i bob person ifanc yn y sir i lwyddo a gwireddu eu potensial.
- Yn dilyn penderfyniad y Cabinet yn Ebrill 2019 i agor trafodaethau ar ddyfodol addysg yn ardal Cricieth, mae cyfres o gyfarfodydd wedi eu cynnal yn lleol gyda'r bwriad o adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth. Rhagwelir y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ger bron y

Cabinet i adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r gwaith i geisio adnabod yr opsiwn orau ar gyfer unrhyw ddatblygiad.

- Parhau i weithredu un o brosiectau Band B i wella cyflwr ac addasrwydd adeiladau 30 o ysgolion y Sir, gyda'r wedd gyntaf o'r prosiect yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a chyflwyno ceisiadau pellach yn flynyddol.
- Cyflwyno achosion busnes llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i ddenu'r arian cyfatebol ar gyfer y prosiectau sydd wedi eu cynnwys ym Mand B.
- Cydweithio gydag adrannau perthnasol i wireddu cynlluniau ychwanegol yn ymwneud ag elfennau blynyddoedd cynnar a chymunedol.
- Ymgymryd â phrosesau i fonitro'r buddion yn dilyn gwireddu'r prosiectau i asesu os ydynt wedi eu cwblhau yn llwyddiannus. Bydd gofyn sicrhau bod yr holl weithdrefnau angenrheidiol yn eu lle i fonitro'r buddion ac yn cael eu nodi'n barhaus.

**CONSORTIWM ADDYSG ÔL-16 GWYNEDD AC YNYS MÔN**

Mae Cyngor Gwynedd yn bartner strategol mewn fframwaith Consortiwm sydd â throsolwg cyflawn o faes addysg ôl-16 ar draws siroedd Gwynedd ac Ynys Môn. Ynghyd â Gwynedd, sy'n bartner arweiniol, mae 3 phartner strategol cyflawn arall sef Cyngor Ynys Môn, Grŵp Llandrillo Menai ac ysgolion uwchradd yr ardal sydd â chweched dosbarth. Mae'r bartneriaeth hon yn caniatáu i benderfyniadau strategol lefel uchel gael eu gwneud ar bob agwedd sy'n effeithio ar addysg ôl-16.

Mae gwaith y Consortiwm yn cwmpasu:

- Hwyluso rhwydwaith o ddarpariaeth a chyrsiau ôl-16 o safon mewn lleoliadau dysgu ar draws ardal y Consortiwm
- Hwyluso trafnidiaeth ar gyfer y cyrsiau
- Rheoli a chydlynu rhwydwaith 14-19 ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn
- Arwain ar gynllun Seren i ymestyn profiadau i ddysgwyr mwyaf abl a thalentog yn yr ôl-16 a hefyd yn CA3 ar ran y ddau Awdurdod
- Hwyluso grŵp proffesiynol o benaethiaid chweched dosbarth
- Hyrwyddo a chyfrannu'n strategol at waith STEM Gogledd
- Cydweithio gyda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru er mwyn adnabod llwybrau gyrfaol yn lleol ac ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal â sicrhau cysondeb, llwybrau clir ac ansawdd ragorol i'r dysgwyr gan osgoi unrhyw ddyblygu o ran darpariaeth a systemau, mae'r fframwaith hefyd yn caniatáu rhannu'r gost o gyflogi staff i arwain ar, ac i weinyddu'r holl elfennau perthnasol.

Caiff gwaith y Consortiwm ei fonitro gan Fwrdd Arweiniol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Brif Swyddogion y Sefydliadau Partner a chaiff ei gadeirio gan Ddeilydd Portffolio Addysg Gwynedd.

**CYNLLUN TRAC**

**Pwrpas**
Mae TRAC yn gynllun ar draws chwe sir Gogledd Cymru. Mae'r cynllun yn anelu i atal plant a phobl ifanc bregus rhag datgysylltu o addysg a thrwy hynny leihau'r tebygolrwydd eu bod yn segur ac yn ddi-waith yn y dyfodol. Caiff ei ariannu gan Ewrop gyda chyfanswm gwerth y cynllun ar draws y rhanbarth yn £39.6m. Mae'r cynllun ar waith ers Medi 2015 a bydd yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2022.

Mae'r cynllun yn cael ei gydlynu gan Gyngor Sir Dinbych ac yma yng Ngwynedd mae'n cael ei arwain gan Wasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chymhwysiad yr Adran Addysg. Cyfanswm gwerth y cynllun yng Ngwynedd yw £4.6M (gyda £3.3M yn dod o Ewrop â'r Cyngor yn darparu amser swyddogion cyfwerth a £1.3M i gyd-ariannu'r cynllun) ac anelwn i gefnogi o leiaf 1,340 o blant a phobl ifanc cyn i'r cynllun ddod i ben.

**Nodweddion da**
- Cyflogi 15 aelod o staff (drwy arian grant) i gefnogi disgyblion bregus drwy ddarparu ystod o ymyraethau amrywiol sydd yn ategu *ond nid yn dyblygu*'r ddarpariaeth addysg prif ffrwd, gan ganolbwyntio ar godi dyheadau'r plant a phobl ifanc sydd wedi eu cyfeirio at y cynllun a'u cefnogi i ail-gysylltu gyda'u haddysg.
- Bod yn greadigol yn y ddarpariaeth gan feddwl 'tu allan i'r bocs' ynglŷn â sut y gellir goresgyn rhwystrau pob disgybl i ymgysylltu â'u haddysg.
- Llunio darpariaeth sydd yn unigryw i'r unigolyn a gyda'r disgybl yn ganolog.
- Y gallu i ddatblygu ac adeiladu perthnasau effeithiol gyda'r disgyblion.
- Bod yn gyson a thryloyw ac yn amyneddgar; gan amlaf mae gan yr unigolion ystod o heriau cymhleth yn eu bywydau a all amharu ar ein gallu i lwyddo.
- Cefnogi'r ddarpariaeth mae'r disgyblion yn ei dderbyn gan wahanol asiantaethau (megis yr Adran Plant, Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ayyb ).
- Cefnogaeth ddwys dros gyfnod penodol i gefnogi disgyblion bregus ym Mlwyddyn 6 i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r Uwchradd.( Ar waith ers Hydref 2019).
- Cydweithio hefo eraill i adnabod y gefnogaeth sydd ei hangen, gan TRAC ( ac eraill) i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ragolygon y disgybl i'r dyfodol.

**Canlyniadau**
- Hyd at ddiwedd Ionawr 2020 mae dros 757 o ddisgyblion wedi derbyn cefnogaeth gan TRAC Gwynedd. Gydag ystod o ganlyniadau wedi eu cyflawni o symud ymlaen i waith neu hyfforddiant, gwella presenoldeb ac ymddygiad, a chefnogaeth i bobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl dwys.
- Yn y flwyddyn academaidd 2018/19:

| | |
|---|---|
| - Disgyblion wedi eu cefnogi (Blynyddoedd 7 i 11): | 222 |
| - Disgyblion yn gadael y cynllun yn llai tebygol o fod yn segur (nid mewn addysg, gwaith neu gyflogaeth): | 98 |
| - Disgyblion Blwyddyn 11 wedi mynd ymlaen i addysg bellach: | 64 |
| - Disgyblion yn trosglwyddo i addysg bellach yn parhau i fod angen cefnogaeth | 8 |

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**
- Parhau i ddarparu a chefnogi'r disgyblion bregus sydd wedi eu hadnabod i'r cynllun
- Datblygu canolfan Agored Cymru er mwyn creu cymwysterau a gwobrwyo cyrhaeddiad
- Bod yn rhagweithiol o ran hyrwyddo'r gwaith sydd yn cael eu gyflawni
- Blaengynllunio strategaeth ymadael y cynllun drwy greu model cynaliadwy i drosglwyddo'r ddarpariaeth i wasanaethau eraill o fewn yr Adran Addysg.

- Mapio etifeddiaeth TRAC a sut gall yr Adran barhau i ddarparu’r model drwy brif ffrydio i wasanaethau sefydlog
- Adnabod methodoleg i werthuso effaith y cynllun yn lleol fel sylfaen i lunio cynllun busnes am olynydd i’r cynllun os bydd modd.

**ARWEINYDDIAETH**

**Pwrpas**

Nod y cynllun arweinyddiaeth yw galluogi fod gan holl arweinwyr Gwynedd y modd i sicrhau fod pob plentyn o dan eu gofal yn medru cyflawni ei lawn botensial. Mae'r Awdurdod wedi adnabod yr angen *"i weithio ar y cyd i greu diwylliant sy'n galluogi arweinwyr i ffynnu; ac yn medru ysbrydoli a dylanwadu ar plant ar bob lefel".*

**Nodweddion da**

- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau cyfundrefn sydd wedi ei chynllunio a'i datblygu i sicrhau arweinwyr priodol ar bob lefel
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau cysondeb ar gyfer profiad a chyfleoedd gorau i ddisgyblion Gwynedd
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau dulliau effeithiol sy'n datblygu arweinwyr presennol
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau fod amodau penodol mewn lle i alluogi arweinwyr i ffynnu

**Rhaglen Arweinyddiaeth Ganol**

Mae'r rhaglen ddatblygu un flwyddyn hon yn gyfle dysgu proffesiynol i arweinwyr canol ar hyd a lled Cymru. Mae'n rhaglen genedlaethol sy'n cael ei chyflwyno gan gonsortia rhanbarthol ac yn cael ei chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, gyda chyfle am achrediad mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor.
Mae'r rhaglen yn hyrwyddo arweinyddiaeth effeithiol iawn trwy hunan arfarnu a myfyrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach.
Trwy'r rhaglen hon ac yn rhan o'r continwwm dysgu proffesiynol, bydd cyfranogwyr yn:

- datblygu dealltwriaeth o'r rôl
- datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o'r agenda diwygio cenedlaethol
- datblygu eu harfer yn unol â'r safonau arweinyddiaeth ffurfiol
- paratoi ar gyfer ymgysylltiad effeithiol gydag elfennau pwrpasol o wybodaeth arbenigol a sgiliau; MDPhau, ADY, Cymraeg, ysgolion ffydd, ysgolion bach ac ati.

**Rhaglen CPCP (Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth)**

Mae cwblhau'r rhaglen hon yn ddisgwyliad ar gyfer pob ymgeisydd CPCP y dyfodol.
Darperir y rhaglen genedlaethol hon gan y consortia rhanbarthol a'u partneriaid, sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Uwch. Mae'r rhaglen hon wedi'i chymeradwyo gan Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, gyda chyfle ar gyfer achrediad, mewn partneriaeth â PCYDDS a Phrifysgol Bangor. Mae cwblhau'r rhaglen hon yn ddisgwyliad ar gyfer pob ymgeisydd CPCP y dyfodol.

Mae'r rhaglen yn hyrwyddo arweinyddiaeth hynod o effeithiol trwy hunanwerthuso a myfyrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach. Bydd yn sicrhau tegwch o ran mynediad ar gyfer ymarferwyr ledled Cymru, ynghyd â chynnydd yn nifer yr ymgeiswyr o safon uchel am swyddi penaethiaid mewn ysgolion.

Bydd y cyfranogwyr yn ymgymryd â gweithgareddau cyfoethogi sy'n adeiladu ar brofiad blaenorol, a hynny er mwyn meithrin:

- eu dealltwriaeth o rôl pennaeth effeithiol
- eu sgiliau a'u priodoleddau trwy hunan-adolygu yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth
- eu dealltwriaeth a'u gallu i gymhwyso amrywiaeth o sgiliau arweinyddiaeth mewn modd effeithiol
- eu sgiliau cydweithredu trwy gymryd rhan effeithiol mewn rhwydweithiau cyfoedion
- eu gwybodaeth a'u sgiliau ar gyfer datblygu eu hysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu a sicrhau llwyddiant yr agenda ddiwygio genedlaethol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cynllunio, mewn cydweithrediad gyda GwE, i roi trefniadau hyfforddiant perthnasol mewn lle i gefnogi datblygiad gyrfaoedd arweinwyr y sir ar gyfer y dyfodol, ac i hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion. Fel rhan o waith y prosiect hwn, bydd comisiwn yn cael ei gytuno i sicrhau bod y cynnig sydd yn cael ei ddarparu gan GwE wedi ei deilwra'n benodol ar gyfer anghenion Gwynedd. Bydd hyn yn galluogi fod gan arweinwyr yr holl gymorth i fod yn llwyddiannus ac i sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer y gyfundrefn addysg i'r dyfodol.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF**

- Sicrhau bod yna blethu amlwg rhwng cynllun datblygu arweinyddiaeth hwn a'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan y Cabinet, er mwyn sicrhau bod gennym drefniadau i ddatblygu ac adnabod arweinwyr ar gyfer ein cyfundrefn bresennol ac i'r dyfodol.
- Yn dilyn adnabod heriau sydd gan arweinwyr yn ymwneud â chynllunio'r ddarpariaeth addysg uwchradd yn Ardal Meirionnydd, fel y ffrwd gwaith cyntaf yn ymwneud a'r Prosiect Arweinyddiaeth, mae'r Adran Addysg yn mynd rhagddo i gydweithio gyda rhan-ddeiliaid i sicrhau cyfleoedd i gefnogi a chryfhau'r trefniadau presennol posibl.

## UNED DDATA ADDYSG

**Pwrpas**
Pwrpas Uned Ddata Addysg Gwynedd a Môn yw sicrhau cefnogaeth i'r Adran Addysg drwy ddarparu isadeiledd data addysg o ansawdd uchel

**Nodweddion da:**

- Datblygiadau pellach i'r system CDU ar-lein wedi ei gwblhau i sicrhau cysondeb efo'r Cod Ymarfer. Ymhellach, mae bob ysgol yng Ngwynedd a Môn (Cynradd ac Uwchradd) yn fyw ar y system ers mis Medi 2019. Arddangos y system CDU ar-lein i Awdurdodau eraill
- Darparu data ar gyfer prosiect corfforaethol 'Cefnogi Llesiant Pobl'
- Cefnogi'r Ganolfan Fusnes Ysgolion a'r Uned Contractau a Chyflogau Addysg i ymateb i ofynion CBGY (PLASC)
- Sicrhau ansawdd dychweliadau presenoldeb cynradd ac uwchradd ar gyfer Llywodraeth Cymru
- Ysgolion yn derbyn diweddariad o geisiadau mynediad yn llawer mwy cyson
- Darparu data i ymateb i ofynion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. (Gwynedd a Môn)
- Darparu a chyflwyno data mewn ymateb i Adroddiad Estyn parthed plant sy'n gofrestredig mewn ysgol ym Mlwyddyn 10 ond ddim yn gorffen eu haddysg ar unrhyw gyfnod ym mlwyddyn 11
- Dadansoddi a chyflwyno data lefel 'A' Ysgolion Gwynedd
- Cychwyn ar brosiect i wella ansawdd a chysoni data o fewn system ONE – gwaith wedi ei gwblhau hyd yma: PYD Ysgolion Cynradd Môn, 50% PYD Ysgolion Cynradd Gwynedd. Plant LAC Ysgolion Môn rŵan yn gyson gyda systemau gwybodaeth Gwasanaethau Plant, cais wedi ei yrru i Wasanaeth Plant Gwynedd ar yr un math o wybodaeth.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF**

- Parhau i ddatblygu, mewnosod a chefnogi'r system CDU
- Trawsnewid system a phrosesau mynediad ar lein yn ogystal â gwella'r elfen gofal cwsmer o'r broses
- Gwella defnydd o feddalwedd i ddarparu adroddiadau
- Asesiad o ffynonellau gwybodaeth y Gwasanaeth ADY & CH

**GWASANAETH CEFNOGI LLYWODRAETHIANT YSGOLION**

Pwrpas y gwasanaeth Cefnogi Llywodraethiant Ysgolion yw:

- Darparu cefnogaeth ac arweiniad i benaethiaid, llywodraethwyr a chlercod llywodraethwyr ysgolion Gwynedd
- Cynnal rhaglen hyfforddi i lywodraethwyr
- Paratoi deunyddiau hyfforddi/arferion da a gohebiaeth i lywodraethwyr a phenaethiaid
- Cefnogi Cyrff Cysgodol ysgolion newydd

**Nodweddion da:**

- Gallu cynnig cyrsiau mandadol yn gyson drwy'r flwyddyn a chyrsiau sy'n annog arferion da i lywodraethwyr e.e. cyrsiau delio gyda gormodedd ynghyd â datblygu cyrsiau mandadol ar-lein ar y cyd â siroedd y Gogledd;
- Cynnig cynhaliaeth a chefnogaeth i Gyrff Llywodraethol a'u hysgolion yn ôl y gofyn;
- Uwchraddio'r Bas Data Llywodraethwyr yn barhaus fel bod modd cadw cofnod o holl lywodraethwyr pob ysgol yn gyfredol ynghyd â'u manylion, swyddogaeth, DBS a chyrsiau. Gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod y bas-data yn cyd-fynd â gofynion y Ddeddf Diogelu Data newydd GDPR 2018.
- Parhau i wella ansawdd gwaith y llywodraethwyr ar gyfer herio penaethiaid fel eu bod yn deall ystyr data a deall gwir sefyllfa safonau mewn ysgol
- Datblygu rôl y llywodraethwyr i ymgymryd â rôl fwy strategol yn y cyfarfodydd ynghyd ag annog hunan arfarnu gwaith y llywodraethwyr a hybu'r defnydd o'r drefn hunan arfarnu cenedlaethol.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Ymgynghori â Llywodraethwyr er mwyn adolygu'r rhaglen hyfforddi;
- Cynorthwyo Cyrff Llywodraethol i gyflawni eu rôl statudol a chynghori a gweithredu fel llinell gymorth mewn materion llywodraethol i benaethiaid a llywodraethwyr gan gynnwys y broses ormodedd, cwynion ayb;
- Uwchraddio'r system Bas Data Llywodraethwyr a chydweithio gyda TG er mwyn hybu hunan wasanaeth ar gyfer y Bas Data fel bod clercod llywodraethol yr Awdurdod yn gallu mewnbynnu gwybodaeth yn uniongyrchol.
- Cydweithio â'r adran TGCh i sefydlu adran i Lywodraethwyr ar yr HWB (LlC)
- Parhau i gefnogi Corff Cysgodol Ysgol Godre'r Berwyn hyd nes ymgorfforir y Corff yn ystod Tymor yr Hydref a chyd-weithio gyda Thîm Moderneiddio Ysgolion Gwynedd lle bo'r angen;
- Rhesymoli rhestr Polisïau Ysgolion;
- Adolygu'r broses ormodedd a sicrhau gwell dealltwriaeth ymysg Penaethiaid a Llywodraethwyr.

**UNED CONTRACTAU A CHYFLOGAU**

**Pwrpas**
Mae'r Uned yn darparu amrywiaeth o waith cefnogol i holl ysgolion y sir. Mae hyn yn amrywio o roi cyngor ac arweiniad parthed telerau ac amodau gwaith staff ysgolion i benaethiaid, llywodraethwyr a swyddogion y sir, prosesu amserlenni ar gyfer tâl, creu cytundebau, gwirio cefndir troseddol pob aelod o staff, cynghori athrawon ynglŷn â'u pensiwn a phrosesu taliadau diswyddo.

**Nodweddion da:**
- Staff ein hysgolion yn parhau i dderbyn eu tâl yn gywir ac ar amser yn fisol
- Fel adran ein bod yn parhau i gadw at lefel gwasanaeth sydd yn deg ac yn gyson i bob ysgol drwy ddilyn yr amserlen waith drwy gydol y flwyddyn addysgol.
- Cael cytundebau holl staff ysgolion allan yn unol â gofynion statudol, sef o fewn wyth wythnos o gychwyn mewn swydd.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**
- Diweddaru a diwygio rhestr athrawon llanw ar system ONE ar gyfer Creu ap 'llogi' athrawon llanw i mewn i ysgolion.
- Symud i drefn electronig o storio ffeiliau personol staff.
- Parhau i annog penaethiaid i wneud yn siŵr fod pob staff dysgu a chymorthyddion cefnogaeth dysgu wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg ac wedi cwblhau'r broses DBS cyn eu bod yn cychwyn mewn ysgol.
- Cyd-weithio gyda'r Uned Adnoddau Dynol ar greu datganiad electroneg ar gyfer Athrawon.

**GWASANAETH ARLWYO A GLANHAU**

**Pwrpas**

Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion Ysgolion Gwynedd a chadw'r sefydliadau addysgol yn lân a diogel er mwyn cynorthwyo'r disgyblion i gyrraedd eu potensial.

**Nodweddion da:**

- Bwydlen cinio ysgolion cynradd ac arbennig yn cydymffurfio gyda 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth)(Cymru) 2013'
- Bwydlen cinio ysgolion uwchradd yn gweithio tuag at gydymffurfio gyda 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013'
- Cynnal sesiynau blasu/maeth o fewn ysgolion i annog mwy o ddisgyblion i fwyta cinio ysgol
- Cynnig i rieni sydd yn darparu bocs bwyd i'w plant os ydynt eisiau cinio ar rai dyddiau o'r wythnos
- Cynnig cinio themâu rheolaidd i'r ysgolion
- System talu ar-lein i rieni sydd yn hwyluso ffordd i dalu am wahanol wasanaethau i ysgolion megis cinio, tripiau, gwersi offerynnol ayb
- Cynnig i bobl ysgol ble mae cynllun gofal 30 awr yn weithredol gan gylch meithrin i gynnig cinio ysgol fel rhan o'r ddarpariaeth
- Cadw ysgolion yn lân ac yn ddiogel
- Arwain ar gynllun SHEP (Summer Holidays Enhancement Programme)
- Cefnogi Ysgolion Uwchradd i fynd yn ddi-arian drwy gyflwyno system di-arian cinio
- Newid trefn o ddefnyddio poteli plastig 1/3 llefrith mewn ysgolion cynradd i drefn o arllwys llefrith i gwpanau sydd wedi gostwng defnydd plastig 67%
- Cydweithio efo ceginau ysgolion uwchradd i ostwng defnydd plastig

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF**

- Darparu bwydlen cinio gwahanol i ysgolion cynradd ac arbennig ar gyfer tymor yr haf a fydd yn cydymffurfio gyda 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013
- Cydweithio efo ysgolion i fynd yn gwbl ddi-arian
- Parhau i annog rhieni i ddewis cinio ysgol ar gyfer eu plant
- Cynorthwyo ysgolion i ostwng lefelau dyledion cinio rhieni
- Gweithredu ar ddarparu pecyn bwyd ar dripiau i ysgolion
- Adolygu'r galw am ddarpariaeth clybiau brecwast mewn ysgolion cynradd

**CLUDIANT**

Trefnu cludiant i ddisgyblion Gwynedd i sefydliadau addysgol sydd yn rhoi mynediad iddynt at addysg i gyrraedd ei potensial.

**Nodweddion da:**

- Cludiant wedi ei drefnu i holl ddisgyblion sydd yn deilwng
- Cludiant wedi ei drefnu i fyfyrwyr ôl-16
- Y gallu i brynu tocyn teithio ôl-16 oed drwy ddebyd uniongyrchol
- Fforwm defnyddwyr ôl-16 oed yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn
- Polisi Cludiant Gwynedd yn cydymffurfio gyda 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr Cymru 2008'

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF**

- Edrych ar y drefn ail-dendro cludiant
- Ymestyn tocyn teithio ôl-16 oed i gynnwys myfyrwyr dros 19 oed
- Derbyn eglurder gan y gwasanaeth ADY a Chynhwysiad o bwy sydd yn deilwng i gludiant o dan y polisi cludiant cyfredol

| | |
|---|---|
| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| Teitl yr Adroddiad | Cludiant Addysg |
| Dyddiad y Cyfarfod | 19 Mawrth 2020 |
| Awdur yr Adroddiad | Bethan Griffith, Rheolwr Gwasanaethau Ategol Addysg |
| Swyddog Perthnasol | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| Aelod Cabinet Perthnasol | Cynghorydd Cemlyn Rees Williams |

**1. Cefndir**

1.1 Mae gofyn statudol ar yr Awdurdod o dan y ddeddf 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008' www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2/contents/enacted/welsh i ddarparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sydd yn byw yn y Sir ac sydd wedi cofrestru mewn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Dysgwyr sy'n derbyn addysg cynradd – ar gyfer dysgwyr sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (nid yw'n cynnwys disgyblion dosbarth meithrin).
- Dysgwyr sy'n derbyn addysg uwchradd – ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed sy'n byw 3 milltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf.
- Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau o dan 16 oed yn unol ag argymhellion y panel cymedroli.

Gofynnir i'r Awdurdod gynnal asesiad anghenion teithio dysgwyr a hwn yw sail polisi cludiant y Cyngor.

1.2 Yn ogystal â'r gofyn statudol mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn i ddarparu cludiant ychwanegol ac mae darpariaeth Gwynedd wedi ei ymestyn i gynnwys y canlynol:

- Cludiant di-dâl i ddysgwr blwyddyn derbyn o dan yr un amgylchiadau â dysgwyr oed cynradd
- Cludiant ôl-16 am ffi sydd yn £120 tymor 1, £120 tymor 2 a £60 tymor 3.
- Cynllun seddi gweigion am ffi (yn cynnwys dysgwyr meithrin) fesul tymor sydd yn £31 o fewn dalgylch a £62 all-ddalgylch
- Cludiant di-dâl i'r Canolfannau Iaith
- Cludiant di-dâl i wasanaethau anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad.

**2. Sut darperir y cludiant?**

2.1 Daw cais am gludiant arferol gan rieni sydd yn dymuno manteisio ar y cludiant di-dâl drwy gwblhau ffurflen i'r uned gludiant integredig. Ar gyfer dysgwyr cynradd, bydd rhestr yn cael ei ddarparu i'r cwmnïau bws o bob dysgwr sydd yn gymwys i gludiant di-dâl. Ar gyfer dysgwyr uwchradd, darperir tocyn bws iddynt ddangos i'r cwmnïau bws pan yn teithio.

2.2 Mewn amgylchiadau ble mae anghenion teithio dysgwyr yn gwyro o'r drefn arferol bydd angen asesu anghenion penodol y teithiwr. Yn y gorffennol, roedd trefn i ddarparu tacsi bron yn awtomatig pan dderbynnir cais ac efallai nad oedd hyn y ffordd fwyaf cost effeithiol i'w ddarparu. Erbyn hyn, drwy ddefnyddio egwyddorion Ffordd Gwynedd, mae'r broses wedi ei mapio a phenderfynir ar y cludiant sydd fwyaf addas i gwrdd ac anghenion y dysgwr gan Banel Cymedroli. Yma, bydd anghenion dysgwyr yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a newidiadau i'r ddarpariaeth cludiant yn cael ei addasu yn unol â'r galw.

2.3 Ymddengys fod cynnydd mewn galw am gludiant arbennig ar sail anghenion i golegau yn ystod 2018 ac eto yn 2019. Cafodd y ceisiadau eu cymeradwyo gan y Panel Cymedroli sydd yn dangos fod cynnydd yn y galw ac nad yw'r gyllideb yn ddigonol ar gyfer y gwasanaeth hwn.

**3. Costau**

3.1 Bydd y ddarpariaeth cludiant yn cael ei ail-dendro bob 3 blynedd er mwyn ceisio'r gwerth gorau am arian. Gwneir hyn fesul ardal yn hytrach na'r holl ddarpariaeth gyda'i gilydd. Mae rhaglen ail-dendro gan yr Uned Gludiant Integredig.

3.2 Os bydd arbediad o ganlyniad i ail-dendro, trosglwyddir yr arbediad i'r canol. Yn yr un modd, os oes costau uwch o ganlyniad i'r ail-dendro darperir unrhyw gostau ychwanegol gan y canol. Gweler atodiad 1 am grynodeb o wariant cludiant addysg.

3.3 Noder mai'r pennawd lle y gwelir y gorwariant mwyaf o gymharu â'r gyllideb sydd ar gael ar ei gyfer yw:

- Cludiant colegau – cyllideb 2019/20 yn £206,110. Gwariant fel ar 1 Chwefror 2020 yn £324,632.

Dros y blynyddoedd, mae'r adran Addysg wedi bod yn gwneud bidiau am adnoddau ychwanegol i gwrdd â'r galw, fodd bynnag, erbyn hyn mae disgwyl i'r Adran reoli'r galw a'r gyllideb ei hunain.

3.4 Er mwyn ceisio dod i'r afael ar y gorwariant, mae'r camau canlynol wedi eu cymryd:

- Cludiant ôl-16
    - Cynhelir fforwm defnyddwyr gyda'r colegau i ddod i adnabod anghenion ein cwsmeriaid

- Newid patrwm talu o £100 fesul tymor i £120 tymor 1, £120 tymor 2 a £60 tymor 3. Noder fod y galw ar gyfnod tymor 3 yn is na’r ddau dymor arall.
- Hwyluso taliadau i ddefnyddwyr drwy alluogi taliadau debyd uniongyrchol misol.
- Datblygu e-docyn i ddefnyddwyr eu derbyn a’u defnyddio ar eu ffonau symudol.

- Trosglwyddo cyllidebau cludiant i reolwyr gwasanaeth yn hytrach na bod yn ganolog i’r Adran Addysg. Bydd hyn yn galluogi gwell rheolaeth dros y gyllideb gan sicrhau fod cludiant yn derbyn ystyriaeth teilwng pan yn trefnu addysg.
- Cysoni data sydd ar gael yn ONE Transport er mwyn darparu adroddiad cyson i reolwyr perthnasol ar eu gwariant.

**4. Camau Nesaf**

- Parhau i adolygu teithiau penodol i weld os allent fod yn fwy cost effeithiol.
- Darparu adroddiadau rheolaidd i reolwyr ar eu gwariant.
- Adolygu pecynnau ADY fesul ardal
- Ymchwilio paham fod costau colegau wedi cynyddu.

**Atodiad 1 - Crynodeb o wariant Cludiant**

| | Chwefror 2020 | Tachwedd 2019 | Tachwedd 2018 |
|---|---|---|---|
| Cludiant - Pecyn 25 | £ 18,700.00 | £ 18,700.00 | £ 32,725.00 |
| Cludiant Colegau | £ 324,632.00 | £ 321,396.90 | £ 202,614.50 |
| Cludiant Managed Move | | | £ 32,631.50 |
| Cludiant Trafeiliwr | £ 3,740.00 | £ 3,740.00 | £ 3,740.00 |
| Cludiant-Unedau Awtistiaeth | £ 7,106.00 | £ 7,106.00 | £ 19,448.00 |
| Unedau ABCh | £ 83,884.46 | £ 83,884.46 | £ 188,383.80 |
| Unedau Anhwylderau Iaith | £ 83,720.60 | £ 96,058.60 | £ 38,035.80 |
| Unedau Iaith Cynradd | £ 47,110.00 | £ 97,350.00 | £ 170,834.40 |
| Unedau Iaith Dilynnol | | £ 14,025.00 | |
| Unedau Iaith Uwchradd | £ 29,753.50 | £ 41,166.00 | £ 43,020.00 |
| Unedau Ymddygiad | | £ 30,855.00 | £ 36,278.00 |
| Ysgol Cynradd | £ 434,021.39 | £ 403,014.81 | £ 404,215.46 |
| Ysgol Uwchradd | £ 326,419.72 | £ 321,034.12 | £ 300,005.97 |
| Ysgolion Arbennig - Allsirol | £ 24,310.00 | £ 24,310.00 | £ 32,725.00 |
| Ysgolion Arbennig - Hafod Lôn | £ 510,566.10 | £ 475,765.40 | £ 518,925.00 |
| Ysgolion Arbennig - Pendalar | £ 298,003.20 | £ 290,598.00 | £ 191,675.00 |
| Ysgolion Dilynol | £ 180,455.00 | £ 180,455.00 | £ 157,921.50 |
| **Cyfanswm Popeth** | **£ 2,372,421.97** | **£ 2,409,459.29** | **£ 2,373,178.93** |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| DYDDIAD | 19eg Mawrth 2020 |
| PWNC | Adroddiad Ymchwiliad Craffu i Effaith Datblygiadau Adeiladau Newydd ar Ansawdd Addysg |
| AWDUR | Cynghorydd Beth Lawton,<br>Cadeirydd yr ymchwiliad craffu |

1. Cyflwynir adroddiad terfynol drafft yr ymchwiliad craffu i Effaith Datblygiadau Adeiladau Newydd ar Ansawdd Addysg i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

2. Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor craffu
    - Ystyried cynnwys yr adroddiad
    - Holi Aelodau yr ymchwiliad am gynnwys yr adroddiad
    - Awgrymu addasiadau os oes angen, ac yna
    - mabwysiadu'r adroddiad i'w gyflwyno yn ffurfiol i'r Aelod Cabinet Addysg

3. Yn ogystal, gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor ystyried os oes angen unrhyw adroddiad pellach ar gyflawniad yr argymhellion yn y dyfodol.

4. Cyflwynir yr adroddiad trefynol drafft i Aelodau'r Pwyllgor ynghlwm.

# Adroddiad Ymchwiliad Craffu i Effaith Datblygiadau Adeiladau Newydd ar Ansawdd Addysg

DRAFT

**Aelodau'r Ymchwiliad:**
Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)
Cynghorydd Steve Collings
Cynghorydd Cai Larsen
Cynghorydd Paul Rowlinson

**Swyddogion:**
Sion Owen - Swyddog Cefnogi Busnes (Swyddog Arweiniol hyd Hydref 2019)
Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth

**Rhagair y Cadeirydd**

Mae cynllun Ysgolion y G21ain wedi arwain at adeiladau ysgolion newydd trawiadol mewn sawl man yng Ngwynedd. Wrth i fand A'r cynllun ddod i'w derfyn 'roedd yn amserol i edrych ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma ac edrych ar y gwersi i'w dysgu i'r dyfodol.

Mae'r argymhellion wedi deillio o waith aelodau'r ymchwiliad wrth ymweld â detholiad o adeiladau newydd, trafod gyda phenaethiaid, staff a disgyblion a chyfarfodydd gydag arbenigwyr.

'Rydym yn cydnabod y gwaith caled sydd yn mynd ymlaen yn yr ysgolion, a'r ymdrech ddiflino gan y staff er mwyn darparu'r gorau i'r disgyblion. Hoffwn ddiolch am y croeso parod a dderbyniwyd gan yr ysgolion wrth i ni ymweld â hwy.

Hoffwn hefyd ddiolch i'm cyd aelodau am eu cyfraniadau, Pennaeth a swyddogion yr Adran Addysg, yr Adran Tai ac Eiddo a GwE am eu cymorth parod i waith yr ymchwiliad.

Diolch yn olaf i Sion Owen am arwain yr ymchwiliad ac i'r tîm swyddogion gwasanaethau democratiaeth am eu cefnogaeth i ddod â'r adroddiad hwn at ei gilydd.

Cynghorydd Beth Lawton
Mawrth 2020

DRAFT

Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Pwrpas yr Ymchwiliad craffu | 4 |
| 3. | Methodoleg | 5 |
| 4. | Cyd-destun polisi | 6 |
| 5. | Ymarfer da | 8 |
| 6. | Ansawdd Addysg | 8 |
| 7. | Astudiaeth Achos: Ysgol yr Hendre | 10 |
| 8. | Astudiaeth Achos: Ysgol Craig y Deryn | 13 |
| 9. | Astudiaeth Achos: Ysgol Bro Llifon | 15 |
| 10. | Astudiaeth Achos: Ysgol Glan Cegin | 17 |
| 11. | Ymweliad: Ysgol Treferthyr | 19 |
| 12. | Clo ac Argymhellion | 20 |

Atodiad 1 – Briff yr ymchwiliad 22
Atodiad 2 – Prif Weithgareddau 25
Atodiad 3 – Clever Classrooms 26


DRAFT

# 1. Cyflwyniad

1.1. Yn 2009 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Raglen Ysgolion y G21ain, gyda'r bwriad o gynnig buddsoddiadau cyfalaf tymor hir er mwyn gwella amgylchedd dysgu a chanlyniadau addysg. Ar yr un pryd, yn 2009 cyhoeddwyd Strategaeth Moderneiddio Addysg Gwynedd. Fel nifer o gynghorau eraill 'roedd Cyngor Gwynedd yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i fuddsoddi mewn addysg a moderneiddio'r ddarpariaeth o ran adeiladau a threfniadaeth.

1.2. Bu'r Cyngor yn llwyddiannus wrth ennill grantiau o fand A cynllun ysgolion y G21ain, a wnaeth arwain at fuddsoddiad sylweddol oddeutu £36 miliwn yn addysg Gwynedd, gyda £18 miliwn o arian grant a £18 miliwn o gyllidebau'r Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi denu cyfalaf ychwanegol ar gynffon Band A, i fwrw ymlaen gyda chynllun ar gyfer aildrefnu addysg ym Mangor. Mae hynny yn golygu bod y cyfanswm fydd wedi ei fuddsoddi ar gyfer addysg plant y sir wedi cynyddu i dros £50 miliwn.

1.3. Erbyn 2018, bu i aelodau Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi benderfynu ceisio ymchwilio i weld a oes effaith gadarnhaol ar ansawdd addysg a phrofiad disgyblion wedi deillio o'r datblygiadau a'r gwariant ar adeiladau newydd. Cymeradwywyd briff ar gyfer yr ymchwiliad yng nghyfarfod y pwyllgor craffu ar 20/9/18 sydd i'w weld yn **Atodiad 1.**

# 2. Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu

2.1. Y prif gwestiwn i'w gyfarch gan yr ymchwiliad oedd 'Beth yw effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg disgyblion, ac a oes gwersi i'w dysgu i'r dyfodol'.

2.2. Yn ogystal â'r cwestiwn canolog hwn, 'roedd cyfres o gwestiynau eraill i'w hystyried fel sail tystiolaeth i ateb y prif gwestiwn:

- Beth yw nodweddion ansawdd addysg dda?
- Ydi canlyniadau addysgol yr ysgolion dan sylw yn well/gwaeth/sefydlog wedi agor yr adeiladau newydd?
- Sut mae profiad y disgyblion wedi newid o'r hen adeilad i'r adeilad newydd?
- Sut mae adeilad yn effeithio ar addysg?
- Beth oedd meini prawf llwyddiant y datblygiadau, a lwyddwyd i'w cyflawni?
- Beth oedd cyflwr cyffredinol yr adeiladau?
- Beth oedd yn newid o'r hen ysgol i'r ysgol newydd?
- O safbwynt y staff dysgu, y llywodraethwyr a GwE, sut y bu i'r adeilad wella ansawdd yr addysg?
- Ydi'r datblygiadau yn cynnig gwerth am arian?
- A oes gwersi i'w dysgu i'r dyfodol?

# 3. Methodoleg

3.1. Er mwyn ceisio ymateb i'r briff ac ateb y cwestiwn sylfaenol 'Beth yw effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg disgyblion, ac a oes gwersi i'w dysgu i'r dyfodol' penderfynwyd dilyn y fethodoleg a ganlyn:

- Gwaith ymchwil: deall y cyd-destun polisi, adnabod ymarfer da o unrhyw astudiaethau eraill, ymchwilio i'r diffiniad gorau o ansawdd addysg a sut i'w fesur
- Astudiaethau Achos: ymweliadau i'r safleoedd a gytunwyd er mwyn casglu data ansoddol (barn y Penaethiaid, disgyblion, llywodraethwyr) a data meintiol ar fesur cynnydd i weld oes effaith ar ganlyniadau addysg
- Argymhellion: Llunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth i'w cyflwyno i'r Aelod Cabinet

3.2. Gwaith ymchwil: Mae'n bwysig deall y cyd-destun polisi fel cefndir i'r gwaith yma, ac fe gyflwynir crynodeb byr o'r prif ystyriaethau yn rhan 4 o'r adroddiad. Wrth geisio adnabod ymarfer da yn y maes daeth yn glir yn fuan nad oes llawer o waith ymchwil wedi ei wneud i effaith adeiladau ysgolion ar ansawdd addysg. Tybir fod hyn oherwydd anhawster a chymhlethdod gallu *profi effaith* yr adeilad ar ansawdd addysg a chyrhaeddiad disgyblion. Bu i aelodau'r ymchwiliad edrych ar waith ymchwil 'Clever Classrooms' a gellir gweld crynodeb o'r gwaith yn rhan 5 ac yn **Atodiad 3**.

3.3. Yn ogystal, bu i aelodau'r ymchwiliad ystyried adroddiad thematig gan Estyn "Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol" – Ionawr 2007. Roedd yr adroddiad yn nodi, ymysg eu canfyddiadau, fod "*adeiladau gwell yn cyfrannu at un neu fwy o'r meysydd perfformiad a ddiffiniwyd gennym* (Estyn)..." ac "*Nid yw hen adeiladau ysgol sydd mewn cyflwr gwael yn gallu bodloni anghenion addysgu a dysgu newydd*." Ystyriwyd yr adroddiad, ond gan ei bod wedi ei chyhoeddi ers 2007 roedd ymdeimlad fod y wybodaeth wedi dyddio rhywfaint.

3.4. Yn ogystal, bu'n her ceisio dod at ddiffiniad safonol a chlir o ansawdd addysg a sut i'w fesur. Roedd hyn yn ffactor bwysig er mwyn gallu ateb cwestiwn craidd yr ymchwiliad. Cafwyd gwahanol ymatebion ac arweiniad, a gellir gweld y manylion yn rhan 6.

3.5. Astudiaethau Achos: Yn unol â'r briff, bu i aelodau'r ymchwiliad ymweld â rhai ysgolion. Nodir fod pob datblygiad adeiladau ysgol newydd yn unigryw. Cynhaliwyd astudiaethau achos gan gymharu themâu cyffredin oedd yn codi o ymweld â'r ysgolion. Casglwyd data ansoddol trwy gyfweld â phenaethiaid yr ysgolion, staff, disgyblion a llywodraethwyr. Cymharwyd eu profiadau o'r adeiladau newydd gyda'r hen adeiladau ble roedd hynny'n bosib. Mae cofnod llawn o'r astudiaethau achos wedi eu rhannu gyda'r gwasanaethau perthnasol, gyda'r prif negeseuon wedi eu hadrodd yn rhannau 7 - 10.

3.6. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 20/9/18 awgrymodd y Pennaeth Addysg y byddai o bosib yn fuddiol i'r ymchwiliad edrych ar adeiladau Penybryn, Tywyn gan eu bod yn rhan o'r cynllun aildrefnu a greodd ysgol Craig y Deryn. Penderfynodd aelodau'r ymchwiliad ymweld ag Ysgol Treferthyr yn hytrach na Phenybryn, Tywyn er mwyn gweld enghraifft o ysgol oedd angen adeilad newydd.

3.7. Bwriadwyd casglu data meintiol hefyd, ac er bod data am ysgolion unigol ar gael trwy Adran Addysg y Cyngor neu wefan StatsCymru, bu i Lywodraeth Cymru ddatgan yn haf 2019 na fyddai cyhoeddi manylion perfformiad ysgolion unigol yn cael ei ganiatáu. Roedd hynny yn golygu na fyddai'n bosib defnyddio data cynnydd disgyblion er mwyn mesur effaith adeilad. Tra bod data megis cyllideb y pen a nifer disgyblion ar gyfer yr ysgolion dan sylw yn ddefnyddiol i roi darlun o lwyddiant yr adeiladau newydd, nid yw'n bosib defnyddio'r data cyrhaeddiad i brofi effaith yr adeilad ar ansawdd yr addysg. Serch hynny, nodir canlyniad arolygon Estyn fesul astudiaeth achos.

3.8. Argymhellion: Rydym o'r farn fod dilyn y fethodoleg uchod wedi arwain at gasglu gwybodaeth bwysig (gan gydnabod fod rhan helaeth yn ddata ansoddol) sydd yn ein harwain i gasgliad fod gwersi i'w dysgu i'r dyfodol. Cyflwynir argymhellion y gwaith yn seiliedig ar y fethodoleg uchod yn rhan 12.

## 4. Cyd-destun Polisi

4.1. Ysgolion G21ain. Cyflwynwyd rhaglen Ysgolion y G21ain gan Lywodraeth Cymru yn 2009, gan gadarnhau yn ei achos busnes fod newid o drefn ble byddai grantiau yn cael eu dyrannu i Gynghorau yn flynyddol er mwyn eu gwario ar adeiladau ysgolion a symud i drefn hirdymor fyddai'n hwyluso meddylfryd mwy strategol.

"Prif amcanion y rhaglen yw:

- Lleihau'r nifer o adeiladau ysgolion mewn cyflwr gwael
- Lleihau'r capasiti dros ben
- Lleihau'r costau rhedeg er mwyn gwneud yn fawr o'r adnoddau sydd ar gael i dargedu gwelliannau i ddeilliannau dysgwyr
- Ymdrin â galw penodol am leoedd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac addysg ffydd."

4.2. Dechreuodd y cynllun yn 2014, gyda'r Llywodraeth yn ariannu 50% o'r datblygiad a'r angen i awdurdodau lleol ganfod 50% o arian cyfatebol. Yn y cyfamser, bu i Lywodraeth Cymru ddyrannu arian er mwyn cefnogi cynlluniau oedd eisoes ar y gweill.

4.3. Côd Trefniadaeth Ysgolion. Wrth ddyrannu arian grant, mae'r Llywodraeth yn gosod amodau caeth ar yr hyn y caiff y grant ei gyllido. Eu nod yw creu ysgolion o ansawdd cyson ar draws y wlad ac er mwyn gwneud hynny mae'r amodau grant yn gosod disgwyliadau a chyfyngiadau penodol gan gynnwys maint yr ysgolion, swm y gyllideb sydd ar gael fesul $m^2$, gofynion amserlen ar gyfer adeiladu, a safonau perfformiad amgylcheddol (BREEAM). Ystyrir fod y canllawiau a chyfyngiadau yn eithaf caeth. Cafwyd esboniad llawn o'r gofynion a'r cyfyngiadau gan y Pennaeth Tai ac Eiddo (Uwch

Reolwr Eiddo ar yr adeg). Rhaid nodi hefyd fod gofynion Llywodraeth Cymru wedi newid wrth i amser fynd rhagddo ee eu gofynion ynghylch sicrhau darpariaeth gymunedol o fewn gofod yr ysgolion. Roedd gofynion penodol ar gyfer sicrhau darpariaeth gymunedol (ac arian penodol i gefnogi hynny) ar gyfer y cynlluniau cynharaf, megis ar gyfer Ysgolion Hendre a Chraig y Deryn, ond erbyn hyn mae'r gofyn penodol hwnnw a'r arian i'w gefnogi bellach wedi diflannu, megis ar gyfer Ysgolion Bro Llifon a Glancegin.

4.4. Yn 2009 mabwysiadwyd Strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' gan nodi'r prif amcanion canlynol:

- "Cynnig y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl i blant y Sir drwy sicrhau **dosbarthiadau o faint addas** ac **arweinyddiaeth o ansawdd uchel** yn ein hysgolion;
- Anelu i **hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg** – fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol – wrth roi cynigion newydd yn eu lle ar gyfer addysg gynradd y Sir;
- Ymateb i anghenion a chyfleoedd yn y gyfundrefn addysg gynradd bresennol drwy **fod yn rhagweithiol a chreadigol**, gan weithio ar y cyd gydag eraill tuag at **gynllun hir dymor** fydd yn gynaliadwy ac ymarferol;
- Gwneud y **defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael** – yn ddynol, technegol, ariannol – fel bod y plant yn cael y budd mwyaf o wariant y sir ar addysg;
- **Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon y Sir** drwy wella cyfleusterau ac adeiladau;
- Datblygu ein hysgolion i fod yn **sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol**."

4.5. Gwelir fod strategaeth y Cyngor yn ymateb a chymhathu gofynion strategaeth Ysgolion y G21ain a'r cod trefniadaeth ysgolion.

4.6. Yn y ddegawd ers mabwysiadu'r strategaeth mae newidiadau wedi bod ym myd polisi addysg. Y mwyaf o'r rhain yw cwricwlwm newydd a gyflwynwyd i addysgwyr ar gyfer sylwadau yn ystod 2019, a ddatblygwyd yn dilyn adolygiad Donaldson yn 2015. Er ei bod yn ddogfen sydd yn y camau ymgynghorol fel deddfwriaeth, mae ysgolion yn cael eu hannog i newid eu dulliau addysgu er mwyn cydymffurfio gyda newidiadau sylweddol sy'n cael eu cynnig yn y cwricwlwm newydd. Er nad yw hyn yn uniongyrchol berthnasol i waith yr ymchwiliad, mae'n deg nodi y dylid ystyried y gofynion newydd hyn gydag unrhyw ddatblygiadau i'r dyfodol.

## 5. Ymarfer Da

5.1. Wrth ystyried ymarfer da bu i aelodau'r ymchwiliad chwilio am astudiaethau oedd wedi eu cynnal i effaith adeiladau ysgol ar ansawdd addysg a deilliannau addysgol. O ystyried yr holl ddatblygiadau gydag adeiladau ysgolion, roedd yn syndod cyn lleied o astudiaethau a gwaith ymchwil safonol sydd wedi eu cynnal i'r maes. Er bod peth gwaith ymchwil wedi ei gynnal i effeithiau rhai agweddau penodol o adeiladau ar ansawdd addysg, un astudiaeth yn unig a welwyd oedd yn ceisio asesu effaith pob agwedd o'r adeiladau gyda'i gilydd, sef *Clever Classrooms*, Prifysgol Salford, 2015[1].

5.2. Er bod cyfyngiadau i'r gwaith ymchwil hwn (ee maint y sampl a'r ystod pynciau a aseswyd) mae negeseuon pwysig iawn wedi deillio o'r gwaith. Gellir gweld crynodeb llawn o'r adroddiad 'Clever Classrooms" yn **Atodiad 3**, ond mae'r prif argymhellion y dylid eu hystyried wrth fynd ati i ddylunio adeiladau ysgolion o'r newydd yn cynnwys yr angen i ystyried y ffactorau a ganlyn:

- Naturioldeb – golau, ansawdd aer, tymheredd a lefelau sŵn
- Unigolyddiaeth – hyblygrwydd yr adeilad, a pherchnogaeth gan y defnyddwyr
- Symbyliad - lefel briodol o gymhlethdod ynghyd â lefel briodol o liw

5.3 Roedd aelodau'r ymchwiliad o'r farn fod negeseuon pwysig iawn yn deillio o'r gwaith ymchwil hwn, ffactorau i'w hystyried ar gyfer unrhyw ddyluniad neu adeilad newydd. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Pennaeth Tai ac Eiddo, rydym yn falch o ddeall fod y ffactorau hyn yn cael sylw mewn unrhyw ddatblygiad ac yn annog fod hynny yn parhau i ddigwydd. Ymhellach, rydym ar ddeall fod rheoliadau grant y Llywodraeth hefyd yn cynnig argymhellion o'r fath, gyda'r argymhellion diweddaraf yn cael ystyriaeth ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd.

5.4 Noder hefyd fod ystyriaethau i athrawon hefyd wedi eu cynnwys yn y gwaith ymchwil yma, ac mae angen arweiniad i athrawon ar sut i weithredu'r argymhellion yn adroddiad Clever Classrooms.

## 6 Ansawdd Addysg

6.1 Fel y nodwyd eisoes, daeth yn glir nad oes un diffiniad safonol o'r hyn a olygir wrth "ansawdd addysg dda" a sut mae modd ei fesur. Gwnaethpwyd nifer o ymholiadau, a derbyniwyd ymatebion gwahanol, er bod elfennau cyffredin iddynt i gyd.

6.2 Mae'r Adran Addysg yn mynd i'r afael â'r gwaith hwn trwy adolygiad Ffordd Gwynedd. 'Roedd yr adran wedi gofyn i nifer o blant beth oedd yn bwysig iddynt o ran eu haddysg a nodwyd y pwyntiau isod:

- Bod yr ysgol yn lle diogel
- Cael gwersi da
- Cyfle i ddilyn pob pwnc trwy'r Gymraeg

[1] *Clever Classrooms: Summary report of the HEAD Project (Holistic Evidence and Design)* gan Peter Barrett, Yufan Zhang, Fay Davies a Lucinda Barrett, Prifysgol Salford, Manceinion, Chwefror 2015

- Fod llawer o sylw i bynciau craidd academaidd, ond bod y ffocws ar sgiliau bywyd wedi diflannu.
- Bod yn hapus

6.3 Bu i Estyn gyfeirio at eu hadroddiad ‘Gwella Addysgu’ a gyhoeddwyd ym Mehefin 2018.

Mae’r adroddiad yn nodi fod addysgu a dysgu da yn:

- Canolbwyntio’n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm
- Rhoi her i’r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu’n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy’n uchel ond o fewn eu cyrraedd
- Galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy’n cynnwys addysgu uniongyrchol
- Golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy’n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a’r gallu i feddwl mewn modd beirniadol
- Golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy’n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb
- Creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu
- Golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
- Ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad
- Cryfhau'r Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd yn gyson, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i’w hymarfer
- Cymell plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain
- Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasedd cadarnhaol
- Hybu cydweithio

6.4 Cafodd aelodau’r ymchwiliad sgwrs gyda swyddog o GwE i drafod ansawdd addysg ac effaith adeiladau ysgolion ar ansawdd addysg. Mewn ymateb i’r cwestiwn ynghylch effaith adeilad ysgolion ar ansawdd addysg, nodwyd eu barn fod yr adeilad yn cael effaith, ond mae’n debygol mai trwy wella effeithlonrwydd a hwylustod yr oedd hynny.

6.5 Nododd mai’r ffactor mwyaf sy’n cael effaith ar ansawdd addysg ym mhrofiad GwE oedd arweinyddiaeth, gyda’r pennaeth yn allweddol i hynny. Nododd hefyd fod problemau mewn ysgolion yn deillio gan amlaf o broblem gyda’r arweinyddiaeth.

6.6 Gofynnwyd hefyd i benaethiaid yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy beth oeddent yn ei ystyried yn addysg o ansawdd da. ‘Roedd eu sylwadau yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth, staff, datblygu disgyblion i’w llawn potensial a mesur cynnydd y disgyblion (yn hytrach na mesur eu cyrhaeddiad ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd). Er na wnaeth yr un Pennaeth gyfeirio yn benodol at effaith adeiladau wrth ystyried ansawdd addysg, nodwyd fod adeiladau priodol yn hwyluso’r addysgu, y dysgu a threfniadau dydd i ddydd mewn ysgolion.

# Astudiaethau Achos

## 7 Astudiaeth Achos: Ysgol yr Hendre

CEFNDIR

7.1 Ysgol yr Hendre oedd y cynllun adeiladau newydd cyntaf o'r genhedlaeth bresennol.

7.2 Agorwyd Ysgol yr Hendre ar ei ffurf bresennol ym Mawrth 2012, gyda lle i 450 o ddisgyblion. 'Roedd hen adeiladau'r ysgol wedi eu dylunio i ddal 200 o ddisgyblion, gyda nifer y disgyblion erbyn cau'r ysgol yn 377. 'Roedd yr adeiladau hefyd wedi dod i ddiwedd eu hoes, gan eu bod yn fach ac wedi eu haddasu droeon wrth i anghenion yr ysgol newid. 'Roedd yr ardaloedd oedd ar gael i chwarae yn fach a gan fod niferoedd disgyblion yr ysgol dros ei chapasiti 'roedd lle yn gyfyngedig.

7.3 Bu i'r cynllun i ddarparu adeiladau newydd i Ysgol yr Hendre gael ei gymeradwyo yn dilyn ennill grant o Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ysgol newydd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ym mis Tachwedd 2009. Roedd amserlen heriol iawn er mwyn bodloni amodau'r grant, gyda'r angen i gwblhau gwaith 3 blynedd mewn oddeutu 18 mis.

TYSTIOLAETH ANSODDOL – CRYFDERAU

7.4 Gweler isod grynodeb o'r prif gryfderau a nodwyd gan y Pennaeth, staff, plant neu lywodraethwyr yn ystod yr ymweliad.

- Yn gyffredinol mae'r adeiladau wedi derbyn canmoliaeth.
- Maent yn adeiladau golau, gydag ymdeimlad o le ac wedi eu gosod allan yn dda
- Gofod mawr a hyblyg, gellir addasu defnydd y gofod ee defnyddio'r coridorau llydan i gynnal gweithgareddau (yn arbennig yn y cyfnod sylfaen). Nodwyd y byddai cwrdd â gofynion y cwricwlwm newydd heb symud i'r ysgol newydd wedi bod yn heriol iawn.
- Canmoliaeth i'r neuadd fawr - digon mawr ar gyfer defnydd fel ysgol gyfan, ymarfer corff a digwyddiadau cymunedol yr ysgol megis y sioe Nadolig.
- Gofod addas ar gyfer gallu gweithredu y cynllun 'maethu' sy'n gofalu am les emosiynol y plant, gyda'r gallu i addasu y gofod i ymateb i ofynion unigolion a'u lles emosiynol (gweler esboniad pellach yn 7.5 isod).
- Nododd disgyblion blwyddyn 6 (a fu hefyd yn yr hen adeilad pan oeddent ym mlwyddyn meithrin) eu bod yn gyffredinol yn hapus gyda'r gofod newydd.

7.5 Cynllun Maethu - Mae ysgol yr Hendre yn un o ysgolion peilot Gwynedd sydd yn gweithredu cynllun 'maethu' oherwydd patrymau cymdeithasol ei dalgylch. Mae'r cynllun yn golygu bod yr ysgol yn edrych ar ôl lles emosiynol a meddyliol y disgyblion llawn cymaint â'u datblygiad academaidd, gan gynnig gwahanol lefelau o gymorth ac ymyrraeth yn ôl anghenion y plant yn unigol. Mae dyluniad yr ysgol, sydd â nifer o

ystafelloedd bychain yn ogystal â'r dosbarthiadau yn hwyluso gweithredu'r cynllun, gan roi nifer o ofodau cyfleus ar draws safle'r ysgol er mwyn i ddisgyblion gael y gofod maent eu hangen. Nodwyd enghraifft o ofod penodol yn cael ei baentio'n dywyll i roi gofod tawel a llonydd i ddisgyblion ddefnyddio os oedd materion yn mynd yn ormod iddynt. Tybir fod ystyriaeth o'r fath yn addas i ysgolion wrth ddarparu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

TYSTIOLAETH ANSODDOL – MATERION SYDD ANGEN SYLW

7.6 Yn yr un modd, gweler isod grynodeb o'r prif faterion sydd angen sylw a nodwyd gan y Pennaeth, staff, plant neu lywodraethwyr yn ystod yr ymweliad.

- Er yn canmol fod digon o le ar gael, nodwyd fod ymdeimlad fod gofod gwastraff yn yr ysgol hefyd, ee coridorau nad oedd yn ddigon hyblyg i allu cael eu defnyddio fel dim ond coridor. Noda aelodau'r ymchwiliad y dylid ystyried yr hir dymor wrth gynllunio, gan ystyried a fyddai modd addasu coridorau llydan yn ofod storio neu ddefnyddio cyfrifiaduron. Mae'r Pennaeth Tai ac Eiddo wedi cadarnhau fod y coridorau wedi bod yn anorfod ar y safle yma gan ei fod ar lethr, ac mae'r unig ffordd o sicrhau fod yr ysgol yn hygyrch i rai ag anghenion corfforol oedd drwy gynnwys coridorau hir ar ongl raddol.
- Dylid hefyd rhoi ystyriaeth i leoliad yr ystafell athrawon. Gan fod maint yr ysgol wedi cynyddu nodwyd yr angen am leoliad canolog i'r ystafell athrawon fel ei bod yn gyfleus i bawb ac yn galluogi'r ymdeimlad o un tîm a gweithio ar y cyd fel un ysgol.
- Nodwyd hefyd fod rhai agweddau o'r adeiladwaith angen sylw, yn bennaf fod to y neuadd wedi bod yn gollwng a bod y rendrad y tu allan i'r ysgol wedi dechrau disgyn mewn rhannau. Cadarnhaodd y Pennaeth Tai ac Eiddo fod gwaith yn mynd rhagddo i gywiro hyn a bod yr adeiladwr gwreiddiol yn parhau i dderbyn cyfrifoldeb am ddiffyg o'u rhan. Noda aelodau'r ymchwiliad y dylid ystyried sut i osgoi hynny mewn unrhyw gynlluniau i'r dyfodol.
- Nodwyd fod gwersi wedi dysgu gyda'r gofod tu allan, yn arbennig oherwydd materion iechyd a diogelwch i'r disgyblion a staff. Rydym yn deall mai dymuniad gwreiddiol yr ysgol oedd cael gofod chware wedi ei amgylchynu gan yr adeilad er mwyn hwyluso cadw'r plant yn ddiogel ac o dan arolygaeth agos. Wrth i amser fynd rhagddo daethpwyd i'r casgliad nad oedd hyn yn ymarferol a bod angen mynediad i ofod ychwanegol. Mae gwaith pellach wedi ei gyflawni er mwyn gallu caniatáu i hyn ddigwydd. Fodd bynnag, noda aelodau'r ymchwiliad y dylid ystyried y darlun cyflawn ar ddechrau unrhyw brosiect er mwyn sicrhau gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau, gan gynnwys y gofod tu allan a chynllunio a chyllido hynny yn ofalus.
- Roedd datblygiad Ysgol yr Hendre yn un o'r datblygiadau oedd â gofynion gofod cymunedol (gyda chyfalaf i gefnogi'r gofyn). Noda aelodau'r ymchwiliad eu bod yn teimlo fod lle i ddatblygu'r defnydd o'r gofod yma ymhellach.

CANLYNIADAU ESTYN

7.7 Nodir isod ganlyniadau arolygon diweddaraf Estyn.

| MAES | Ionawr 2018 |
|---|---|
| Safonau | DA |
| Lles ac agwedd tuag at ddysgu | DA |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | DA |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | DA |
| Arweinyddiaeth a rheolaethol | DA |

Noder fod y canlyniadau isod (2013) cyn i'r ysgol symud i'r adeilad newydd.

| MAES | Chwefror 2013 |
|---|---|
| CRYNODEB | |
| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Anfoddhaol |
| CWESTIWN ALLWEDDOL | |
| Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
| Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
| Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth | Anfoddhaol |

DRAFT

# 8 Astudiaeth Achos: Ysgol Craig y Deryn

*8.1 Dylid nodi fod y Cyng. Beth Lawton, cadeirydd yr ymchwiliad wedi cymryd ei rôl fel cadeirydd llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn yn ystod ymweliad yr ymchwiliad â'r ysgol.*

CEFNDIR

8.2 Crëwyd Ysgol Craig y Deryn trwy gyfuno ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llwyngwril a Llanegryn fel rhan o gynllun ehangach i ad-drefnu addysg yn ardal Tywyn. Gwnaed buddsoddiad hefyd i uwchraddio adeiladau ysgol Penybryn, Tywyn fel rhan o'r un cynllun gan gau Ysgol Aberdyfi. Agorwyd Ysgol Craig y Derbyn ar ei ffurf bresennol ym Mis Medi 2013, gyda lle i 105 o ddisgyblion blwyddyn derbyn i flwyddyn 6.

8.3 Bu'r cyfnod o ymgynghori a dewis lleoliad i'r ysgol newydd wrth aildrefnu yn gyfnod anodd. Er nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r ymchwiliad hwn, dylid cydnabod fod y broses o uno ysgolion yn anodd ac yn effeithio ar ansawdd addysg dros dro (yn arbennig yn y flwyddyn drosiannol olaf). Mae aelodau'r ymchwiliad o'r farn fod lle i ddysgu gwersi o'r profiad ac i ystyried sut i leihau'r effaith yma gydag unrhyw ddatblygiad i'r dyfodol.

TYSTIOLAETH ANSODDOL – CRYFDERAU

8.4 Gweler isod grynodeb o'r prif gryfderau a nodwyd gan y Dirprwy Bennaeth, staff, plant neu lywodraethwyr yn ystod yr ymweliad.

- Mae'r ysgol wedi ei leoli ar safle deniadol iawn gyda gofod tu allan.
- Mae'r gofod yn hyblyg ac mae hyn wedi galluogi newid defnydd y gofod wrth i amser fynd ymlaen a gofynion yn newid, ac addasu (ee addasu'r llyfrgell a'r ystafell TG). Mae hyn yn holl bwysig i'w ystyried er mwyn gallu addasu i anghenion dysgu a datblygiadau newydd.
- Mae'r dyluniad wedi golygu fod gofod ar wahân ar gyfer rhai ystafelloedd ee yr ystafell gerdd. Mae hyn wedi arwain at fagu hyder ac annibyniaeth yn y disgyblion.
- Cafodd staff yr ysgolion oedd yn cael eu huno gyfle i gydweithio a chyd-gynllunio ar gyfer yr ysgol newydd.
- Mae'r plant a holwyd yn nodi eu bod, ar y cyfan, yn ddigon hapus gyda'r ysgol newydd a phawb yn ystyried eu hunain yn "blant Craig y Deryn".

TYSTIOLAETH ANSODDOL – MATERION SYDD ANGEN SYLW

8.5 Yn yr un modd, gweler isod grynodeb o'r prif faterion sydd angen sylw a nodwyd gan y Dirprwy Bennaeth, staff, plant neu lywodraethwyr yn ystod yr ymweliad.

- Daeth materion cynllunio annisgwyl â heriau i'r amserlen a bu cyfnod lle bu'r staff a llywodraethwyr yn cynorthwyo i baratoi'r ysgol ar gyfer ei hagor, a chyfnod pellach ble bu'r ysgol ar agor a'r gwaith adeiladu yn parhau. Noda aelodau'r

ymchwiliad y dylid ystyried ac amserlennu yr holl waith paratoi (gan gynnwys cyfnod i bethau fynd o'i le) fel bod yr holl baratoadau wedi eu cwblhau cyn i'r safle agor. Rydym yn deall fod amgylchiadau anghyffredin wedi arwain at y sefyllfa yma yng Nghraig y Deryn yn sgil oediad o fisoedd yn y rhaglen waith gan fod y penderfyniad cynllunio wedi ei oedi dair gwaith. O ganlyniad golygodd nad oedd amser digonol yn weddill ar gyfer cwblhau'r gwaith adeiladu. Roedd dau ddewis gan y Cyngor, parhau i geisio agor cymaint â phosib o'r adeiladau ar amser, neu ohirio dyddiad agor yr ysgol newydd. Penderfynwyd nad oedd gohirio agor yn dderbyniol ac felly aethpwyd ati i geisio cyflawni beth oedd yn bosib o fewn yr amserlen.

- Fel gydag Ysgol yr Hendre, gwelwyd fod rhai problemau wedi codi gyda'r adeilad hefyd, yn bennaf fod y to wedi bod yn gollwng. Tra'n cydnabod fod gwaith yn mynd rhagddo i gywiro hyn, noda aelodau'r ymchwiliad y dylid ystyried sut i osgoi hynny mewn unrhyw gynlluniau i'r dyfodol, gan annog pob datblygiad i gael to crib neu do ar ongl i geisio osgoi y problemau.
- Yn ogystal nodwyd fod cyfle i wella dyluniad yr adeilad, yn bennaf yr ystyriaeth i nifer ddigonol o doiledau a basinau golchi dwylo – i'r plant a staff a defnydd y gymuned.
- Nodwyd fod materion penodol wedi codi ynghylch cynnal a chadw'r safle tu allan, yn arbennig ar gyfer sicrhau gwaith torri coed a gwrychoedd, cywiro llwybrau neu unrhyw broblem arall sy'n codi. Ym marn aelodau'r ymchwiliad mae angen rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau ar ddechrau unrhyw brosiect. Dylid ceisio gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau, ac mae hynny yn cynnwys cynllunio ar gyfer y gofod tu allan a sut i gyllido gofynion cynnal a chadw. Mewn ymateb nododd y Pennaeth Tai ac Eiddo fod ardaloedd gwyrdd eang wedi eu cynnwys er mwyn bodloni gofynion cynllunio'r Parc Cenedlaethol ac amodau grant y Llywodraeth. Nododd nad oedd modd osgoi hyn, ac roedd yn cytuno ei bod yn anymarferol disgwyl i ysgolion newydd o'r math i allu ariannu cynnal a chadw tiroedd fel hyn heb gydnabyddiaeth ychwanegol yn eu cyllideb.

CANLYNIADAU ESTYN

8.6 Nodir isod ganlyniadau arolygon diweddaraf Estyn.

| MAES | Mawrth 2016 |
|---|---|
| CRYNODEB | |
| Perfformiad presennol yr ysgol | DA |
| Rhagolygon gwella'r ysgol | DA |
| CWESTIWN ALLWEDDOL | |
| Pa mor dda yw'r deilliannau? | DA |
| Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | DA |
| Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth | DA |

Dyma adroddiad cyntaf Ysgol Craig y Deryn.

DRAFT

# 9 Astudiaeth Achos: Ysgol Bro Llifon

CEFNDIR

9.1 Agorwyd Ysgol Bro Llifon yn 2015 trwy gyfuno ysgolion Y Groeslon, Carmel a Bron y Foel gyda lle i 172 o ddisgyblion blwyddyn derbyn i flwyddyn 6. ‘Roedd adeiladau Ysgol y Groeslon wedi dod i ddiwedd eu hoes, gyda’r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn unedau symudol. Er bod angen gwaith atgyweirio ac addasu ‘roedd adeiladau Ysgolion Carmel a Bron y Foel mewn cyflwr gwell. Fodd bynnag ‘roedd nifer uchel o lefydd gwag yn yr ysgolion hyn.

TYSTIOLAETH ANSODDOL – CRYFDERAU

9.2 Gweler isod grynodeb o’r prif gryfderau a nodwyd gan y Pennaeth, staff, plant neu lywodraethwyr yn ystod yr ymweliad.

- Yn sgil sefydlu corff llywodraethu cysgodol cafodd y Pennaeth a’r Llywodraethwyr cysgodol gyfle i roi mewnbwn i’r cynlluniau arweiniodd at ddylanwadu ar rai newidiadau. Cawsant hefyd gyfle i ymweld â datblygiadau eraill newydd.
- Gwnaethpwyd newid graddol gan weithio ar y cyd rhwng y tair ysgol yn y lle cyntaf gyda’r staff yn dod i adnabod ei gilydd ac yn gweithio fel un tîm cyn symud i’r lleoliad newydd.
- Mae storfeydd defnyddiol wedi eu cynllunio i mewn i’r gofod fel bod lle i gadw pethau ar wahân.
- Mae gofod digonol yn yr awyr agored y tu allan i’r dosbarthiadau.
- Rhoddwyd to llechi ar yr ysgol, sydd wedi osgoi y problemau to yn gollwng.
- Roedd y disgyblion oedd wedi bod yn un o’r tair ysgol fechan cyn Ysgol Bro Llifon yn nodi eu bod yn hapus gyda’r ysgol a bod budd o gael popeth ar yr un safle.

TYSTIOLAETH ANSODDOL – MATERION SYDD ANGEN SYLW

9.3 Yn yr un modd, gweler isod grynodeb o’r prif faterion sydd angen sylw a nodwyd gan y Pennaeth, staff, plant neu lywodraethwyr yn ystod yr ymweliad.

- Nodwyd fod problemau wedi codi gyda’r cae chwarae yn sgil problemau gan y contractwr oedd yn cyflawni’r gwaith. Er fod y problemau yn rhai na ellid eu rhagweld a thu hwnt i reolaeth, mae methu defnyddio’r cae am gyfnod mor hir yn rhywbeth i geisio ei osgoi.

9.4 Er nad yw’n rhan o’r briff, mae aelodau’r ymchwiliad yn ymwybodol fod niferoedd disgyblion wedi disgyn dros dro, a arweiniodd at sefyllfa o ormodedd ar ôl blwyddyn, cyn i’r niferoedd godi drachefn. Noda aelodau’r ymchwiliad yr angen i gynllunio yn ofalus a gweithio gyda’r gymuned er mwyn ceisio osgoi sefyllfa o niferoedd disgyblion yn disgyn dros dro cyn cynyddu yn ei ôl, gan ystyried gweithio gyda’r Adran Addysg i weld os oes modd cael arian pontio ar gyfer sefyllfaoedd o’r fath.

CANLYNIADAU ESTYN

9.5 Nodir isod ganlyniadau arolygon diweddaraf Estyn.

| MAES | Tachwedd 2018 |
|---|---|
| Safonau | DA |
| Lles ac agwedd tuag at ddysgu | DA |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | DA |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | DA |
| Arweinyddiaeth a rheolaethol | DA |

Dyma adroddiad cyntaf Ysgol Bro Llifon.

DRAFFT

# 10 Astudiaeth Achos: Ysgol Glancegin

CEFNDIR

10.1 Agorwyd adeiladau newydd Ysgol Glancegin ym Medi 2017 gyda lle i 210 o ddisgyblion o flwyddyn derbyn i flwyddyn 6. 'Roedd adeiladau'r ysgol wedi dod i ddiwedd eu hoes, ac nid oedd yn gost effeithiol parhau i'w trwsio. Fel cyd-destun hefyd mae'n bwysig nodi bod yr ysgol yn wreiddiol wedi ei dylunio ar gyfer oddeutu 300 o ddisgyblion, ond gyda'r niferoedd wedi gostwng i oddeutu 220 yn golygu bod llawer o le gwag ar gael. 'Roedd y gofod ychwanegol yn cael ei ddefnyddio a'i addasu yn ôl y galw gan y staff.

10.2 Codwyd yr adeiladau newydd ar yr un safle â'r hen ysgol, ar y buarth a'r caeau yng ngwaelod y safle. O ganlyniad bu'r ysgol yn gorfod cyd-fyw â safle adeiladu am y 18 mis o gyfnod adeiladu a cholli defnydd y buarth a'r cae yn y cyfamser. Nododd y Pennaeth fod cydweithio da wedi bod gyda'r contractwr adeiladu a'r Gwasanaeth Eiddo.

TYSTIOLAETH ANSODDOL – CRYFDERAU

10.3 Gweler isod grynodeb o'r prif gryfderau a nodwyd gan y Pennaeth, staff, plant neu lywodraethwyr yn ystod yr ymweliad.

- Mae'r gofod wedi bod yn eithaf hyblyg, gyda newidiadau wedi eu gwneud eisoes i'r defnydd o'r adnoddau mewn rhai llefydd (ee pegiau yn y dosbarth wedi eu symud i'r coridorau).
- Rheolwyd y cyfnod adeiladu a dymchwel yr hen adeilad yn dda, ac er bod heb y ddarpariaeth tu allan dros dro, bu i'r ysgol gydweithio gyda'r contractwr er mwyn datblygu ardaloedd tu allan fyddai'n barod o'r dechrau. Bu i'r ysgol hefyd gadw arian i un ochor yn arbennig er mwyn ei wario ar yr ardal tu allan. O ganlyniad i'r cynllunio darbodus a chydweithio effeithiol yng Nglancegin gwelwyd yr ardaloedd tu allan mwyaf datblygedig a chyflawn o'r ysgolion y bu i aelodau'r ymchwiliad ymweld â hwy.
- Unwaith eto roedd y disgyblion yn nodi eu bod yn gyffredinol yn hapus gyda'r adeilad newydd, er iddynt nodi fod y gofod yn y neuadd yn llai na'r hyn oedd yn yr hen ysgol.

TYSTIOLAETH ANSODDOL – MATERION SYDD ANGEN SYLW

10.4 Yn yr un modd, gweler isod grynodeb o'r prif faterion sydd angen sylw a nodwyd gan y Pennaeth, staff, plant neu lywodraethwyr yn ystod yr ymweliad.

- Mae'r coridorau yn olau a llydan, ond nid oes defnydd addysgu wedi cael eu gwneud o'r coridorau oherwydd rheolau diogelwch tân a'r diffyg adnoddau goruchwylio y tu allan i'r stafell ddosbarth. Fel y gwelwyd eisoes, noda aelodau'r ymchwiliad y dylid ystyried yr hir dymor wrth gynllunio, gan ystyried a fyddai modd addasu coridorau llydan yn ofod storio neu ar gyfer defnyddio cyfrifiaduron.

DRAFT

- Nodwyd hefyd pryder am ddiogelwch disgyblion gyda dau fater penodol, ac er i'r materion gael sylw, noda aelodau'r ymchwiliad fod angen dysgu gwersi i'r dyfodol i osgoi materion o'r fath yn codi eto
- Nid oes gofod cymunedol yn rhan o'r ddarpariaeth yn Ysgol Glancegin gan nad oes modd defnyddio'r grant i gyllido adnodd o'r fath erbyn hyn. Er bod aelodau'r ymchwiliad yn deall fod arian yn brin, maent yn nodi eu siom fod y gofyn yma wedi ei neilltuo o'r ddarpariaeth grant bellach.

10.5 Er nad yw'n rhan o'r briff, mae aelodau'r ymchwiliad yn ymwybodol fod rhwystredigaeth yn codi yn sgil telerau'r grant sy'n rheoli maint y datblygiadau newydd gan fod agenda llefydd gweigion yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Bellach mae'r niferoedd disgyblion yn yr ysgol yn uwch na'r capasiti yr adeiladwyd yr ysgol ar ei chyfer. Rydym yn falch o ddeall fod yr Adran Addysg a'r Adran Eiddo wedi rhoi ystyriaeth i'r posibilrwydd o gynnydd yn y niferoedd disgyblion wrth gynllunio, er eu bod wedi gorfod gweithredu o fewn amodau'r grant ar yr adeg. Bu i ddyluniad yr ysgol gael ei chreu yn bwrpasol gan adnabod modd hawdd o godi estyniad ar ochor yr adeilad heb amharu ar weddill y ddarpariaeth petai'r angen yn codi.

10.6 Noda aelodau'r ymchwiliad eu bod yn falch fod yr ystyriaeth briodol wedi ei roi i'r sefyllfa er mwyn gallu addasu yn hawdd. Fodd bynnag, nodir hefyd rwystredigaeth gan aelodau'r ymchwiliad fod angen addasu'r adeilad mor fuan. Noda aelodau'r ymchwiliad yr angen i lobio Llywodraeth Cymru i geisio llacio amodau'r grant a chynllunio i'r tymor hwy.

CANLYNIADAU ESTYN

10.7 Nodir isod ganlyniadau arolygon diweddaraf Estyn.

| MAES | Chwefror 2013 |
|---|---|
| CRYNODEB | |
| Perfformiad presennol yr ysgol | DA |
| Rhagolygon gwella'r ysgol | DA |
| CWESTIWN ALLWEDDOL | |
| Pa mor dda yw'r deilliannau? | DIGONOL |
| Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | DA |
| Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth | DA |

## 11 Ymweliad: Ysgol Treferthyr

11.1 Fel y nodwyd yn rhan 3.5 o'r adroddiad, penderfynodd aelodau'r ymchwiliad ymweld â safle oedd angen adeiladau newydd er mwyn gallu cymharu rhywfaint gyda'r Astudiaethau achos a welwyd.

11.2 Mae Ysgol Treferthyr wedi ei lleoli yng Nghricieth ac yn gyfuniad o adeilad o droad yr 20fed ganrif gydag estyniadau wedi eu hychwanegu yn y 1970au a chaban sydd wedi ei osod yn fwy diweddar. Mae'r rhan o'r adeilad a adeiladwyd yn yr 1970au bellach wedi cyrraedd diwedd ei hoes, ac o'r un gwneuthuriad ag adeiladau Ysgol y Groeslon ac Ysgol Glancegin. Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi gwario'n sylweddol ar yr adeiladau er mwyn eu diogelu yn y tymor byr. Yn Ebrill 2019, penderfynodd y Cabinet agor trafodaethau ar ddyfodol addysg yn ardal Cricieth er mwyn edrych ar y dalgylch yn ei gyfanrwydd gyda'r bwriad o adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth. Mae cyfres o gyfarfodydd wedi eu cynnal yn lleol i geisio adnabod yr opsiwn orau ar gyfer unrhyw ddatblygiad, gydag ystyriaeth wedi ei rhoi ar gyfer safleoedd posib.

11.3 Amlygodd yr ymweliad ag Ysgol Treferthyr gryn wahaniaethau o gymharu ag adeiladau newydd yr ysgolion eraill. Er bod yr ysgol yn gartrefol iawn, roedd yn amlwg fod cryn waith addasu'r gofod wedi gorfod digwydd dros y blynyddoedd er mwyn gallu darparu a chwrdd â gofynion addysg fodern. Roedd heriau gyda mynediad megis grisiau yn arwain o un rhan o'r ysgol i'r llall, ac er bod hynny i'w weld mewn adeiladau newydd hefyd nid oedd ffordd amgen o fynd o un lefel i'r llall. 'Roedd hynny wedyn yn creu problemau mynediad i'r ysgol yn ogystal â chynyddu'r risgiau iechyd a diogelwch. Roedd heriau gyda'r ardaloedd ar gyfer y cyfnod sylfaen hefyd, yn arbennig ar gyfer y gofod y tu allan.

11.4 Nododd y Pennaeth ei bod yn edrych ymlaen at gael adeiladau newydd, gan obeithio byddai lleoliad yr ysgol newydd yr un mor braf a chanolog, gyda gofod addas y tu allan i ddarparu gweithgareddau awyr agored, megis coedwig.

## 12 Clo ac Argymhellion

12.1 Dymuna aelodau'r ymchwiliad ddiolch i bawb am eu mewnbwn i'r gwaith, yn arbennig y croeso a gafwyd yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy. Gwelwyd fod yr adeiladau newydd yn cynnig cyfleusterau hyblyg, diogel o safon uchel na fydd angen cynnal a chadw sylweddol am amser hir. Mae'r cyfleoedd a'r gofodau sydd wedi eu creu yn hwyluso darparu addysg yng Ngwynedd ac mae'r disgyblion wedi adrodd eu bod yn falch iawn o'r cyfleusterau a'r buddsoddiad yn eu hardaloedd hwy.

12.2 Daeth yn amlwg ei bod yn anodd profi effaith yr adeiladau newydd ar ansawdd addysg, a daethpwyd i'r casgliad mai un elfen sy'n cyfrannu at ansawdd addysg yw'r adeiladau.

12.3 Fodd bynnag, rydym yn falch o weld fod y buddsoddiad wedi dod ag amodau dysgu mwy hyblyg i'n hysgolion yn ogystal â balchder gan y disgyblion, y staff ac o fewn y cymunedau.

12.4 Fodd bynnag, rydym o'r farn fod gwersi i'w dysgu o'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd gan arwain at gyflwyno'r argymhellion isod.

## 13 Maes: Dyluniad a chynllunio

13.1 **Argymhelliad:**
**Bod y Gwasanaeth Moderneiddio Addysg yn parhau i werthuso prosiectau gan gywain y gwersi at ei gilydd wrth gyflawni'r prosiectau, gan barhau i ddysgu gwersi ac addasu yn sgil y gwersi hynny. Dylid ystyried y pwyntiau isod gyda'r gwersi hynny.**

13.2 Noda aelodau'r ymchwiliad y dylid ystyried yr hir dymor wrth gynllunio unrhyw ddatblygiad o'r newydd gan sicrhau ymgynghori gyda defnyddwyr mor fuan â phosib yn y broses, a dylunio adeiladau hyblyg a gofod y gellir ei newid. Dylid parhau i gymryd sylw o'r canllawiau adeiladu diweddaraf sy'n cael eu cynhyrchu ac o'r egwyddorion sydd wedi eu cynnwys yn Clever Classrooms.

13.3 Noda aelodau'r ymchwiliad y dylid ystyried y darlun cyflawn ar ddechrau unrhyw brosiect er mwyn sicrhau gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau, gan gynnwys yr holl ystyriaethau ar gyfer y gofod tu allan ac unrhyw ddarpariaeth gymunedol.

13.4 Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i osgoi oedi wrth gael tir a chaeau chwarae adeiladau newydd ysgolion yn barod. Yn ogystal, mae angen cynorthwyo yr ysgolion i sicrhau cyllideb ddigonol ar gyfer cynnal a chadw yr adnoddau allanol.

13.5 Tra rydym yn deall fod amodau grant wedi newid dros y blynyddoedd, os oedd darpariaeth gymunedol i fod yn rhan o'r amodau, neu os cyfyd hynny eto i'r dyfodol, y dylid ystyried anghenion y gymuned a sut y gall yr ysgol eu diwallu yn ystod y cam

dylunio, hyrwyddo'r ddarpariaeth yn fwy effeithiol a sicrhau bod cyfrifoldeb a rheolaeth y ddarpariaeth yn eglur i'r budd-ddeiliaid perthnasol.

## 14 Maes: Canllawiau'r grant Ysgolion y G21ain

14.1 **Argymhelliad:**
**Bod yr Aelod Cabinet yn gwneud cais ffurfiol i Lywodraeth Cymru er mwyn llacio rhywfaint ar ganllawiau ac amodau'r grant Ysgolion G21ain gan ystyried dulliau o daflunio poblogaeth ysgolion unigol yn y tymor hwy.**

14.2 Gwelwyd yn yr astudiaethau achos fod niferoedd disgyblion wedi newid yn ystod cyfnod cychwynnol unrhyw ysgol newydd. Mae niferoedd disgyblion y pedair ysgol newydd dan sylw wedi cynyddu yn sylweddol ers agor yr adeiladau; fodd bynnag mae amodau grant yn golygu na ellid cynllunio ar gyfer mwy na 10% o le gwag. Noda aelodau'r ymchwiliad eu rhwystredigaeth nad oes modd cynllunio i dymor hwy wrth ddylunio adeilad ysgol newydd.

14.3 Ar y llaw arall gall rhai achosion fod yn gynhennus, gan greu cyfnod ansefydlog yn y tymor byr, gyda'r niferoedd yn lleihau dros dro. Noda aelodau'r ymchwiliad y dylid ystyried os oes modd dyrannu cyllid pontio am gyfnod (dyweder oddeutu 3 blynedd) er mwyn cadw'r lefel staffio nes i niferoedd disgyblion gyrraedd y rhagamcaniad.

## 15 Maes: Tystiolaeth o effaith adeiladau ar ansawdd addysg

15.1 **Argymhelliad:**
**Bod yr Aelod Cabinet yn gwneud cais ffurfiol i Lywodraeth Cymru wneud astudiaeth ar draws Cymru gyfan o effaith adeiladau ysgolion newydd ar ansawdd addysg.**

15.2 Mae cryn fuddsoddiad wedi bod ar draws Cymru trwy'r cynllun Ysgolion y G21ain dros y blynyddoedd. Noda aelodau'r ymchwiliad eu bod wedi wynebu her wrth geisio ateb y cwestiwn "Beth yw effaith datblygiadau adeiladau newydd ar ansawdd addysg disgyblion, ac a oes gwersi i'w dysgu i'r dyfodol?". Tra ein bod wedi adnabod gwersi i'w dysgu, tybir mai Llywodraeth Cymru sydd yn y safle gorau i wneud gwaith ymchwil pellach i brofi effaith datblygiadau adeiladau newydd ar ansawdd addysg disgyblion.

*************************

Trwy gydol yr astudiaethau achos a'r cyfarfodydd gydag arbenigwyr ym maes addysg, daeth effaith arweinyddiaeth dda ar ansawdd addysg yn amlwg ac felly noda aelodau'r ymchwiliad bwysigrwydd anelu at arweinyddiaeth gryf hefyd.

ATODIAD 1

BRIFF YR YMCHWILIAD

**YMCHWILIAD "EFFAITH DATBLYGIADAU ADEILADAU NEWYDD AR GYFER YSGOLION AR ANSAWDD ADDYSG"**

BRIFF – 20 Medi 2018

| | |
|---|---|
| A | **Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried fel eitem craffu?**<br><br>Mae nifer o aelodau wedi gofyn a ydym yn glir os oes effaith gadarnhaol ar addysg disgyblion wedi dod yn sgil y datblygiadau diweddar o ran strwythuro ysgolion y sir - boed yn ddatblygiadau o adeiladau newydd i ysgolion, ac/neu yn datblygu ysgolion newydd.<br><br>Mae eu cwestiynau yn canolbwyntio ar effaith y ddarpariaeth newydd ar ansawdd yr addysg a phrofiad disgyblion, gan holi<br>- a yw'r buddsoddiad ariannol wedi arwain at wella'r ansawdd<br>- a oes ymarfer da neu wersi i'w dysgu wrth i'r rhaglen ddatblygol barhau.<br><br>Gyda'r holl waith datblygol sydd wedi bod yn digwydd hyd yma, mae'n amserol i edrych ar beth yw effaith (os o gwbl) yr adeiladau newydd yng Ngwynedd.<br><br>Dylid cymryd y cyfle i adnabod unrhyw ymarferion da ac unrhyw wersi/addasiadau ar gyfer y datblygiadau i'r dyfodol.<br><br>Bydd yr ymchwiliad i'r maes yn edrych ar effaith datblygiadau / adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar yr elfennau a ganlyn, sef<br>➢ Ansawdd yr addysg<br>➢ Canlyniadau addysgol<br>➢ Profiad y defnyddwyr yn yr adeiladau newydd<br>➢ Gwerth am arian |
| B | **Nod yr Ymchwiliad**<br><br>Y prif gwestiwn i'w gyfarch fydd<br><br>**'Beth yw effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg disgyblion, ac a oes gwersi i'w dysgu i'r dyfodol?"**<br><br>Bwriedir gwneud hyn trwy ofyn y cwestiynau canlynol:<br>- Beth yw nodweddion ansawdd addysg dda?<br>- Ydi canlyniadau addysgol yr ysgolion dan sylw yn well/gwaeth/sefydlog wedi agor yr adeiladau newydd?<br>- Sut mae profiad y disgyblion wedi newid o'r hen adeilad i'r adeilad newydd<br>- Sut mae adeilad yn effeithio ar addysg?<br>- Beth oedd meini prawf llwyddiant y datblygiadau? A lwyddwyd i'w cyflawni?<br>- Beth oedd cyflwr cyffredinol yr adeiladau?<br>- Beth oedd yn newid o'r hen ysgol i'r ysgol newydd?<br>- O safbwynt y staff dysgu, y llywodraethwyr a GwE, sut y bu i'r adeilad wella ansawdd yr addysg?<br>- Ydi'r datblygiadau yn cynnig gwerth am arian?<br>- A oes gwersi i'w dysgu i'r dyfodol? |

| | |
|---|---|
| C | **Cefndir**<br><br>Mae cryn fuddsoddiad wedi bod ar ddatblygu adeiladau addysgol yng Ngwynedd yn ddiweddar. Ymysg y datblygiadau mae:<br><br>• Ysgol yr Hendre, Caernarfon.<br>• Ysgol Craig y Deryn<br>• Buddsoddiad ar welliannau ac adnewyddiadau yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn yn 2013.<br>• Ysgol Bro Llifon<br>• Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth.<br>• Ysgol Bro Idris, yn Nolgellau ar 6 safle.<br><br>Mae'r rhaglen yn parhau gyda datblygiadau pellach eisoes ar y gweill yn ardaloedd Y Bala a Bangor. |
| CH | **Arfer Da a Gwersi i'w Dysgu**<br><br>- Defnyddio dull astudiaeth achos, felly bwriedir adnabod y wybodaeth a thystiolaeth angenrheidiol (fel y nodir isod yn adran D) a'i ddadansoddi yn unol â'r cyd-destun strategol a chyd-destun y datblygiadau unigol. |
| D | **Casglu Tystiolaeth**<br><br>Bwriedir ateb y cwestiynau trwy ddefnyddio arddull astudiaeth achos ar gyfer 3 neu 4 datblygiad. Trwy gyfuno datblygiadau diweddar a rhai llai diweddar, y bwriad yw:<br>• Casglu data er mwyn mesur effaith yr adeilad ar brofiad y disgyblion o'r datblygiadau diweddar, gan fod y newid yn fyw yn y cof<br>• Mesur yr effaith ar ansawdd yr addysg o'r datblygiadau llai diweddar, gan fod amser wedi bod er mwyn i ddata meintiol gael ei gynhyrchu.<br><br>Bwriedir hefyd:<br>- Ymchwilio i weld beth oedd meini prawf llwyddiant y cynlluniau ail-drefnu/adeiladu ysgolion<br>- Dadansoddi sefyllfa'r ysgolion cyn y datblygiad (defnyddio categori/Estyn/GwE/canlyniadau)<br>- Cywain data ansoddol gan Arweinwyr yr ysgolion, staff dysgu, y llywodraethwyr a GwE.<br>- Sut mae mesur ansawdd addysg – beth yw nodweddion addysg o ansawdd dda?<br>- Ydi canlyniadau wedi gwella yn sgil y newid?<br><br>Bwriedir edrych ar ysgolion Bro Llifon, Craig y Deryn, Glancegin a Hendre. |
| DD | **Dadansoddiad**<br><br>- Ystyried a yw'r datblygiadau wedi cyflawni meini prawf llwyddiant eu cynllun busnes, amcanion y strategaeth moderneiddio addysg, ac amcanion cynllun ysgolion y G21ain<br>- O ran gwerth am arian, mae angen cadw mewn cof mai gwella ansawdd yr addysg sydd yn gyrru'r rhaglen moderneiddio. Fodd bynnag mae'n gwestiwn gwerth ei ofyn yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| E | **Llunio'r Adroddiad**<br><br>- Nodi a thystiolaethu'r prif ganfyddiadau<br>- Nodi argymhellion<br>- Trafod a chytuno'r adroddiad drafft gyda'r budd-ddeiliaid perthnasol<br>- Cyflwyno'r adroddiad terfynol drafft i'r Pwyllgor<br>- Cyhoeddi'r adroddiad |
| F | **Cynllun Gweithredu**<br><br>- Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymchwiliad |
| FF | **Tracio Cynnydd**<br><br>- Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymchwiliad. |

DRAFFT

# Prif Weithgareddau

Mae prif weithgareddau'r ymchwiliad wedi eu nodi isod:

| Dyddiad | Lleoliad | Pwrpas |
|---|---|---|
| 23/1/18 | Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi – Comisiynu'r ymchwiliad a derbyn briff drafft |
| 20/9/18 | Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi - Derbyn y briff llawn. |
| 9/10/18 | Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor | Derbyn cyflwyniad i'r maes gan Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol) a Hedd Tomos (Rheolwr Uned Moderneiddio Addysg) a llunio rhaglen waith. |
| 22/10/18 | Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor | Derbyn cyflwyniad gan Gwern ap Rhisiart a Diane Jones (Swyddogion Addysg Ardal) ar nodweddion ansawdd addysg dda |
| 12/11/18 | Ystafell Ogwen, Swyddfeydd y Cyngor | Trafod ymweliadau i ysgolion, trywydd holi a chwestiynau posib |
| 23/5/19 | Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor | Paratoadau terfynol cyn ymweld â'r ysgolion |
| 4/6/19 | Ysgol yr Hendre, Caernarfon | Ymweliad â'r ysgol |
| 13/6/19 | Ysgol Bro Llifon, Y Groeslon | Ymweliad â'r ysgol |
| 17/6/19 | Ysgol Craig y Deryn, Llanegryn | Ymweliad â'r ysgol |
| 26/6/19 | Ysgol Glancegin, Bangor | Ymweliad â'r ysgol |
| 9/7/19 | Ysgol Treferthyr, Cricieth | Ymweliad â'r ysgol |
| 25/7/19 | Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor | Ystyried themâu oedd yn codi o'r ymweliadau â'r ysgolion a thrafod camau nesaf, gan gynnwys trefnu i siarad eto gyda Dafydd Gibbard |
| 9/9/19 | Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor, | Trafodaeth gyda Dafydd Gibbard yn dilyn yr ymweliadau i'r ysgolion. Sgwrs gyda Geraint Evans (Arweinydd Craidd - Cynradd) am safbwynt GwE ar yr ysgolion dan sylw |
| 24/10/19 | Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor | Trafod drafft cyntaf adroddiad yr ymchwiliad |
| 4/11/19 | Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor | Trafod drafft pellach o adroddiad yr ymchwiliad |
| Mawrth 2020 | | Cadarnhau adroddiad drafft terfynol yr ymchwiliad |

## Clever Classrooms

1 Penderfynodd aelodau'r ymchwiliad chwilio am astudiaethau eraill ar effaith adeiladau ysgol ar ansawdd addysg/ddeilliannau addysgol. O ystyried yr holl ddatblygiadau yn y maes, roedd yn syndod cyn lleied o ymchwil ac astudiaethau sydd wedi eu cynnal i'r maes. Er bod peth gwaith ymchwil wedi ei gynnal i effeithiau rhai agweddau penodol o adeiladau ar ddeilliannau, dim ond un astudiaeth a welwyd oedd yn ceisio asesu effaith pob agwedd o'r adeiladau gyda'i gilydd, sef *Clever Classrooms*, Prifysgol Salford, 2015[2].

2 Yn yr astudiaeth hon, cynhaliwyd arolygon ar 3,766 o ddisgyblion mewn 153 o ddosbarthiadau mewn 27 o ysgolion cynradd amrywiol iawn mewn tri awdurdod addysg yn Lloegr, sef Blackpool, Hampshire a Bwrdeistref Llundain Ealing. Mae'r ymchwilwyr yn disgrifio eu methodoleg yn "ddull newydd" (*novel approach*) sef mynd i'r afael â'r cymhlethdodau mewn dwy ffordd:

> "First the "holistic" aspect of the practical experience of a space was taken fully on board. Second, a multilevel statistical modelling approach was used to isolate effects at the classroom level."[3]

3 Casglwyd ystadegau perfformiad o gofnodion disgyblion dros y flwyddyn, graddfeydd a aseswyd gan athrawon. Nid oedd y data hwn ar gael i'r ymchwiliad ac felly nid oedd modd cynnal dadansoddiad tebyg ar gynnydd disgyblion yn yr ysgolion dan sylw yng Ngwynedd. Cafwyd data ar gyfer tri phwnc yn unig, darllen, ysgrifennu a mathemateg ac felly ni chynhwyswyd rhannau helaeth o'r cwricwlwm yn yr ymchwil. Mae'n bwysig cadw hynny mewn cof. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad:

> "clear evidence has been found that well-designed primary schools boost children's academic performance in reading writing and maths. Differences in the physical characteristics of classrooms explain 16% of the variation in learning progress over a year … it is estimated that the impact of moving an 'average' child from the least effective to the most effective space would be around 1.3 sub-levels, a big impact when pupils typically make 2 sub-levels progress a year."[4]

4 Aseswyd nodweddion ffisegol yr ystafelloedd dosbarth i weld pa rai oedd y pwysicaf, gan greu argymhellion, ar sail yr ymchwil, ar gyfer cynllunio ysgolion i'r dyfodol. Mae Dafydd Gibbard wedi adrodd fod Cyngor Gwynedd yn ystyried yr holl ffactorau sy'n rhan o'r adroddiad yn naturiol wrth ystyried unrhyw ddyluniad. Mae'r Gwasanaeth Eiddo hefyd yn derbyn bwletinau adeiladwyr yn gyson sy'n cynnwys argymhellion

[2] *Clever Classrooms: Summary report of the HEAD Project (Holistic Evidence and Design)* gan Peter Barrett, Yufan Zhang, Fay Davies a Lucinda Barrett, Prifysgol Salford, Manceinion, Chwefror 2015
[3] *Clever Classrooms*, Tudalen 7
[4] *Clever Classrooms*, Tudalen 3

diweddaraf ar ddyluniadau hefyd, sy'n cael ystyriaeth ar gyfer unrhyw ddatblygiadau o'r newydd.

5 Ystyriwyd tri grŵp o ffactorau: naturioldeb, sef golau, sŵn, tymheredd, ansawdd aer a chysylltiad â natur – yn gyfrifol am hanner yr effaith ar ddysgu; unigolyddiaeth, sef perchnogaeth, hyblygrwydd a chysylltiad – yn gyfrifol am tua chwarter; a lefel briodol o symbyliad, sef cymhlethdod a lliw – hefyd yn gyfrifol am tua chwarter.

6 Nododd yr adroddiad:

> "A surprising finding is that physical design factors at the school level of analysis did not come through as being of sufficient importance to appear amongst the main factors at all. These covered the size of the school, the provision of shared specialist rooms, routes through the school, the scale and quality of external spaces, etc."[5]

7 O ganlyniad i hyn, wrth ddylunio ysgol, dylid sicrhau yn bennaf fod pob ystafell ddosbarth unigol yn cael ei dylunio yn dda. Dylid osgoi sefyllfa lle mae effaith dyluniad y gwahanol ddosbarthiadau ar ddysgu'r disgyblion yn amrywio, er enghraifft pa gyfeiriad y maent yn wynebu, gan roi rhai dosbarthiadau dan anfantais.

> "It is easy to over-stimulate pupils with vibrant colours and overly busy displays, but a white box is not the answer either"[6].

8 Gall newidiadau bach, nad ydynt yn costio ond ychydig iawn neu ddim byd, wneud gwahaniaeth mawr, er enghraifft newid cynllun ystafell, yr arddangosfeydd neu liw'r waliau. Felly ceir rhai materion sydd angen sylw wrth ddylunio ysgol a materion eraill y gall yr athrawon roi sylw iddynt.

9 Canfuwyd bod tri pharamedr cynllunio yn gymharol ddibwys, sef sŵn, cysylltiad â natur a chysylltiad rhwng ystafelloedd, o'u cymharu â'r saith paramedr arall uchod.

## 10 Naturioldeb

11 ***Golau***: Yn ogystal â sicrhau y gall disgyblion weld, mae golau naturiol da yn creu naws gyfforddus. Yn ôl yr astudiaeth: "Of all the design parameters considered, lighting has the strongest individual impact."[7] Dylid cael llawer o olau naturiol, gan osgoi llacharedd gan olau haul naturiol drwy ddefnyddio bleindiau addas.

12 *Argymhellion i ddylunwyr*: dylid gosod ffenestri mawr mewn ystafelloedd dosbarth sy'n wynebu'r gogledd a dylid eu hosgoi mewn ystafelloedd sy'n wynebu'r de. Os oes gan ystafelloedd sy'n wynebu'r de ffenestri mawr, dylid creu cysgod ar yr ochr allanol.

[5] *Clever Classrooms*, Tudalen 15
[6] *Clever Classrooms*, Tudalen 15
[7] *Clever Classrooms*, Tudalen 18



DRAFT

DRAFT

13 *Argymhellion i athrawon*: ni ddylid gosod gormod o arddangosfeydd ar ffenestri na gosod eitemau mawr o ddodrefn o'u blaenau, yn enwedig ffenestri allanol. Os yw llacharedd yn broblem, dylid ei reoli drwy ddefnyddio bleindiau mewnol sydd â rheolyddion hylaw. Pan nad oes llacharedd dylid agor y bleindiau yn hytrach na rhoi'r golau arnodd er mwyn gwella ansawdd y golau ac arbed ynni.

14 Gellid plannu llwyni neu osod cynhwysyddion planhigion tu allan i ffenestri sy'n wynebu'r de er mwyn osgoi gormodedd o olau.

15 ***Ansawdd aer***: Mae plant yn fwy sensitif i bob math o lygryddion ac mewn ysgolion mae llawer ohonynt mewn lle cyfyng. Mae ansawdd aer gwael yn broblem gyffredin mewn ysgolion a dyfynnwyd ymchwil sy'n dangos gwell perfformiad ymhlith disgyblion pan gaiff ystafelloedd eu hawyru yn dda[8]. Diffiniwyd ansawdd aer gwael fel 1000 ppm $CO_2$ neu fwy. Gyda 30 o ddisgyblion, mewn ystafelloedd heb awyru, gwelwyd bod lefelau $CO_2$ yn cyrraedd y mesur hwn ar ôl 30 munud mewn ystafelloedd "canolig" (181 $m^3$) a 55 munud mewn ystafell fawr iawn (300 $m^3$).

16 *Argymhellion i ddylunwyr*: Mae rheoliadau yn cyfyngu ar arwynebedd lloriau ystafelloedd dosbarth ac felly dylid cael nenfwd uwch os oes modd. Hyd yn oed gyda'r ystafelloedd mwyaf mae angen awyru a dylid sicrhau y gellir agor ffenestri, ar lefelau gwahanol yn enwedig y rhai yn y to, gyda rheolyddion sy'n hylaw. Os nad yw hyn yn bosibl (ee oherwydd sŵn neu ddiogelwch) bydd angen system awyru fecanyddol a hyfforddi athrawon ar sut i'w defnyddio yn gywir.

17 *Argymhellion i athrawon*: gyda 30 o ddisgyblion bydd angen agor ffenestr cyn diwedd gwers. Os nad yw hyn yn bosibl dylid agor ffenestri rhwng gwersi. Dylid osgoi gosod eitemau sy'n rhwystro mynediad at y ffenestri. Gall gosod mesurydd $CO_2$ helpu athrawon ac efallai disgyblion i wybod pryd y dylent agor y ffenestri.

18 ***Tymheredd***: Mae llawer o ymchwil yn dangos bod perfformiad yn gwaethygu os yw'r ystafell yn rhy boeth. Yn ôl undeb yr NASUWT:

> "Excessive heat in classrooms has also been shown in many studies to impact on pupils' learning, with a 1°C increase in temperatures linked to a 2% decline in learning. The effects of extreme temperatures are even more striking, when considering that each additional school day with a temperature in the 30s (°C) reduces pupil achievement by one sixth of a percent of a year's worth of learning. Disadvantaged pupils also suffer up to three times the impact of excessive temperatures than other pupils."[9]

---

[8] Bakó-Biró, Z., D. J. Clements-Cromme, N. Kochhar, H. Awbi, M. Williams, "Ventilation rates in schools and pupils' performance," Building and Environment 48(2012): 215-223 – dyfynnwyd yn *Clever Classrooms*, Tudalen 20

[9] https://www.nasuwt.org.uk/advice/health-safety/excessive-working-temperatures.html yn dyfynnu Goodman, J., Hurwitz, M., Park, J. and Smith, J. (2018). Heat and Learning. National Bureau of Economic Research. Cyrchwyd13.10.2019

19 Yn ôl adroddiad *Clever Classrooms*, y ffactor pwysicaf oedd bod yr athro yn gallu rheoli tymheredd ei ystafell dosbarth[10].

20 *Argymhellion i ddylunwyr*: mae rheiddiaduron â thermostat ym mhob ystafell yn galluogi athrawon i reoli'r tymheredd a'i gadw ar lefel gyfforddus. Ni fydd ystafelloedd sy'n wynebu'r gogledd, y dwyrain neu'r gorllewin yng Ngwynedd yn debygol o orboethi. I'r ystafelloedd sy'n wynebu'r de, bydd angen cysgod, ee canopi neu ordo.

21 *Argymhellion i athrawon*: os gallant reoli'r tymheredd, ee gyda thermostat, yr amodau gorau ar gyfer dysgu yw claear ond cyfforddus. Os yw'r haul yn rhy boeth, gellir plannu llwyni neu osod cynhwysyddion planhigion tu allan i ffenestri, neu ddefnyddio bleindiau gydag awyru.

22 ***Sŵn (llai pwysig)***: Er nad yw'r ymchwil yn dangos bod sŵn yn ffactor o bwys heblaw, efallai i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, dylid cymryd camau i'w reoli.

23 *Argymhellion i ddylunwyr*: dylid lleoli'r ysgol yn bell o ffyrdd prysur neu ffynonellau sŵn eraill. Gellid lleoli dosbarthiadau ymhellach o ffynonellau sŵn allanol, ee trwy leoli toiledau, storfeydd a choridorau rhyngddynt. Mae ystafelloedd petryal yn rhoi i athrawon fwy o hyblygrwydd ar gyfer cyflwyniadau nag ystafelloedd sgwâr. Gellid gosod nenfwd ffug â theils acwstig.

24 *Argymhellion i athrawon*: gellid lleihau'r sŵn mewnol trwy roi traed rwber ar ddodrefn symudol fel cadeiriau, defnyddio tecstilau fel carpedi sy'n amsugno sŵn.

25 ***Cysylltiad â natur (llai pwysig)***: Er bod yr ymchwil yn canfod bod hyn yn llai pwysig na'r ffactorau eraill, gall fod yn fanteisiol ar gyfer ysgrifennu creadigol ac yn sicr mae'n bwysig i'r Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm newydd.

26 *Argymhellion i ddylunwyr*: Dylid sicrhau y gall y disgyblion fynd yn syth allan a gweld pethau naturiol fel glaswellt, gerddi, pyllau dŵr a choed. Dylid gosod ffenestri ar lefel eu llygaid.

27 *Argymhellion i athrawon*: ni ddylid gosod gormod o arddangosfeydd ar ffenestri allanol na gosod eitemau mawr o ddodrefn o'u blaenau. Dylid gosod pethau naturiol yn yr ystafell dosbarth fel planhigion a desgiau a chadeiriau pren.

## *28* Unigolyddiaeth

29 ***Hyblygrwydd***: Gall ystafelloedd dosbarth hyblyg gynnig amrywiaeth o ddulliau dysgu gwahanol. Bydd angen addasu i'r dyfodol wrth i ddulliau addysgeg, rhaglenni a strategaethau addysgol ddatblygu. Canfu'r ymchwil fod yr elfennau isod yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad:

DRAFT

[10] *Clever Classrooms*, Tudalen 22

- llefydd i grwpiau bach neu addysgu un i un - ardaloedd clir yn yr ystafell neu ystafelloedd cyfagos. Nid oedd llefydd mewn coridorau neu ar wahân i'r ystafell ddosbarth yn effeithiol
- storfeydd - yn yr ystafell ddosbarth neu mewn coridorau
- ardaloedd dysgu - yn enwedig ar gyfer disgyblion ifanc
- siâp ac arwynebedd yr ystafell - mae siâp cymhleth yn helpu i greu ardaloedd gwahanol ar gyfer gweithgareddau gyda disgyblion ifanc; mae ystafelloedd mwy sgwâr yn gweithio'n well gyda disgyblion hŷn
- waliau - mae waliau mawr, hygyrch yn dangos cyfleoedd hyblyg i arddangos gwybodaeth a gwaith disgyblion.

30 *Argymhellion i ddylunwyr*: dylid creu llefydd amgaeedig i grwpiau bach neu addysgu un i un. Mae angen digon o storfeydd, gan gynnwys pegiau cotiau, a gellir defnyddio coridorau llydan ar gyfer hyn. Mae siâp cymhleth yn fuddiol i ystafelloedd Cyfnod Sylfaen, gydag ystafelloedd mwy sgwâr ar gyfer Cyfnod Allweddol 2. Mae wal fawr, heb ffenestr a drws, yn fuddiol ar gyfer arddangosfeydd.

31 *Argymhellion i athrawon*: mae ar ddisgyblion ifanc angen ardaloedd dysgu clir ac amrywiol. Os yw'r dodrefn yn isel, bydd mwy o le ar gael ar y waliau ar gyfer arddangosfeydd.

32 ***Perchnogaeth***: sef nodweddion sy'n helpu disgyblion i deimlo bod yr ystafell ddosbarth yn perthyn iddynt.

33 *Argymhellion i ddylunwyr*: dylai ystafelloedd fod â nodweddion nodedig, er mwyn i'r disgyblion allu uniaethu â'u hystafell *hwy*. E.e. siâp, dyluniad, nenfwd nodedig, dodrefn diddorol.

34 *Argymhellion i athrawon*: gellir gwneud yr ystafell ddosbarth yn wahanol i ystafelloedd eraill a hyrwyddo ymdeimlad o berchnogaeth drwy gynnwys arddangosfeydd gan y disgyblion ac elfennau fel loceri, pegiau, droriau ag enwau/lluniau'r plant.

35 ***Cysylltiad (llai pwysig)***: oherwydd, mewn ysgolion cynradd, mae'r disgyblion yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser dysgu mewn un ystafell, yn hytrach na theithio trwy'r ysgol.

36 *Argymhellion i ddylunwyr*: mae coridorau llydan, gyda nodweddion nodedig, yn helpu disgyblion i deithio trwy'r ysgol yn ddiogel, yn enwedig os oes ffenestri. Gallant ddarparu cypyrddau a phegiau ac arbed lle yn yr ystafelloedd dosbarth. Gall darparu cyfleusterau llyfrgell mewn lle naturiol helpu gyda chynnydd mewn darllen.

37 *Argymhellion i athrawon*: dylid cadw coridorau yn glir gyda llinellau gweld clir a thirnodau i helpu disgyblion i weld ble maent.

## 38 Symbyliad

39 ***Lefel briodol o gymhlethdod***: Gall cymhlethdod ei gwneud yn fwy anodd canolbwyntio ar dasg ond gall hefyd symbylu disgyblion i gydweithio. Nododd yr astudiaeth: "high or low levels of complexity produced poorer learning conditions, whereas an intermediate level of visual complexity was optimal."[11]

40 *Argymhellion i ddylunwyr*: gall siâp a ffurf cynllun llawr yr ystafell ddosbarth greu lefel resymol o ddiddordeb gweledol - heb fod yn anniddorol ond heb fod yn rhy gyffrous. Gellir cynyddu neu leihau cymhlethdod wrth ddylunio'r nenfwd.

41 *Argymhellion i athrawon*: dylai'r arddangosfeydd ar y waliau fod yn fywiog ond heb greu annibendod. Dylid gadael tua 20-50% o arwynebedd y waliau yn glir a dylid osgoi defnyddio ffenestri i'r pwrpas hwn. Dylid ystyried lefel cymhlethdod yr ystafell wrth benderfynu ar lefel cymhlethdod yr arddangosfeydd.

42 ***Lefel briodol o liw***: Mae lliwiau llachar yn creu lefel uchel o symbyliad ac unwaith eto, fel gyda chymhlethdod, ceir y dysgu gorau gyda lefel ganolig o liw. Yn ôl yr astudiaeth: "Large, brightly coloured areas rated poorly as did white walls with few colour elements. The intermediate case with light walls generally, plus a feature wall in a brighter colour was found to be most effective for learning."[12]. Dylid cael llawer o olau naturiol, gan osgoi llacharedd gan olau haul naturiol drwy ddefnyddio bleindiau addas.

43 *Argymhellion i ddylunwyr*: ceir lefel priodol o symbyliad gyda waliau lliw golau a wal nodwedd mewn lliw mwy llachar. Gellir ychwanegu lliw gyda charpedi a dodrefn.

44 *Argymhellion i athrawon*: dylid asesu elfennau lliw na ellir eu newid yn hawdd ac wedyn penderfynu faint o liwiau llachar i'w cyflwyno, e.e. yn y cefndir i arddangosfeydd. Dylid cynyddu'r symbyliad os nad oes digon neu ei dawelu os yw eisoes braidd yn llachar.

## 45 Casgliad

46 Dangosodd yr astudiaeth sut mae adeiladau yn effeithio ar berfformiad disgyblion ac mae crynodeb o'r argymhellion i ddylunwyr i'w gweld ar dudalennau 40-41 ac argymhellion i athrawon ar dudalen 42-43 yn adroddiad *Clever Classrooms*. Gwnaed yr ymchwil yn Lloegr, sydd â system addysg wahanol, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen, ac edrychwyd ar ddarllen, ysgrifennu a mathemateg yn unig. Er bod angen cadw hynny mewn cof, credwn fod yr argymhellion yn werthfawr a dylai dylunwyr ac athrawon eu hystyried wrth gynllunio eu hystafelloedd dysgu.

[11] *Clever Classrooms*, Tudalen 34
[12] *Clever Classrooms*, Tudalen 36